BeGambleAware.org

GambleAware

# Ystadegau Cenedlaethol gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol

1af Ebrill 2020 i 31ain Mawrth 2021

2020/ 2021

National Gambling Treatment Service

# Report Structure

**Annual Statistics from the National Gambling Treatment Service** 5
Great Britain

**Annual Statistics from the National Gambling Treatment Service** 44
England

**Annual Statistics from the National Gambling Treatment Service** 82
Scotland

**Annual Statistics from the National Gambling Treatment Service** 109
Wales

# Contents


## Great Britain 5

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 7 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | 9 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | 10 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | 12 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | 12 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | 12 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD/DRF 2020/21 | 14 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | 15 |
| 9 | Mynediad at Wasanaethau | 28 |
| 10 | Ymgysylltiad | 30 |
| 11 | Canlyniadau'r Driniaeth | 31 |
| 12 | Tueddiadau | 38 |

## England 44

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 46 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | 48 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | 49 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | 51 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | 51 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | 51 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21 | 53 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | 54 |
| 9 | Mynediad at wasanaethau | 67 |
| 10 | Ymgysylltiad | 69 |
| 11 | Canlyniadau'r Driniaeth | 70 |
| 12 | Tueddiadau | 78 |

## Scotland 82

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 84 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | 85 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | 87 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | 89 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | 89 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | 89 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21 | 87 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | 92 |
| 9 | Mynediad at wasanaethau | 99 |
| 10 | Canlyniadau'r Driniaeth | 100 |
| 11 | Tueddiadau | 105 |

## Wales 109

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 111 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | 112 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | 113 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | 115 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | 115 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | 116 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21 | 117 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | 118 |
| 9 | Mynediad at wasanaethau | 125 |
| 10 | Canlyniadau'r Driniaeth | 126 |
| 11 | Tueddiadau | 131 |

## Atodiadau 135

| | | |
|---|---|---|
| 12 | Atodiadau | 136 |

# Ystadegau Cenedlaethol gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol
## Prydain Fawr

1st April 2020 to 31st March 2021

GambleAware

# Cynnwys

## Prydain Fawr


| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | | 7 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | | 9 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | | 10 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | | 12 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | | 12 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | | 12 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD/DRF 2020/21 | | 14 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | | 15 |
| | 8.1 | Oedran a rhyw Cleientiaid | 15 |
| | 8.2 | Ethnigrwydd Cleientiaid | 17 |
| | 8.3 | Statws perthynas Cleientiaid | 18 |
| | 8.4 | Statws cyflogaeth Cleientiaid | 19 |
| | 8.5 | Proffil gamblo | 20 |
| | 8.5.1 | Lleoliadau gamblo | 20 |
| | 8.5.2 | Gweithgareddau gamblo | 20 |
| | 8.5.3 | Hanes gamblo | 22 |
| | 8.5.4 | Arian sy'n cael ei wario ar gamblo | 23 |
| | 8.5.5 | Math y gamblo yn ôl oedran | 24 |
| | 8.5.6 | Lleoliad gamblo yn ôl rhyw | 25 |
| | 8.5.7 | Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig | 26 |
| | 8.5.8 | Gamblo yn ôl statws perthynas | 26 |
| | 8.5.9 | Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth | 27 |
| 9 | Mynediad at Wasanaethau | | 28 |
| | 9.1 | Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer triniaeth | 28 |
| | 9.2 | Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf | 29 |
| 10 | Ymgysylltiad | | 30 |
| | 10.1 | Cyfnod yr amser yn derbyn triniaeth | 31 |
| 11 | Canlyniadau'r Driniaeth | | 31 |
| | 11.1 | Y rhesymau dros adael triniaeth | 31 |
| | 11.2 | Sgorau difrifoldeb | 32 |
| | 11.2.1 | Sgorau difrifoldeb sylfaenol | 32 |
| | 11.2.2 | Newid mewn sgorau difrifoldeb | 34 |
| 12 | Tueddiadau | | 38 |
| | 12.1 | Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth | 38 |
| | 12.2 | Tueddiadau o ran y math o gamblo | 39 |
| | 12.3 | Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth | 41 |
| | 12.4 | Tueddiadau o ran nodweddion y cleient | 42 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

### Nodweddion y cleient

- Cafodd Cyfanswm o 8,490 o breswylwyr eu trin yn y gwasanaethau gamblo (sy'n adrodd i'r Fframwaith Adrodd Data (FfAD/DRF)) ym Mhrydain Fawr yn ystod 2020/21.
- Roedd mwyafrif helaeth y cleientiaid (70%) yn wrywod.
- Roedd tri chwarter (75%) y cleientiaid yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed, sy'n cyfrif am gyfanswm o 39% o'r cleientiaid.
- Roedd naw o bob deg (88%) o gefndir ethnig gwyn, gan gynnwys 81% a oedd yn Wyn Prydeinig a 5% a oedd yn Wyn Ewropeaidd. Y cefndiroedd ethnig mwyaf cyffredin a adroddwyd wedyn oedd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (5%), a Du neu Ddu Prydeinig (4%).
- Roedd mwyafrif y cleientiaid naill ai mewn perthynas (36%) neu'n briod (26%). Roedd 30% arall yn sengl, 4% wedi gwahanu a 3% wedi cael ysgariad.
- Yn nhermau statws gweithio, roedd y mwyafrif yn gyflogedig (73%), gyda chyfrannau llai yn adrodd eu bod yn ddi-waith (10%), yn analluog i weithio oherwydd salwch (9%), wedi ymddeol (2%), yn cadw tŷ (3%) neu'n fyfyriwr (2%).

### Proffil gamblo

- Ymysg cleientiaid a oedd yn derbyn triniaeth am eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo, roedd sgoriau cychwynnol y Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI)[1] yn dangos bod gan y mwyafrif (94%) sgôr o wyth neu fwy (y mae'r raddfa MDGP yn eu dosbarthu'n bobl â phroblem gamblo) ar adeg eu hasesu ar gyfer triniaeth. Ymysg y rheiny yr oedd eu cyfnod o driniaeth wedi dod i ben o fewn blwyddyn 2020/21, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 28% a dangosodd y mwyafrif (80%) rywfaint o wellhad ar y raddfa hon.
- Y lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer gamblo oedd gamblo ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 79% o gleientiaid. Siopau betio oedd y lleoliad mwyaf cyffredin wedyn, sy'n cael ei ddefnyddio gan 29% o gamblwyr. Roedd yn amlwg fod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn uwch ymysg grwpiau oedran iau.
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, roedd y gyfran a oedd yn adrodd am ddefnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein wedi cynyddu o 57% i 79%. Yn yr un cyfnod, roedd y gyfran a oedd yn defnyddio siopau betio wedi gostwng o 56% i 29%.
- Ymysg gwasanaethau ar-lein, y gweithgaredd mwyaf cyffredin oedd gamblo drwy slotiau casino (32%), a ddilynwyd gan ddigwyddiadau chwaraeon (27%) a gemau bwrdd casino (21%).
- Ymysg siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo (13%), a ddilynwyd gan ddigwyddiadau chwaraeon (9%) a cheffylau (8%).
- O gymharu â gamblwyr Gwyn, roedd y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Ddu neu Ddu Prydeinig yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (46% o gymharu â 28%) neu gasinos (17% o gymharu â 5%). Roedd y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (33%) neu gasinos (15%) na chleientiaid Gwyn.
- Roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (63%) yn adrodd bod ganddyn nhw ddyled oherwydd eu gamblo, roedd 11% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo ac roedd 27% wedi cael profiad

1 Gweler yr Atodiad, adran 11.2

o berthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo. Ar adeg cyflwyno i wasanaethau gamblo, bu gamblwyr (problemus) yn gamblo am gyfartaledd (canolrif) o 10 mlynedd.

- Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £1,000 ar gamblo yn y 30 niwrnod blaenorol cyn iddyn nhw gael eu hasesu, gyda 50% yn gwario mwy na hyn.

### Ymgysylltu â thriniaeth

- Roedd mwyafrif yr atgyfeiriadau i gael triniaeth (93%) yn cael eu gwneud gan y cleientiaid eu hunain.
- Ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn blwyddyn, gwelwyd 50% gleientiaid am y tro cyntaf o fewn tri diwrnod ar ôl cael eu hatgyfeirio, a gwelwyd 75% ohonyn nhw o fewn wyth diwrnod.
- Ymysg pob un o'r rhai hynny sy'n derbyn a diweddu eu triniaeth o fewn 2020/21, roedd y driniaeth yn parhau am gyfartaledd (canolrif) o 9 wythnos. Yn gyffredinol, derbyniodd y cleientiaid gymedr o wyth apwyntiad o fewn eu cyfnod o driniaeth.

### Canlyniadau'r driniaeth

- Ymysg y cleientiaid y daeth eu triniaeth i ben yn ystod 2020/21, cwblhaodd y mwyafrif (74%) y driniaeth a drefnwyd. Gadawodd un o bob pump (20%) y driniaeth a drefnwyd cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen.
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, cynyddodd y gyfran o gleientiaid a oedd yn cwblhau triniaeth a drefnwyd o 59% i 74%, tra bod y gyfran a oedd yn gadael y driniaeth wedi gostwng o 35% i 20%.
- Ymysg gamblwyr, bu gwellhad yn y sgorau MDGP gyda chyfartaledd (canolrif) o 13 pwynt rhwng yr apwyntiad cynharaf a'r un olaf yn y driniaeth.
- Ar y pwynt diweddaraf yn y driniaeth, roedd gan 72% sgôr MDGP o saith neu lai, o gymharu â 6% ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau mewn sgôr MDGP ar gyfer 92% o gamblwyr a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 60% o'r rheiny a oedd wedi rhoi'r gorau iddi.
- Diffiniwyd 63% o gleientiaid fel rhai 'is na'r torbwynt clinigol' ar raddfa CORE-10 ar ddiwedd y driniaeth, o'i gymharu â 17% yn unig ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau yn y sgôr CORE-10 o ran 88% o gleientiaid a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 52% o'r rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi.

# 2 Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (GTGC/NGTS) yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu triniaeth a chefnogaeth gyfrinachol ar gyfer unrhyw un sy'n profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ac mae'n rhad ac am ddim ledled Lloegr, Yr Alban a Chymru. Mae'r GTGC yn cael ei gomisiynu gan GambleAware, sef elusen annibynnol sy'n dyfarnu grantiau ac yn mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus er mwyn lleihau niwed drwy gamblo.

Ble bynnag y mae rhywun yn cysylltu trwy'r rhwydwaith hwn, mae'r darparwyr hyn yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd drwy lwybrau atgyfeirio i gyflawni'r pecyn gofal mwyaf addas ar gyfer unigolion sy'n profi anawsterau gyda gamblo, ac i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan arferion gamblo rhywun arall.

Mae'r data ar gyfer y cyfnod 2020/21 a geir o fewn yr adroddiad hwn yn ymdrin â gwybodaeth a gyflwynwyd gan y sefydliadau a ganlyn, gyda manylion y gwasanaethau a ddarperir ganddyn nhw'n wedi'u rhestru isod.

### Mae GamCare[2] a'i rwydwaith o bartneriaid yn cynnig:

- Triniaeth ar-lein a gefnogir gan gysylltiad rheolaidd â therapydd, sydd ar gael ar adegau ac mewn mannau sy'n gyfleus i'r cleient dros gyfnod o wyth wythnos.
- Cymorth a thriniaeth therapiwtig un-i-un, wyneb-yn-wyneb, ar-lein a thros y ffôn ar gyfer pobl â phroblemau gamblo, yn ogystal â ffrindiau ac aelodau teulu sy'n cael eu heffeithio gan gamblo.
- Cyrsiau Adfer Gamblo a gyflwynir wyneb-yn-wyneb neu ar-lein dros gyfnod o rhwng chwech i wyth wythnos.

### Mae Cymdeithas Gordon Moody yn cynnig:

- Canolfannau Triniaeth Preswyl – dwy ganolfan arbenigol unigryw, sy'n darparu rhaglen driniaeth breswyl ddwys ar gyfer dynion sy'n gaeth i gamblo, dros gyfnod o 14 wythnos.
- Tai/Llety Adferiad – llety arbenigol i'r rheiny sydd wedi cwblhau'r rhaglenni triniaeth ond sydd angen cymorth ychwanegol i'w hadfer rhag mynd yn ôl i'w hen arferion gamblo.
- Rhaglen Encilio a Chwnsela – rhaglenni encilio ar gyfer cohortau o ferched yn unig a chohortau o ddynion yn unig, sy'n cyfuno arosiadau preswyl byr gyda chymorth cwnsela yn y cartref.

### Mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol a Gogledd-orllewin Llundain (Clinig Trin Gamblo Problemus Llundain) yn cynnig:

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

2 Yn ychwanegol, mae GamCare yn gweithredu'r Llinell Gymorth Genedlaethol sy'n cynnig sgyrsiau cymorth byw dros y ffôn ac ar-lein ac sy'n darparu cefnogaeth yn syth i unigolion ac atgyfeiriad i'r gwasanaeth triniaeth. Yn ogystal, mae GamCare yn cynnig gwybodaeth a chyngor drwy'u gwefan, fforymau a gymedrolir ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein ar gyfer grwpiau. Nid yw'r gwasanaethau hyn o fewn cwmpas y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Mae Gwasanaeth Gamblo GIG Gogledd Lloegr, a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Partneriaeth Sefydledig GIG Leeds ac Efrog yn cynnig:

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

Mae angen i ddarparwyr triniaeth GambleAware y telir amdano gyflwyno setiau data chwarterol mewn fformat safonol[3]. Sylfaen yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r cyflwyniadau hyn.

# 3 Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau

Mae Deddf Gamblo 2005 yn cynnwys darpariaeth yn adran 123[4] ar gyfer ardoll ar weithredwyr gamblo i ariannu prosiectau i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ond nid yw llywodraethau olynol wedi rhoi'r ddarpariaeth hon ar waith. Yn absenoldeb ardoll o'r fath, mae'r Comisiwn Gamblo yn gosod gofyniad ar weithredwyr trwy'r Amodau Trwydded a Chod Ymarfer[5] i wneud cyfraniad i ariannu ymchwil, addysg a thriniaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Llywodraeth yn y broses o gynnal adolygiad o Ddeddf Gamblo 2005 ac mae hi i fod i ryddhau papur gwyn ar ddiwedd 2021 sy'n amlinellu ei chynigion ar gyfer ei diwygio.

Mae GambleAware[6] yn elusen annibynnol sy'n comisiynu gwasanaethau atal a thriniaeth ar sail tystiolaeth mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau arbenigol, ac mae hefyd yn wedi dadlau'n gryf dros gael ardoll orfodol. Yr elusen hon yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw sy'n weithredol ym meysydd ymchwil, addysg a thriniaeth[7], ac oherwydd hyn, gwneir cyfran uchel o roddion i GamblAware. Yn arbennig, gwnaed addewid diweddar i'r elusen o hyd at £100 miliwn gan y pedwar cwmni gamblo mwyaf hyd at y flwyddyn 2024.

Ym Medi 2021, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr (sydd wedi'i ddiddymu) adolygiad o'r dystiolaeth o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo[8]. Daeth y papur i'r casgliad y dylid ystyried bod gamblo niweidiol yn fater iechyd cyhoeddus oherwydd y cysylltiad â niwed i unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymdeithas ehangach. Bydd y Swyddfa Gwella Iechyd ac Atal Gwahaniaethau ('Office for Health Improvement and Disparities', OHID) yn gweithio'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cynllun i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr adroddiad i helpu i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Yn Ionawr 2019, cyhoeddodd GIG Lloegr y byddai'n sefydlu rhagor o glinigau arbenigol i drin anhwylder gamblo[9] ac yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddodd yr amserlen ar gyfer pryd y byddai'r clinigau newydd yn agor[10]. Dechreuodd y cyntaf o'r clinigau hyn gynnig triniaeth yn 2019/20. Yn ogystal, mae rhywfaint o weithgaredd a ariannir gan y GIG i bobl sydd â diagnosis sylfaenol neu

3 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf
4 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/19/section/123
5 http://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/LCCP/Licence-conditions-and-codes-of-practice.aspx
6 Mae gwybodaeth am GambleAware a'i llywodraethu ar gael yn https://about.gambleaware.org/about/
7 https://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/General-compliance/Social-responsibility/Research-education-and-treatment-contributions.aspx
8 https://www.gov.uk/government/news/landmark-report-reveals-harms-associated-with-gambling-estimated-to-cost-society-at-least-1-27-billion-a-year
9 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/08/nhs-long-term-plan-version-1.2.pdf
10 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/07/nhs-mental-health-implementation-plan-2019-20-2023-24.pdf

eilaidd o anhwylder gamblo yn digwydd y tu allan i glinigau arbenigol. Caiff gweithgareddau a ariennir gan y GIG eu hadrodd yn yr ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan y GIG yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Roedd Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 Prif Swyddog Meddygol Cymru[11], a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 yn trafod yr angen am well mesurau i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gan gynnwys gwasanaethau i helpu'r rheiny sydd eisoes yn profi niwed.

Mae GambleAware yn gweithio i sicrhau y caiff dull iechyd cyhoeddus ei fabwysiadu ym Mhrydain Fawr i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, a'i fod yn cael ei arwain gan y fframwaith ar gyfer atal niwed, fel y nodir yn y Strategaeth Genedlaethol i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau aruthrol i gymunedau, unigolion, darparwyr gwasanaeth a'r sector statudol. Mae sawl ardal wedi gweld newid cyflym mewn ymateb i ofynion newydd o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, efallai bod rhai wedi colli cyfle i dderbyn cymorth oherwydd newidiadau mewn gwasanaethau neu eu bod wedi datblygu anghenion newydd sydd heb eu diwallu. Mae effaith hirdymor y pandemig yn debygol o gael ei deimlo am flynyddoedd lawer, a dylai comisiynu effeithiol fod yn ymatebol bob amser i anghenion newidiol y gymdeithas. Mae GambleAware yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â'r GIG, asiantaethau iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol ledled Lloegr, yr Alban a Chymru i ddatblygu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ymhellach. Fel prif gyllidwr y GTGC, mae'r adroddiad ystadegol hwn yn cwmpasu gweithgaredd a gomisiynwyd gan GambleAware.

Mae GambleAware yn aelod o weithgor ar y cyd ar atal niwed sy'n gysylltiedig gamblo sy'n cael ei gyd-gadeirio gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag aelod o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad. Mae GambleAware wedi sefydlu byrddau cynghori yng Nghymru a Lloegr i arwain cynlluniau comisiynu at y dyfodol yn y gwledydd hynny, ac mae'n bartner anfasnachol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Hefyd, mae GambleAware yn sefydlu Grŵp Cynghori mewn ymgynghoriad â chyrff eraill i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael, ac i gefnogi'r gwaith o alinio, integreiddio ac ehangu gwasanaethau triniaeth ar draws y system fel y gall cleifion gael y driniaeth iawn ar yr adeg iawn.

Trwy gyfuno ffigurau o wasanaethau triniaeth unigol a ariennir gan GambleAware i greu set ddata sy'n cwmpasu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol cyfan, darperir cyfleoedd newydd i gael gwell dealltwriaeth, ymhlith y boblogaeth sy'n derbyn triniaeth, o:

- Raddfa a difrifoldeb niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Nodweddion y rheiny sy'n cael cymorth o ran demograffeg ac ymddygiad
- Cynnydd a chanlyniadau o ran triniaeth

11 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/gambling-with-our-health-chief-medical-officer-for-wales-annual-report-2016-17.pdf

# 4 Cronfa ddata'r FfAD/DRF

Caiff y casgliad o ddata ynghylch cleientiaid sy'n derbyn triniaeth gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ei reoli trwy set ddata a gydlynir yn genedlaethol o'r enw'r Fframwaith Adrodd Data ('Data Reporting Framework'), a gychwynnwyd yn 2015. Mae gwasanaethau triniaeth unigol yn casglu data ar gleientiaid a thriniaeth trwy systemau rheoli achosion pwrpasol. Ymgorfforir y FfAD ym mhob un o'r systemau hyn. Nodir eitemau data o fewn y FfAD ym Manyleb y FfAD [12] (sy'n ddilys tan Fawrth 31ain 2021) ac fe'i darperir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Cesglir data o fewn pedwar tabl ar wahân, sy'n darparu manylion am nodweddion cleientiaid, eu hanes o ran gamblo, manylion atgyfeiriadau a manylion am apwyntiadau. Mae'r FfAD yn cynnwys set ddata graidd gydgysylltiedig, a gesglir i ddarparu adroddiadau cyson y gellir eu cymharu ar lefel genedlaethol. Ceir rhai mân wahaniaethau o ran y data a gesglir rhwng asiantaethau, fel yr ychwanegiad o gategorïau atodol o fewn meysydd unigol, neu yn ffurf data a gesglir. Caiff y rhain eu hailfformatio a'u hailgodio ar lefel genedlaethol i sicrhau cysondeb o fewn manyleb y FfAD.

# 5 Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth am gleientiaid asiantaethau'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol, ac yn darparu manylion am nodweddion cleientiaid, gweithgareddau a hanes gamblo, ynghyd â thriniaeth a dderbynnir a chanlyniadau dilynol. Fe'i cyfyngir i gleientiaid y mae tystiolaeth yn bodoli ar eu cyfer eu bod wedi derbyn triniaeth strwythuredig o fewn y cyfnod adrodd, ac felly nid yw'n cynrychioli holl weithgaredd yr asiantaethau sy'n adrodd, ac nid yw ychwaith yn dal gwybodaeth am unrhyw wybodaeth am weithgareddau asiantaethau nad ydynt yn adrodd i'r system FfAD. Mae'n darparu crynodeb a adroddir yn gyson, y gellir ei gymharu o un flwyddyn i'r llall.

# 6 Nodiadau ar ddehongli

Mae coladu'r FfAD a'r lefel genedlaethol yn system gasglu data dienw. Ar lefel gwasanaeth, cesglir codau cleientiaid i wahaniaethu un cleient o'r llall. Bydd cyfansymiau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu symio i ddarparu amcangyfrif o lefelau triniaeth cenedlaethol. Os yw cleientiaid yn mynychu mwy nag un gwasanaeth o fewn y cyfnod adrodd, fe gânt eu cyfrif gan bob gwasanaeth a fynychir ganddynt. Ni ellir cyfrifo lefel y gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau'n gywir, ond disgwylir y bydd yn ganran fach iawn o gyfanswm nifer y cleientiaid a amcangyfrifir ar lefel genedlaethol. Felly dylid dehongli cyfanswm y nifer a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel amcangyfrif o gyfanswm nifer y cleientiaid sy'n derbyn triniaeth o fewn asiantaethau sy'n cymryd rhan.

Gall cleientiaid gwasanaethau triniaeth gamblo naill ai fod yn gamblwyr eu hunain, yn 'rai eraill a effeithir' neu'n unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo. O fewn yr adroddiad hwn, caiff unigolion eu categoreiddio fel 'gamblwyr' neu 'Gleientiaid eraill'. Mae 'Cleientiaid eraill' yn cynnwys rhai eraill a effeithir, unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo a'r rheiny na chafodd y wybodaeth hon ei chofnodi ar eu cyfer. Cyflwynir data am nodweddion cleientiaid

12 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf

a'u hymgysylltiad â thriniaethau ar gyfer y ddau gategori o gleientiaid. Ni chaiff manylion am weithgareddau gamblo a hanes unigolion o ran eu harferion gamblo ond eu cyflwyno ar gyfer cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr.

O fewn yr adroddiad hwn, cyflwynir cyfartaleddau fel cymedrau neu ganolrifau, neu weithiau'r ddau gyda'i gilydd. Gan fod gwerthoedd unigol eithaf yn effeithio'r cymedr on nid y canolrif, yn aml, ffefrir y canolrif fel mesur canolduedd.

Roedd y cyfnod triniaeth Ebrill 1af 2020-Mawrth 31ain 2021 yn cyd-daro â'r pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, yn aml roedd yr hawl i symud a chael mynediad i leoliadau cyhoeddus wedi'i gyfyngu. Gellir cael manylion y cyfnodau clo a'r cyfyngiadau eraill yma:

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru

O fewn y cyfnodau clo, cyfyngwyd ar fynediad i wasanaethau a ddiffinnir fel rhai hanfodol. Roedd lleoliadau o fewn y sector lletygarwch ac adloniant, fel tafarnau, bwytai a sinemâu, ond hefyd siopau betio, casinos a neuaddau bingo, wedi cau yn ystod y cyfnodau clo, ac yn destun cyrffywiau a chyfyngiadau o ran cadw pellter y tu allan i'r cyfnodau hynny.

# 7 Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD/DRF 2020/21

Dengys Tabl 1 isod lefel gwblhau y manylion a gymerir ar adeg asesu cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21. Nid yw manylion gweithgareddau gamblo a hanes cleientiaid o ran arferion gamblo yn cael eu casglu fel mater o drefn ar gyfer cleientiaid nad ydynt eu hunain yn gamblwyr. Nid yw pa mor gyflawn yw'r wybodaeth ynghylch gamblo ond yn berthnasol i gleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr. O ran y mwyafrif o'r eitemau data, mae bron i 100% ohonynt yn gyflawn, sy'n golygu bod y data'n gynrychioladol o'r boblogaeth hon sy'n derbyn triniaeth, sy'n lleihau unrhyw debygolrwydd o duedd ac sy'n dilysu cymariaethau rhwng cyfnodau amser ac is-samplau.

**Tabl 1 Lefel gwblhau meysydd data penodol**

| Eitem ddata | Lefel gwblhau |
|---|---|
| Rheswm dros yr atgyfeiriad | 100% |
| Ffynhonnell yr atgyfeiriad | 99.9% |
| Rhyw | 98.0% |
| Ethnigrwydd | 96.8% |
| Statws cyflogaeth | 94.2% |
| Statws o ran perthynas | 95.5% |
| Prif weithgaredd gamblo | 91.7% |
| Arian a gaiff ei wario ar gamblo | 96.3% |
| Colli swydd | 96.7% |
| Perthynas yn chwalu | 96.8% |
| Ennill swm mawr o arian yn gynnar | 97.1% |
| Dyled o ganlyniad i gamblo | 95.1% |
| Hanes gamblo'r cleient yn nhermau amser | 91.4% |
| Oedran dechrau (o ran gamblo problemus) | 93.8% |
| Nifer y diwrnodau yn gamblo bob mis | 85.8% |

# 8 Nodweddion Cleientiaid

Cafodd cyfanswm o 8,490 o unigolion eu trin gan y gwasanaethau gamblo sy'n darparu data FfAD o fewn 2020/21. Mae hyn yn cynnwys 7,726 o breswylwyr yn Lloegr, 268 yn yr Alban a 347 yng Nghymru.

Roedd mwyafrif y rheiny a welwyd gan wasanaethau gamblo yn gamblwyr (7191, 85%). Fodd bynnag, roedd 1245 (15%) o atgyfeiriadau'n ymwneud â 'rhai eraill a effeithir', hynny yw, unigolion nad ydynt o reidrwydd yn gamblwyr ond y cafodd eu bywydau eu heffeithio gan y rheiny sy'n gamblwyr. Roedd nifer fechan (53, 1%) o atgyfeiriadau'n ymwneud ag unigolion a oedd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo (gweler adran 6). Caiff pob cleient ei gynnwys mewn dadansoddiadau o nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaeth, ond dim ond cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr a gynhwysir mewn dadansoddiadau o weithgareddau gamblo cleientiaid a'u hanes o ran arferion gamblo.

Roedd chwarter (22%) yr achosion a welwyd yn 2020/21 ar gyfer triniaeth fynych (cleientiaid a welwyd yn flaenorol gan y gwasanaeth sy'n adrodd).

## 8.1 Oedran a rhyw Cleientiaid

Roedd gan gleientiaid oedran cyfartalog (canolrifol) o 35 mlwydd oed ar adeg eu hatgyfeirio, gyda thri chwarter (75%) yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed. Roedd rhyw yn amrywio'n sylweddol yn ôl math y cleient (Tabl 4) gyda 80% o gamblwyr yn wrywod o gymharu â dim ond 15% o gleientiaid eraill (Tabl 2) sy'n cyfrif am gyfanswm o 39% o gleientiaid. Roedd gan gleientiaid ar wahân i gamblwyr oedran canolrifol o 40 oed ac yn fwy tebygol o fod yn y bandiau oedran dros 50 oed (Tabl 3).

Roedd mwyafrif helaeth y cleientiaid yn wrywod (70%) Mae hyn yn cymharu â 49% yn y boblogaeth yn gyffredinol ym Mhrydain Fawr[13]. Mae'r dosbarthiad oedran yn amrywio yn ôl rhyw (Tabl 2 a Ffigur 1), gyda dosbarthiad benywod yn ôl oedran yn fwy cyfartal, gan gynnwys cyfran uwch yn y grwpiau oedran hŷn (45+) o gymharu â gwrywod. Mae hyn yn arwain at oedran cyfartalog (canolrifol) uwch o 38 oed ar gyfer benywod o gymharu â 33 ar gyfer gwrywod. Cafwyd cryn wahaniaeth o ran rhyw yn ôl math y cleient (Tabl 4) gyda 80% o gamblwyr yn wrywod o gymharu â dim ond 15% o gleientiaid eraill.


13 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 y DU. Dylid nodi bod cyfrannau'r DU yn cynnwys Gogledd Iwerddon, nad yw o fewn cwmpas y GTGC

## Tabl 2 Oedran a rhyw cleientiaid

| | | Gwryw | | | Benyw | | | Cyfanswm* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | Col % | Rhes % | N | Col % | Rhes % | N | Col % | Rhes % |
| Bandiau oedran | < 20 | 96 | 1.7% | 87.3% | 14 | 0.6% | 12.7% | 110 | 1.3% | 100.0% |
| | 20-24 | 643 | 11.1% | 83.9% | 123 | 5.1% | 16.1% | 766 | 9.3% | 100.0% |
| | 25-29 | 1181 | 20.4% | 78.3% | 326 | 13.5% | 21.6% | 1509 | 18.4% | 100.0% |
| | 30-34 | 1266 | 21.9% | 74.7% | 427 | 17.6% | 25.2% | 1694 | 20.6% | 100.0% |
| | 35-39 | 920 | 15.9% | 69.4% | 405 | 16.7% | 30.5% | 1326 | 16.2% | 100.0% |
| | 40-44 | 607 | 10.5% | 71.3% | 244 | 10.1% | 28.7% | 851 | 10.4% | 100.0% |
| | 45-49 | 404 | 7.0% | 65.8% | 209 | 8.6% | 34.0% | 614 | 7.5% | 100.0% |
| | 50-54 | 293 | 5.1% | 53.4% | 256 | 10.6% | 46.6% | 549 | 6.7% | 100.0% |
| | 55-59 | 185 | 3.2% | 46.8% | 209 | 8.6% | 52.9% | 395 | 4.8% | 100.0% |
| | 60+ | 185 | 3.2% | 46.7% | 210 | 8.7% | 53.0% | 396 | 4.8% | 100.0% |
| | Cyfanswm* | 5780 | 100.0% | 70.4% | 2423 | 100.0% | 29.5% | 8210 | 100.0% | 100.0% |

* ni chynhwysir y rheiny lle nad yw'r oedran neu ryw wedi'i gofnodi neu lle bo'r categori rhyw yn cynnwys llai na 10

## Ffigur 1 Oedran a rhyw cleientiaid ar adeg eu hatgyfeirio



**Tabl 3 Bandiau oedran yn ôl math y cleient**

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | % | N | % | N |
| **Bandiau oedran** | **Under 20** | 101 | 1.4% | 10 | 0.8% |
| | **20-24** | 724 | 10.2% | 57 | 4.4% |
| | **25-29** | 1381 | 19.5% | 172 | 13.3% |
| | **30-34** | 1515 | 21.4% | 208 | 16.1% |
| | **35-39** | 1153 | 16.3% | 200 | 15.4% |
| | **40-44** | 745 | 10.5% | 122 | 9.4% |
| | **45-49** | 528 | 7.5% | 95 | 7.3% |
| | **50-54** | 422 | 6.0% | 133 | 10.3% |
| | **55-59** | 277 | 3.9% | 126 | 9.7% |
| | **60+** | 236 | 3.3% | 172 | 13.3% |
| | Cyfanswm | 7082 | 100.0% | 1295 | 100.0% |
| | Ar goll | 109 | | 4 | |
| | Cyfanswm y Cleientiaid | 7191 | | 1299 | |

**Tabl 4 Rhyw yn ôl math y cleient***

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | % | N | % | N |
| | Gwryw | 5668 | 80.3% | 171 | 13.5% |
| | Benyw | 1382 | 19.6% | 1092 | 86.3% |

* Ni chynhwyswyd categorïau rhyw sydd â llai na 100 o gleientiaid o fewn y tabl hwn

## 8.2 Ethnigrwydd Cleientiaid

Roedd bron i naw o bob deg o'r cleientiaid (88%) o gefndir ethnig Gwyn (Tabl 5) gan gynnwys 81% a oedd yn Wyn Prydeinig a 5% a oedd yn Wyn Ewropeaidd. Y cefndir ethnig a adroddwyd fwyaf wedyn oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (5%), a Du neu Ddu Prydeinig (4%). Mae hyn yn cymharu â chyfrannau cenedlaethol (y DU)[14]

o 87% yn Wyn neu Wyn Prydeinig, 7% yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a 3% yn Ddu neu Ddu Prydeinig.

Er nad oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn bodoli o ran rhyw o fewn categorïau ethnig, roedd cleientiaid benyw ychydig yn llai tebygol na gwrywod o fod yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (3% o gymharu â 6%) neu Ddu neu Ddu Prydeinig (3% o gymharu â 4%).

14 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 y DU. Dylid nodi bod cyfrannau'r DU yn cynnwys Gogledd Iwerddon, nad yw o fewn cwmpas y GTGC.

Tabl 5 Ethnigrwydd cleientiaid

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu Wyn Prydeinig** | Prydeinig | 5643 | 80.8% | 990 | 80.2% | 6633 | 80.7% |
| | Gwyddelig | 59 | 0.8% | 19 | 1.5% | 78 | 0.9% |
| | Ewropeaidd | 316 | 4.5% | 56 | 4.5% | 372 | 4.5% |
| | Arall | 91 | 1.3% | 26 | 2.1% | 117 | 1.4% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | Affricanaidd | 89 | 1.3% | 8 | 0.6% | 97 | 1.2% |
| | Caribïaidd | 66 | 0.9% | 5 | 0.4% | 71 | 0.9% |
| | Arall | 131 | 1.9% | 8 | 0.6% | 139 | 1.7% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig;** | Bangladeshaidd | 38 | 0.5% | 2 | 0.2% | 40 | 0.5% |
| | Indiaidd | 126 | 1.8% | 26 | 2.1% | 152 | 1.8% |
| | Pacistanaidd | 80 | 1.1% | 8 | 0.6% | 88 | 1.1% |
| | Tsieiniïaidd | 27 | 0.4% | 5 | 0.4% | 32 | 0.4% |
| | Arall | 107 | 1.5% | 11 | 0.9% | 118 | 1.4% |
| **Cymysg** | Gwyn ac Asiaidd | 32 | 0.5% | 9 | 0.7% | 41 | 0.5% |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | 20 | 0.3% | 5 | 0.4% | 25 | 0.3% |
| | Gwyn a Caribïaidd Du | 35 | 0.5% | 4 | 0.3% | 39 | 0.5% |
| | Arall | 54 | 0.8% | 7 | 0.6% | 61 | 0.7% |
| **Grŵp ethnig arall** | | 70 | 1.0% | 46 | 3.7% | 116 | 1.4% |
| | **Cyfanswm** | 6984 | 100.0% | 1235 | 100.0% | 8219 | 100.0% |
| | **Ar goll** | 207 | | 64 | | 271 | |
| | **Cyfanswm y Cleientiaid** | 7191 | | 1299 | | 8490 | |

## 8.3 Statws perthynas Cleientiaid

Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid naill ai mewn perthynas (36%) neu'n briod (26%). Roedd 30% arall yn sengl, 4% wedi gwahanu a 3% wedi ysgaru (Tabl 6). O gymharu â chleientiaid gwryw, roedd cleientiaid benyw yn llai tebygol o fod yn sengl (24% o gymharu â 33%) ac yn fwy tebygol o fod yn briod (32% o gymharu â 23%), wedi ysgaru (4% o gymharu â 2%) neu'n weddw (2% o gymharu â <1%).

Tabl 6 Statws perthynas cleientiaid

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Mewn perthynas** | 2470 | 36.0% | 460 | 37.2% | 2930 | 36.2% |
| **Sengl** | 2348 | 34.2% | 115 | 9.3% | 2463 | 30.4% |
| **Priod** | 1565 | 22.8% | 530 | 42.8% | 2095 | 25.8% |
| **Wedi gwahanu** | 293 | 4.3% | 62 | 5.0% | 355 | 4.4% |
| **Wedi ysgaru** | 152 | 2.2% | 51 | 4.1% | 203 | 2.5% |
| **Gweddw** | 40 | 0.6% | 19 | 1.5% | 59 | 0.7% |
| **Cyfanswm** | 6868 | 100.0% | 1237 | 100.0% | 8105 | 100.0% |
| **Ar goll** | 323 | | 62 | | 385 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 7191 | | 1299 | | 8490 | |

## 8.4 Statws cyflogaeth Cleientiaid

Roedd mwyafrif y cleientiaid yn gyflogedig (73%). Y statws cyflogaeth a adroddwyd fwyaf wedyn oedd y di-waith (10%) a ddilynwyd gan rai a oedd yn analluog i weithio oherwydd salwch (9%), rhai a oedd yn cadw tŷ (3%), wedi ymddeol (2%) ac yn fyfyrwyr (2%). Roedd cleientiaid benyw yn llai tebygol o fod yn ddi-waith (62% o gymharu â 77% o wrywod) ac yn fwy tebygol o fod yn cadw tŷ (8% o gymharu â <1%), yn analluog i weithio oherwydd salwch (14% o gymharu â 7%) neu wedi ymddeol (4% o gymharu â 2%).

Tabl 7 Statws cyflogaeth cleientiaid

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Cyflogedig** | 4936 | 72.7% | 878 | 72.4% | 5814 | 72.7% |
| **Di-waith** | 746 | 11.0% | 65 | 5.4% | 811 | 10.1% |
| **Myfyriwr** | 151 | 2.2% | 21 | 1.7% | 172 | 2.1% |
| **Analluog i weithio oherwydd salwch** | 682 | 10.0% | 51 | 4.2% | 733 | 9.2% |
| **Cadw tŷ** | 109 | 1.6% | 92 | 7.6% | 201 | 2.5% |
| **Ddim yn chwilio am waith** | 25 | 0.4% | 5 | 0.4% | 30 | 0.4% |
| **Carchar-gofal** | 12 | 0.2% | 2 | 0.2% | 14 | 0.2% |
| **Gwirfoddolwr** | 17 | 0.3% | 3 | 0.2% | 20 | 0.3% |
| **Wedi ymddeol** | 94 | 1.4% | 88 | 7.3% | 182 | 2.3% |
| **Heb ddweud** | 16 | 0.2% | 7 | 0.6% | 23 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | 6788 | 100.0% | 1212 | 100.0% | 8000 | 100.0% |
| **Ar goll** | 403 | | 87 | | 490 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 7191 | | 1299 | | 8490 | |

## 8.5 Proffil gamblo

Mae Adran 8.5 yn adrodd gwybodaeth a gesglir gan gleientiaid a oedd yn adrodd bod eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo yn unig.

### 8.5.1 Lleoliadau gamblo

Caiff hyd at dri gweithgaredd gamblo (penodol yn ôl lleoliad) eu cofnodi ar gyfer pob cleient sy'n gamblo, a chaiff y rhain eu rhestru yn ôl eu harwyddocâd.

Y lleoliad mwyaf cyffredin a adroddwyd ar gyfer gamblo (Tabl 8) oedd ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 79% o gamblwyr a ddarparodd y wybodaeth hon. Siopau Betio oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o leoliad, a ddefnyddiwyd gan 29% o gamblwyr. Ni ddefnyddiwyd unrhyw leoliadau eraill gan fwy na 10% o gamblwyr, er y defnyddiwyd casinos gan 7% a rhai amrywiol (fel y Loteri, cardiau crafu a'r Pŵls Pêl-droed ) gan 8%.

Dengys Tabl 8 leoliadau'r prif weithgaredd gamblo ac, unwaith eto, mae'n dangos mai gwasanaethau ar-lein yw'r rhai mwyaf cyffredin, ac wedyn Siopau Betio. Mae'r ddau leoliad hwn yn cyfrif am y mwyafrif o weithgareddau gamblo, sef 89%.

**Tabl 8 Lleoliad y gweithgaredd gamblo a adroddwyd yn 2020/21**

| | Unrhyw gamblo yn y lleoliad hwn | % | Prif leoliad gamblo | % |
|---|---|---|---|---|
| **Ar-lein** | 5206 | 79.0% | 4595 | 69.7% |
| **Siop Betio** | 1902 | 28.8% | 1254 | 19.0% |
| **Amrywiol** | 535 | 8.1% | 289 | 4.4% |
| **Casino** | 433 | 6.6% | 196 | 3.0% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 166 | 2.5% | 95 | 1.4% |
| **Tafarn** | 131 | 2.0% | 55 | 0.8% |
| **Neuadd Bingo** | 84 | 1.3% | 37 | 0.6% |
| **Arall** | 63 | 1.0% | 35 | 0.5% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 39 | 0.6% | 19 | 0.3% |
| **Digwyddiadau Byw** | 30 | 0.5% | 14 | 0.2% |
| **Clwb Aelodau Preifat** | 9 | 0.1% | 5 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | 6594 | 100.0% | 6594 | 100.0% |
| **Ar goll** | 597 | | 597 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 7191 | | 7191 | |

### 8.5.2 Gweithgareddau gamblo

Dengys Tabl 9 o fewn gwasanaethau ar-lein, mai slotiau casino oedd y gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin, a ddefnyddiwyd gan 32% o gamblwyr yn gyffredinol (sy'n golygu mai hwn yw'r gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin a adroddwyd), ac wedyn digwyddiadau chwaraeon (27%) a gemau bwrdd casino (21%). O fewn siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo, a ddefnyddiwyd gan 14% o gamblwyr, ac wedyn digwyddiadau chwaraeon (9%) a cheffylau (8%).

## Tabl 9 Gweithgareddau gamblo, wedi'u grwpio yn ôl lleoliad

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Siopau Betio** | | | |
| Peiriant gemau (FOBT) | 864 | 13.1% | 45.4% |
| Digwyddiad chwaraeon neu arall | 612 | 9.3% | 32.2% |
| Ceffylau | 538 | 8.2% | 28.3% |
| Cŵn | 155 | 2.4% | 8.1% |
| Peiriant gemau (arall) | 50 | 0.8% | 2.6% |
| Arall | 178 | 2.7% | 9.4% |
| **Neuadd Bingo** | | | |
| Lotri byw | 48 | 0.7% | 57.1% |
| Peiriant gemau (arall) | 33 | 0.5% | 39.3% |
| Peiriant sgiliau | 8 | 0.1% | 9.5% |
| Terfynell | 3 | 0.0% | 3.6% |
| Arall | 2 | 0.0% | 2.4% |
| **Casino** | | | |
| Rwlét | 240 | 3.6% | 55.4% |
| Peiriant gemau (arall) | 87 | 1.3% | 20.1% |
| Gemau cardiau ar wahan i bocer | 58 | 0.9% | 13.4% |
| Pocer | 42 | 0.6% | 9.7% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 31 | 0.5% | 7.2% |
| Arall | 14 | 0.2% | 3.2% |
| **Digwyddiadau byw** | | | |
| Ceffylau | 18 | 0.3% | 60.0% |
| Digwyddiad chwaraeon neu arall | 9 | 0.1% | 30.0% |
| Cŵn | 5 | 0.1% | 16.7% |
| Arall | 2 | 0.0% | 6.7% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | | | |
| Peiriant gemau (arall) | 149 | 2.3% | 89.8% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 13 | 0.2% | 7.8% |
| Peiriannau gwobrwyo sgiliau | 2 | 0.0% | 1.2% |
| Arall | 3 | 0.0% | 1.8% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | | | |
| Peiriant gemau (arall) | 34 | 0.5% | 87.2% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 1 | 0.0% | 2.6% |
| Arall | 4 | 0.1% | 10.3% |

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Tafarn** | | | |
| Tafarn- Peiriant gemau (arall) | 124 | 1.9% | 94.7% |
| Tafarn- Pocer | 2 | 0.0% | 1.5% |
| Tafarn- Chwaraeon | 1 | 0.0% | 0.8% |
| Tafarn- Arall | 4 | 0.1% | 3.1% |
| **Ar-lein** | | | |
| Casino (slotiau) | 2104 | 31.9% | 40.4% |
| Digwyddiadau chwaraeon | 1772 | 26.9% | 34.0% |
| Casino (Gemau bwrdd) | 1363 | 20.7% | 26.2% |
| Ceffylau | 631 | 9.6% | 12.1% |
| Bingo | 218 | 3.3% | 4.2% |
| Pocer | 178 | 2.7% | 3.4% |
| Gwasgar-fetio | 122 | 1.9% | 2.3% |
| Cŵn | 110 | 1.7% | 2.1% |
| Cardiau crafu | 30 | 0.5% | 0.6% |
| Cyfnewidfa fetio | 12 | 0.2% | 0.2% |
| Arall | 338 | 5.1% | 6.5% |
| **Amrywiol** | | | |
| Cardiau crafu | 286 | 4.3% | 53.5% |
| Pŵls Pêl-droed | 99 | 1.5% | 18.5% |
| Loteri (Cenedlaethol) | 97 | 1.5% | 18.1% |
| Gemau preifat/ wedi'u trefnu | 37 | 0.6% | 6.9% |
| Loteri (arall) | 30 | 0.5% | 5.6% |
| Gorsaf wasanaethau (Peiriant gemau) | 28 | 0.4% | 5.2% |
| **Clwb aelodau preifat** | | | |
| Gemau cardiau ar wahan i bocer | 4 | 0.1% | 44.4% |
| Pocer | 2 | 0.0% | 22.2% |
| Peiriant gemau | 2 | 0.0% | 22.2% |
| Arall | 2 | 0.0% | 22.2% |
| **Lleoliad arall** | 63 | 1.0% | |
| **Cyfanswm** | 6594 | | |
| **Ar goll** | 597 | | |
| **Cyfanswm y gamblwr** | 7191 | | |

*Gall y %au ddod i gyfanswm o lai na > 100%

### 8.5.3 Hanes gamblo

Mae'r FfAD yn cynnwys sawl mesur o ganlyniadau niweidiol gamblo. Lle bo hynny'n hysbys, roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (62%) wedi cael y profiad o ennill swm mawr o arian yn gynnar yn eu hanes o ran gamblo. Ymysg y rheiny a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn, roedd 11% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo a 27% wedi profi perthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo.

Nid oedd gan bron i bedwar o bob deg gamblwr (37%) unrhyw ddyled o ganlyniad i gamblo ar adeg yr asesiad (Tabl 10). Fodd bynnag, roedd gan 23% ddyledion o hyd at £5,000 ac roedd gan 40% ddyledion o dros £5,000 neu roeddynt yn fethdalwyr neu wedi cytuno i Drefniant Gwirfoddol Unigol (IVA).

**Tabl 10 Dyled o ganlyniad i gamblo**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Dim dyled** | 2273 | 36.9% |
| **O dan £5000** | 1434 | 23.3% |
| **£5000-£9,999** | 711 | 11.5% |
| **£10,000-£14,999** | 439 | 7.1% |
| **£15,000-£19,999** | 324 | 5.3% |
| **£20,000-£99,999** | 777 | 12.6% |
| **£100,000 neu ragor** | 81 | 1.3% |
| **Methdaliad** | 39 | 0.6% |
| **Mewn IVA** | 89 | 1.4% |
| **Cyfanswm** | 6167 | 100.0% |
| **Ar goll** | 1024 | |
| **Cyfanswm y gamblwr** | 7191 | |

Nid oedd unrhyw berthynas glir rhwng math y gweithgareddau gamblo a adroddwyd ac adroddiadau o ennill swm mawr yn gynnar. Roedd defnyddio siopau betio yn fwy cyffredin ymysg y rheiny a oedd yn adrodd eu bod wedi profi perthynas yn chwalu trwy gamblo (39% o gymharu â 25% o'r rheiny nad oeddynt yn adrodd unrhyw golled), ond roedd defnyddio gwasanaethau ar-lein yn fwy cyffredin ymysg y rheiny a oedd yn adrodd nad oeddynt wedi profi perthynas yn chwalu (82% o gymharu â 74% o'r rheiny nad oeddynt yn adrodd unrhyw golled). Yn yr un modd, defnyddiwyd siopau betio (47% o gymharu â 26%) a chasinos (11% o gymharu â 6%) yn amlach gan y rheiny a oedd wedi colli swydd trwy gamblo, o gymharu â'r rheiny nad oeddynt wedi colli swydd, ond defnyddiwyd gwasanaethau ar-lein yn amlach gan y rheiny nad oeddynt wedi colli swydd (81% o gymharu â 67% o'r rheiny nad oeddynt yn adrodd unrhyw golled).

Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau pan oeddynt yn 25 oed, er bod hyn yn amrywio'n fawr. Roedd tri chwarter y gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau erbyn iddynt fod yn 32 oed, a chwarter ohonynt erbyn iddynt fod yn 19 oed. Ar adeg eu cyflwyno i'r gwasanaethau gamblo, bu gamblwyr yn gamblo (i raddau problemus) am 10 mlynedd ar gyfartaledd (canolrif). Unwaith eto, roedd hyn yn amrywiol iawn, yn amrywio o fis i 60 mlynedd.

### 8.5.4 Arian sy'n cael ei wario ar gamblo

Roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £100 ar gyfartaledd (canolrif) yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad. Gan fod rhai gamblwyr yn gwario ar lefelau sylweddol uwch, mae'r gwerth cymedrig yn uwch, ar lefel o £417 y dydd. Roedd y mwyafrif (56%) wedi gwario hyd at £100 yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad (Tabl 11), roedd 14% wedi gwario rhwng £100 a £200, 17% wedi gwario rhwng £200 a £500 a 13% wedi gwario dros £500.

**Tabl 11 Gwariant cyfartalog ar ddiwrnodau gamblo**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 3848 | 55.6% |
| **Hyd at £200** | 994 | 14.4% |
| **Hyd at £300** | 543 | 7.8% |
| **Hyd at £400** | 170 | 2.5% |
| **Hyd at £500** | 482 | 7.0% |
| **Hyd at £1000** | 190 | 2.7% |
| **Hyd at £2000** | 414 | 6.0% |
| **Dros £2000** | 282 | 4.1% |
| **Cyfanswm** | 6923 | 100.0% |
| **Ar goll** | 268 | |
| **Cyfanswm y gamblwr** | 7191 | |

Yn ystod y mis blaenorol, roedd gamblwyr wedi adrodd eu bod yn gwario canolrif o £1000 ynghyd â chymedr o £2,070 ar gamblo. Roedd hanner (50%) y gamblwyr wedi gwario hyd at £1,000 yn y mis blaenorol, gyda 50% yn gwario dros £1,000 (Tabl 12). Roedd chwarter y gamblwyr (25%) yn adrodd eu bod wedi gwario dros £2000 yn ystod y mis blaenorol.

**Tabl 12 Gwariant a adroddwyd ar gamblo yn y mis cyn cael triniaeth**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 724 | 10.5% |
| **Hyd at £200** | 376 | 5.4% |
| **Hyd at £300** | 418 | 6.0% |
| **Hyd at £400** | 329 | 4.8% |
| **Hyd at £500** | 738 | 10.7% |
| **Hyd at £1000** | 876 | 12.7% |
| **Hyd at £2000** | 1717 | 24.8% |
| **Dros £2000** | 1746 | 25.2% |
| **Cyfanswm** | 6924 | 100.0% |
| **Ar goll** | 267 | |
| **Cyfanswm y gamblwr** | 7191 | |

Roedd gwerthoedd cymedrig ac ystod y gwariant yn amrywio'n sylweddol rhwng y rheiny a oedd yn adrodd gwahanol leoliadau gamblo (Tabl 13), er na ellir priodoli'r gwariant hwnnw i gamblo yn y lleoliadau hynny'n benodol. Roedd gwerth cymedrig y gwariant ar ddiwrnodau gamblo ar ei uchaf ymysg y rheiny sy'n defnyddio casinos, digwyddiadau byw a gwasanaethau ar-lein. Gall allanolion (gwerthoedd unigol eithaf) effeithio'r gwerthoedd cymedrig hyn, ond roedd y gwerthoedd cymedrig yn uwch hefyd ar gyfer casinos (£150). Roedd y gwerth cymedrig ymysg defnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn debyg i hynny ar gyfer y mwyafrif o fathau eraill o gamblo (£100 y diwrnod o gamblo). Roedd y gwariant misol cyfartalog yn arbennig o uchel ymysg y rheiny a oedd yn defnyddio casinos a gwasanaethau ar-lein, ond hefyd ymysg defnyddwyr siopau betio, a oedd yn uwch na hynny a welwyd o ran y gwariant dyddiol cyfartalog, sy'n awgrymu y gall defnyddio'r gwasanaethau hyn yn aml gyfrannu at wariant misol uchel.

**Tabl 13 Arian sy'n cael ei wario ar gyfartaledd yn ystod diwrnodau gamblo ac yn y mis blaenorol, yn ôl gamblwyr sy'n adrodd ar gyfer pob lleoliad gamblo**

| | Gwariant cyfartalog ar bob diwrnod gamblo (£) | | Gwariant yn y mis blaenorol (£) | |
|---|---|---|---|---|
| | Canolrif | Cymedr | Canolrif | Cymedr |
| **Siopau Betio** | 313 | 100 | 1927 | 800 |
| **Neuadd Bingo** | 166 | 100 | 986 | 800 |
| **Casino** | 578 | 150 | 2413 | 1000 |
| **Digwyddiadau byw** | 558 | 38 | 1495 | 1000 |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 231 | 100 | 1083 | 600 |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 203 | 100 | 1271 | 750 |
| **Tafarn** | 260 | 100 | 1482 | 600 |
| **Ar-lein** | 463 | 100 | 2117 | 1000 |
| **Amrywiol** | 149 | 50 | 1061 | 500 |
| **Clwb aelodau preifat** | 388 | 150 | 1669 | 675 |
| **Arall** | 355 | 50 | 1957 | 500 |

### 8.5.5 Math y gamblo yn ôl oedran

Dengys Tabl 14 bod defnyddio siopau betio, neuadd bingo a chanolfannau adloniant i oedolion yn cael eu hadrodd yn amlach gan y rheiny mewn categorïau oedran hŷn, ond roedd y berthynas rhwng defnyddio gwasanaethau ar-lein ac oedran yn glir, gyda'r gweithgaredd hwnnw'n llawer mwy poblogaidd ymysg bandiau oedran iau.

### Tabl 14 Lleoliadau gamblo yn ôl grŵp oedran

| | Bandiau oedran* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20-24 | 25-29 | 30-34 | 35-39 | 40-44 | 45-49 | 50-54 | 55-59 | 60+ |
| **Siopau Betio** | 23.9% | 27.4% | 27.8% | 28.9% | 26.5% | 33.8% | 32.4% | 36.3% | 32.5% |
| **Neuadd Bingo** | 0.6% | 1.0% | 0.8% | 1.0% | 0.7% | 2.5% | 1.6% | 3.7% | 2.4% |
| **Casino** | 8.6% | 6.8% | 6.9% | 6.1% | 6.6% | 5.2% | 4.5% | 7.8% | 4.8% |
| **Digwyddiadau byw** | 0.0% | 0.5% | 0.5% | 0.4% | 0.1% | 0.6% | 1.1% | 0.4% | 1.9% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 1.9% | 1.8% | 2.2% | 2.5% | 3.1% | 1.7% | 5.1% | 3.7% | 6.7% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 0.4% | 0.2% | 0.4% | 0.7% | 0.9% | 0.4% | 0.5% | 2.0% | 1.9% |
| **Tafarn** | 1.3% | 1.8% | 1.4% | 2.5% | 2.8% | 1.7% | 3.2% | 2.0% | 2.9% |
| **Ar-lein** | 87.0% | 85.4% | 83.3% | 79.6% | 77.4% | 69.5% | 69.7% | 60.4% | 58.4% |
| **Amrywiol** | 8.3% | 6.9% | 7.3% | 7.5% | 8.5% | 10.8% | 9.6% | 10.6% | 13.4% |
| **Clwb aelodau preifat** | 0.0% | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.0% | 0.2% | 0.8% | 0.0% | 0.0% |
| **Arall** | 1.3% | 1.1% | 0.8% | 0.7% | 1.2% | 0.6% | 0.5% | 1.6% | 2.4% |
| **Cyfanswm y gamblwr*** | 677 | 1295 | 1405 | 1048 | 682 | 482 | 376 | 245 | 209 |

*Ni chynhwyswyd categorïau oedran â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

### 8.5.6 Lleoliad gamblo yn ôl rhyw

O gymharu â gamblwyr gwryw, roedd benywod yn llai tebygol o ddefnyddio siopau betio (10% o gymharu â 33%), casinos (4% o gymharu â 7%), tafarnau (1% o gymharu â 2%) neu wasanaethau ar-lein (78% o gymharu ag 83%) ond yn fwy tebygol o ddefnyddio neuaddau bingo (5% o gymharu â <1%), canolfannau adloniant i oedolion (4% o gymharu â 2%), canolfannau adloniant i deuluoedd (1% o gymharu â <1%) neu weithgareddau amrywiol (13% o gymharu â 7%).

### Tabl 15 Lleoliadau gamblo yn ôl rhyw

| | Gwryw | | Benyw | |
|---|---|---|---|---|
| | % | Nifer | % | Nifer |
| **Siopau Betio** | 1752 | 33.4% | 126 | 10.2% |
| **Neuadd Bingo** | 16 | 0.3% | 67 | 5.4% |
| **Casino** | 375 | 7.2% | 46 | 3.7% |
| **Digwyddiadau byw** | 29 | 0.6% | 1 | 0.1% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 110 | 2.1% | 54 | 4.4% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 25 | 0.5% | 13 | 1.0% |
| **Tafarn** | 113 | 2.2% | 16 | 1.3% |
| **Ar-lein** | 4083 | 77.9% | 1030 | 83.1% |
| **Amrywiol** | 367 | 7.0% | 157 | 12.7% |
| **Clwb aelodau preifat** | 6 | 0.1% | 1 | 0.1% |
| **Arall** | 53 | 1.0% | 8 | 0.6% |
| **Cyfanswm y gamblwr*** | 5238 | | 1239 | |

* Ni chynhwyswyd categorïau rhyw â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

### 8.5.7 Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn amlwg rhwng lleoliadau gamblo a adroddwyd gan wahanol grwpiau ethnig (Tabl 16). O gymharu â gamblwyr Gwyn neu Wyn Prydeinig, roedd gamblwyr a oedd wedi nodi eu bod yn Ddu neu Ddu Prydeinig yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (46% o gymharu â 28%) neu gasinos (17% o gymharu â 5%). Hefyd, roedd y rheiny a oedd wedi nodi eu bod yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol na gamblwyr Gwyn neu Wyn Prydeinig i ddefnyddio siopau betio (33%) neu gasinos (15%). Yn gyffredinol, y rheiny a oedd wedi nodi eu bod yn Ddu neu Ddu Prydeinig oedd y rhai a oedd yn fwyaf tebygol o ddefnyddio siopau betio a'r lleiaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein (63%).

**Tabl 16 Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig**

| | Gwyn neu wyn Prydeinig | | Du neu Ddu Prydeinig | | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig | | Cymysg | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Siopau Betio** | 1590 | 27.8% | 111 | 46.3% | 111 | 33.0% | 29 | 24.2% |
| **Neuadd Bingo** | 75 | 1.3% | 7 | 2.9% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Casino** | 298 | 5.2% | 41 | 17.1% | 51 | 15.2% | 17 | 14.2% |
| **Digwyddiadau byw** | 26 | 0.5% | 3 | 1.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 152 | 2.7% | 5 | 2.1% | 5 | 1.5% | 3 | 2.5% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 36 | 0.6% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.8% |
| **Tafarn** | 126 | 2.2% | 2 | 0.8% | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% |
| **Ar-lein** | 4581 | 80.0% | 152 | 63.3% | 252 | 75.0% | 106 | 88.3% |
| **Amrywiol** | 475 | 8.3% | 18 | 7.5% | 20 | 6.0% | 10 | 8.3% |
| **Clwb aelodau preifat** | 7 | 0.1% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% | 1 | 0.8% |
| **Arall** | 52 | 0.9% | 6 | 2.5% | 4 | 1.2% | 1 | 0.8% |
| **Cyfanswm y gamblwr*** | 5724 | | 240 | | 336 | | 120 | |

* Ni chynhwyswyd categorïau grwpiau ethnig â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

### 8.5.8 Gamblo yn ôl statws perthynas

Roedd gamblwyr y diffiniwyd nad oeddynt mewn perthynas ('wedi ysgaru', 'wedi gwahanu', 'sengl') yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn defnyddio siopau betio (33%), casinos (8%) a chanolfannau adloniant i oedolion (4%) (Tabl 17). Roedd y rheiny a oedd mewn perthynas neu'n briod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein (84%). Roedd y rheiny a oedd wedi ysgaru yn fwy tebygol na'r rheiny ag unrhyw statws perthynas arall i adrodd gweithgaredd o ran neuaddau bingo (5%) a'r rhain oedd y rhai lleiaf tebygol o fod yn defnyddio gwasanaethau ar-lein (57%).

### Tabl 17 Math y gamblo yn ôl statws perthynas

| | Wedi ysgaru | | Wedi gwahanu | | Sengl | | Mewn perthynas | | Priod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Siopau Betio** | 51 | 39.2% | 89 | 32.7% | 707 | 32.7% | 625 | 26.3% | 339 | 23.6% |
| **Neuadd Bingo** | 7 | 5.4% | 2 | 0.7% | 38 | 1.8% | 19 | 0.8% | 14 | 1.0% |
| **Casino** | 13 | 10.0% | 14 | 5.1% | 183 | 8.5% | 124 | 5.2% | 80 | 5.6% |
| **Digwyddiadau byw** | 1 | 0.8% | 1 | 0.4% | 13 | 0.6% | 4 | 0.2% | 7 | 0.5% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 3 | 2.3% | 4 | 1.5% | 79 | 3.7% | 46 | 1.9% | 26 | 1.8% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 1 | 0.8% | 1 | 0.4% | 17 | 0.8% | 11 | 0.5% | 7 | 0.5% |
| **Tafarn** | 1 | 0.8% | 10 | 3.7% | 44 | 2.0% | 41 | 1.7% | 31 | 2.2% |
| **Ar-lein** | 74 | 56.9% | 208 | 76.5% | 1593 | 73.8% | 2029 | 85.4% | 1171 | 81.4% |
| **Amrywiol** | 18 | 13.8% | 23 | 8.5% | 201 | 9.3% | 160 | 6.7% | 121 | 8.4% |
| **Clwb aelodau preifat** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 5 | 0.2% | 0 | 0.0% | 3 | 0.2% |
| **Arall** | 2 | 1.5% | 1 | 0.4% | 25 | 1.2% | 21 | 0.9% | 13 | 0.9% |
| **Cyfanswm y gamblwr*** | 130 | 100.0% | 272 | 100.0% | 2159 | 100.0% | 2376 | 100.0% | 1438 | 100.0% |

* Ni chynhwyswyd categorïau statws perthynas â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

## 8.5.9 Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth

Gwasanaethau ar-lein oedd y lleoliad gamblo a adroddwyd amlaf ar gyfer pob categori o ran statws cyflogaeth (Tabl 18). Roedd y defnydd o ganolfannau adloniant i oedolion (6%) a gweithgareddau amrywiol (17%) yn amlwg yn uwch ymysg y rheiny y diffiniwyd eu bod yn analluog i weithio oherwydd salwch, a'r defnydd o wasanaethau ar-lein oedd yr isaf (66%). Roedd y defnydd o wasanaethau ar-lein (88%) a chasinos (10%) yn amlwg yn uwch ymysg myfyrwyr.

Tabl 18 Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth

| | Cyflogedig | | Di-waith | | Myfyriwr | | Analluog i weithio oherwydd salwch | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Siopau Betio** | 1260 | 27.1% | 228 | 32.9% | 26 | 19.1% | 202 | 31.8% |
| **Neuadd Bingo** | 32 | 0.7% | 20 | 2.9% | 0 | 0.0% | 19 | 3.0% |
| **Casino** | 273 | 5.9% | 68 | 9.8% | 14 | 10.3% | 35 | 5.5% |
| **Digwyddiadau byw** | 18 | 0.4% | 1 | 0.1% | 2 | 1.5% | 2 | 0.3% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 83 | 1.8% | 22 | 3.2% | 2 | 1.5% | 39 | 6.1% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 18 | 0.4% | 4 | 0.6% | 2 | 1.5% | 12 | 1.9% |
| **Tafarn** | 86 | 1.8% | 16 | 2.3% | 2 | 1.5% | 14 | 2.2% |
| **Ar-lein** | 3869 | 83.2% | 513 | 74.1% | 120 | 88.2% | 420 | 66.0% |
| **Amrywiol** | 318 | 6.8% | 64 | 9.2% | 8 | 5.9% | 107 | 16.8% |
| **Clwb aelodau preifat** | 5 | 0.1% | 2 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Arall** | 36 | 0.8% | 13 | 1.9% | 1 | 0.7% | 7 | 1.1% |
| **Cyfanswm y gamblwr*** | 4649 | 100.0% | 692 | 100.0% | 136 | 100.0% | 636 | 100.0% |

* Ni chynhwyswyd categorïau statws cyflogaeth â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

# 9 Mynediad at Wasanaethau

## 9.1 Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer triniaeth

Cafodd mwyafrif pendant o'r atgyfeiriadau (93%) eu gwneud gan y cleientiaid eu hunain. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl yn y sector annibynnol, 'gofal iechyd sylfaenol arall' a 'gwasanaethau neu asiantaethau eraill' yn cyfrif am 4% o'r atgyfeiriadau rhyngddynt (Tabl 19). Roedd ffynonellau eraill yn cyfrif am lai na chyfanswm o 1% o'r atgyfeiriadau yr un.

**Tabl 19 Ffynhonnell yr atgyfeiriad o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21, yn ôl y math o gleient**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Hunanatgyfeiriad** | 6612 | 92.2% | 1227 | 94.7% | 7839 | 92.6% |
| **Gwasanaeth neu asiantaeth arall** | 161 | 2.2% | 20 | 1.5% | 181 | 2.1% |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl yn y sector annibynnol** | 96 | 1.3% | 4 | 0.3% | 100 | 1.2% |
| **Gofal iechyd sylfaenol arall** | 85 | 1.2% | 3 | 0.2% | 88 | 1.0% |
| **Meddyg Teulu** | 49 | 0.7% | 21 | 1.6% | 70 | 0.8% |
| **Iechyd Meddwl, Ymddiriedolaeth GIG** | 47 | 0.7% | 5 | 0.4% | 52 | 0.6% |
| **Gwasanaeth Prawf** | 33 | 0.5% | 1 | 0.1% | 34 | 0.4% |
| **Cyflogwr** | 26 | 0.4% | 5 | 0.4% | 31 | 0.4% |
| **Carchar** | 23 | 0.3% | 7 | 0.5% | 30 | 0.4% |
| **Yr heddlu** | 17 | 0.2% | 1 | 0.1% | 18 | 0.2% |
| **Gofalwr** | 8 | 0.1% | 0 | 0.0% | 8 | 0.1% |
| **Gwasanaethau cymdeithasol** | 5 | 0.1% | 2 | 0.2% | 7 | 0.1% |
| **Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau** | 2 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.0% |
| **Gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio y Llys** | 2 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.0% |
| **Llysoedd** | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% |
| **Gwasanaeth Addysg** | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% |
| **Canolfan Byd Gwaith** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Gwasanaethau Lloches** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Ymwelydd Iechyd** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 7168 | 100.0% | 1296 | 100.0% | 8464 | 100.0% |
| **Ar goll** | 23 | | 3 | | 26 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 7191 | | 1299 | | 8490 | |

## 9.2 Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf

Cyfrifwyd yr amser aros fel yr amser rhwng dyddiad yr atgyfeiriad a'r apwyntiad cyntaf a gofnodwyd. O ran cleientiaid a driniwyd yn ystod 2020/21, cafodd 50% o'r cleientiaid apwyntiad o fewn tri diwrnod, a 75% o fewn wyth diwrnod. Roedd amseroedd disgwyl ar gyfer gwasanaethau preswyl yn uwch, gyda 50% o gleientiaid yn cael eu gweld o fewn dau fis (62 diwrnod).

# 10 Ymgysylltiad

Cofnodwyd cyfanswm o 67,149 o apwyntiadau ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21 (Tabl 20). Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o rhwng ychydig o dan wyth apwyntiad fesul cleient, sy'n debyg o ran gamblwyr a chleientiaid eraill. Roedd y mwyafrif o'r rhain (84%) ar gyfer cael triniaeth, gydag 14% ar gyfer cynnal asesiad.

**Tabl 20 Diben yr apwyntiaid ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| Triniaeth | 46722 | 84.2% | 7906 | 85.0% | 54628 | 84.3% |
| Asesiad | 7404 | 13.3% | 1341 | 14.4% | 8745 | 13.5% |
| Apwyntiad dilynol ar ôl triniaeth | 952 | 1.7% | 57 | 0.6% | 1009 | 1.6% |
| Adolygu yn unig | 234 | 0.4% | 0 | 0.0% | 234 | 0.4% |
| Arall | 134 | 0.2% | 0 | 0.0% | 134 | 0.2% |
| Adolygu a thriniaeth | 27 | 0.0% | 0 | 0.0% | 27 | 0.0% |
| Asesiad a thriniaeth | 16 | 0.0% | 0 | 0.0% | 16 | 0.0% |
| Cyfanswm | 55489 | 100.0% | 9304 | 100.0% | 64793 | 100.0% |
| Ar goll | 2311 | | 45 | | 2356 | |
| Cyfanswm yr apwyntiadau | 57800 | | 9349 | | 67149 | |

Â hynny'n amlwg yn adlewyrchu amodau'r pandemig, cynhaliwyd y mwyafrif (82%) o'r apwyntiadau o bell, dros y ffôn (67%) neu dros gamera gwe (15%), er y cynhaliwyd lleiafswm sylweddol (16%) wyneb yn wyneb. Diffiniwyd y mwyafrif o'r apwyntiadau (97%) fel gweithgaredd cwnsela (Tabl 21).

**Tabl 21 Ymyriadau a dderbyniwyd mewn apwyntiadau yn 2020/21**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| Cwnsela | 52028 | 96.2% | 9240 | 99.3% | 61268 | 96.6% |
| Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) | 847 | 1.6% | 0 | 0.0% | 847 | 1.3% |
| Arall | 542 | 1.0% | 0 | 0.0% | 542 | 0.9% |
| Seicotherapi | 457 | 0.8% | 61 | 0.7% | 518 | 0.8% |
| Cyngor byr | 232 | 0.4% | 2 | 0.0% | 234 | 0.4% |
| Cyfanswm | 54106 | 100.0% | 9303 | 100.0% | 63409 | 100.0% |
| Ar goll | 3694 | | 46 | | 3740 | |
| Cyfanswm yr apwyntiadau | 57800 | | 9349 | | 67149 | |

### 10.1 Cyfnod yr amser yn derbyn triniaeth

Ymysg yr holl gleientiaid a oedd wedi derbyn a diweddu eu triniaeth yn ystod 2020/21, roedd eu triniaeth yn para am gyfartaledd (canolrif) o naw wythnos. Derbyniodd chwarter y cleientiaid driniaeth am bum wythnos neu lai, derbyniodd hanner y cleientiaid driniaeth am rhwng pump a 15 wythnos a chwarter y cleientiaid driniaeth am dros 15 wythnos. Roedd cyfnodau'r driniaeth ar gyfer cleientiaid eraill ar wahân i gamblwyr ychydig yn fyrrach, gyda chanolrif o 8 wythnos o gymharu â 9 wythnos ar gyfer gamblwyr. Yn gyffredinol, roedd cyfnodau triniaeth mewn canolfannau preswyl yn hirach, â'r rheiny'n para am gyfartaledd (canolrif) o 15 wythnos.

## 11 Canlyniadau'r Driniaeth

Ymysg y cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2020/21, roedd 2,006 (24%) yn dal i dderbyn triniaeth ddiwedd Mawrth 2021, tra bo 6,484 (76%) wedi gadael y driniaeth cyn diwedd Mawrth 2021. Cyflwynwyd canlyniadau'r driniaeth ar gyfer y cleientiaid hynny a ryddhawyd o fewn y cyfnod hwn er mwyn cynrychioli eu statws ar ddiwedd y driniaeth.

### 11.1 Y rhesymau dros adael triniaeth

Roedd mwyafrif y cleientiaid (74%) a oedd wedi gadael eu triniaeth o fewn 2020/21 wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd. Fodd bynnag, roedd un o bob pump (20%) wedi rhoi'r gorau i'r driniaeth cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen. Cafodd cyfran lawer is ohonynt eu rhyddhau'n gynnar trwy gytundeb (3%) neu eu cyfeirio ymlaen at wasanaeth arall (3%). Roedd cleientiaid eraill ar wahân i gamblwyr yn fwy tebygol o gwblhau triniaeth (83% o gymharu â 72%) ac yn llai tebygol o roi'r gorau iddi (12% o gymharu â 21%).

**Tabl 22 Rhesymau dros adael triniaeth o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2020/21**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 3838 | 71.8% | 833 | 82.6% | 4671 | 73.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 1131 | 21.2% | 116 | 11.5% | 1247 | 19.6% |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 138 | 2.6% | 38 | 3.8% | 176 | 2.8% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad a thriniaeth)** | 159 | 3.0% | 12 | 1.2% | 171 | 2.7% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad yn unig)** | 25 | 0.5% | 6 | 0.6% | 31 | 0.5% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad yn unig)** | 26 | 0.5% | 2 | 0.2% | 28 | 0.4% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad a thriniaeth)** | 23 | 0.4% | 2 | 0.2% | 25 | 0.4% |
| **Ymadawedig (asesiad a thriniaeth)** | 2 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.0% |
| **Ymadawedig (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 5342 | 100.0% | 1009 | 100.0% | 6351 | 100.0% |
| **Ar goll** | 124 | | 9 | | 133 | |
| **Cyfanswm yr apwyntiadau** | 5466 | | 1018 | | 6484 | |

Nodwyd rhai gwahaniaethau bach o ran y rheswm dros ryddhau ymysg cleientiaid gwryw a benyw, gyda chleientiaid benyw ychydig yn llai tebygol o roi'r gorau i driniaeth (17% o gymharu â 20%). Fodd bynnag, o ran cleientiaid sy'n gamblo'n unig, roedd cleientiaid yn llai tebygol o gwblhau triniaeth (69% o gymharu â 73%).

Ymysg gamblwyr, roedd rhoi'r gorau i driniaeth yn gysylltiedig â nodweddion rhai cleientiaid. Roedd y rheiny a oedd yn fyfyrwyr (26%) neu'n ddi-waith (25%) yn fwy tebygol o roi'r gorau i driniaeth (Tabl 23), ond y rheiny a oedd yn gyflogedig a oedd fwyaf tebygol o gwblhau triniaeth (75%). Roedd niferoedd y rheiny a oedd yn rhoi'r gorau i driniaeth yn lleihau fel yr oedd cleientiaid yn mynd yn hŷn, yn gostwng o 26% ymysg y rheiny o dan 30 oed i 13% ymysg y rheiny dros 50 oed. Roedd y cyfraddau'n uwch hefyd ymysg y rheiny nad ydynt mewn perthynas (24%) o gymharu â'r rheiny oedd mewn perthynas (19%). Roedd y cyfraddau'n debyg rhwng gwrywod a menywod.

**Tabl 23 Rhesymau dros gael eu rhyddhau yn ôl statws cyflogaeth (ymysg cleientiaid sy'n gamblo)**

| | Cyflogedig | | Di-waith | | Myfyriwr | | Analluog i weithio oherwydd salwch | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 89 | 2.3% | 21 | 3.6% | 1 | 0.9% | 19 | 4.0% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad yn unig)** | 17 | 0.4% | 5 | 0.9% | 1 | 0.9% | 2 | 0.4% |
| **Ymadawedig (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 2907 | 75.2% | 374 | 64.7% | 76 | 67.9% | 309 | 64.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 791 | 20.5% | 143 | 24.7% | 29 | 25.9% | 99 | 20.7% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (wedi cael triniaeth)** | 62 | 1.6% | 35 | 6.1% | 4 | 3.6% | 50 | 10.4% |
| **Ymadawedig (asesiad a thriniaeth)** | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.9% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 3867 | 100.0% | 578 | 100.0% | 112 | 100.0% | 479 | 100.0% |

* Ni chynhwyswyd categorïau statws cyflogaeth â llai na 100 o gleientiaid yn y tabl hwn

## 11.2 Sgorau difrifoldeb

### 11.2.1 Sgorau difrifoldeb sylfaenol

Caiff dau fesur difrifoldeb eu cofnodi'n rheolaidd o fewn apwyntiadau sef, yn benodol, y Mynegrif Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI) a'r sgôr CORE-10.

#### MDGP

Mae'r MDGP yn adnodd wedi'i ddilysu[15] a ddefnyddir yn Arolwg Iechyd Lloegr, Arolwg Iechyd yr Alban a'r Arolwg o Gamblo Problemus yng Nghymru. Mae'r MDGP yn cynnwys naw eitem a chaiff pob eitem ei hasesu ar raddfa pedwar pwynt, sy'n rhoi cyfanswm sgôr o rhwng sero a 27 pwynt.

15 Mae'r MDGP yn adnodd sgrinio wedi'i ddilysu ar lefel poblogaeth. Dylid nodi na chafodd y MDGP ei ddylunio fel adnodd clinigol, neu fel mesur canlyniadau ar gyfer triniaeth. Ni ellir dehongli'r MDGP yn uniongyrchol fel meincnod ar gyfer effeithiolrwydd triniaeth, gan na ellir cipio canlyniadau tymor hwy. Fodd bynnag, yn absenoldeb mesur clinigol sydd wedi'i gytuno'n gyffredinol, mae'r MDGP yn darparu dangosydd ar gyfer niwed gamblo a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae sgôr MDGP o wyth neu ragor yn cynrychioli unigolyn sy'n gamblwr problemus. Mae sgorau o rhwng tri a saith yn cynrychioli unigolion y dosbarthwyd eu bod mewn perygl canolig o broblemau gamblo (gamblwyr sy'n profi lefel ganolig o broblemau sy'n arwain at rai canlyniadau negyddol) ac mae sgôr o un neu ddau'n cynrychioli unigolion sydd mewn perygl isel o broblemau gamblo (gamblwyr sy'n profi lefel isel o broblemau gydag ychydig neu ddim canlyniadau negyddol wedi'u nodi).

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cynharaf ar gyfer gamblwyr a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2020/21, cofnodwyd sgôr MDGP ar gyfer 84% o gamblwyr. Ymysg y rhain (Tabl 24), roedd y mwyafrif (94%) wedi cofnodi sgôr MDGP o 8 neu ragor. Diffiniwyd cyfrannau llawer is fel rhai â risg canolig (5%), risg isel (1%) neu nad oedd problem (1%). Ymysg y rheiny yn y categori MDGP uchaf, roedd y sgôr MDGP cymedrig yn 19, sydd gryn dipyn yn uwch na'r lleiafswm o wyth ar gyfer y categori hwn.

### Tabl 24 Categori difrifoldeb MDGP yn yr apwyntiad cynharaf, gamblwyr yn unig

| | N | % | Sgôr Cymedrig |
|---|---|---|---|
| **Dim problem (0)** | 33 | 0.5% | 0 |
| **Risg isel (1-2)** | 41 | 0.7% | 1.5 |
| **Risg canolig (3-7)** | 283 | 4.7% | 5.6 |
| **Sgôr o 8+** | 5647 | 94.1% | 18.8 |
| **Cyfanswm** | 6004 | 100.0% | 17.8 |
| **Ar goll** | 1187 | | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 7191 | | |

### CORE-10

Mae'r CORE-10 yn holiadur 10 eitem byr sy'n cynnwys yr eitemau a ganlyn: Gorbryder (2 eitem), iselder (2 eitem), trawma (1 eitem), problemau corfforol (1 eitem), y modd y mae'n gweithredu (3 eitem - o ddydd i ddydd, perthnasau agos, perthnasau cymdeithasol) ynghyd â'r risg i'w hunan (1 eitem). Mae gan y mesur 6 eitem dwysedd/difrifoldeb uchel a 4 eitem dwysedd /difrifoldeb isel, a gaiff eu sgorio'n unigol ar raddfa o 0 i 4. Byddai sgôr o 40 (yr uchafswm) yn cael ei ddosbarthu fel gofid difrifol, 25 = canolig i ddifrifol, 20 = canolig, 15 = ysgafn, gyda 10 neu lai yn is na'r torbwynt clinigol.

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cyntaf ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2020/21, cofnodwyd sgôr CORE-10 ar gyfer 84% o'r cleientiaid. Ymysg y cleientiaid hyn, roedd y sgorau wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ar draws y categorïau difrifoldeb (Tabl 25) gyda thua un o bob pum cleient wedi'u sgorio'n ddifrifol (18%), canolig-i-ddifrifol (20%), canolig (23%) neu ysgafn (23%) a 17% yn sgorio'n is na'r torbwynt clinigol. Roedd gamblwyr ychydig yn fwy tebygol na chleientiaid eraill i sgorio'n ddifrifol (20% o gymharu â 10%). O fewn y categori 'difrifol', roedd y sgorau cymedrig yn 30 ar gyfer gamblwyr a 29 ar gyfer cleientiaid eraill.

**Tabl 25 Categori difrifoldeb CORE-10 yn yr apwyntiad cynharaf**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Is na'r torbwynt clinigol** | 974 | 16.2% | 217 | 19.0% | 1191 | 16.6% |
| **Ysgafn** | 1314 | 21.8% | 311 | 27.3% | 1625 | 22.7% |
| **Canolig** | 1359 | 22.6% | 279 | 24.5% | 1638 | 22.9% |
| **Canolig ddifrifol** | 1191 | 19.8% | 216 | 18.9% | 1407 | 19.6% |
| **Difrifol** | 1184 | 19.7% | 118 | 10.3% | 1302 | 18.2% |
| **Cyfanswm** | 6022 | 100.0% | 1141 | 100.0% | 7163 | 100.0% |
| **Ar goll** | 1169 | | 158 | | 1327 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 7191 | | 1299 | | 8490 | |

### 11.2.2 Newid mewn sgorau difrifoldeb

Gan fod sgorau MDGP a CORE-10 yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad, mae'n bosib adrodd am unrhyw newidiadau i'r sgorau hyn dros gyfnod o amser. Defnyddir tri dull i'w hadrodd yma: y newid cyffredinol yn y sgorau, cynnydd a gostyngiadau yn y sgorau, a newidiadau rhwng categorïau difrifoldeb. Caiff newidiadau eu hadrodd fel y rheiny rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf o fewn cyfnod o driniaeth a dderbynnir gan gleient, ac felly os derbyniodd cleient sawl cyfnod o driniaeth (gan un neu ragor o ddarparwyr), efallai na fydd y sgorau'n adlewyrchu'r newid cronnol dros ei hanes cyfan o driniaeth.

#### MDGP

Cyfrifwyd newidiadau mewn sgorau MDGP ar gyfer cleientiaid a oedd wedi cwblhau eu triniaeth cyn diwedd Mawrth 2021 (gweler adran 11.1). Rhwng yr apwyntiad cynharaf a diweddaraf o fewn cyfnod o driniaeth lle cafodd sgorau MDGP eu cofnodi, roedd cleientiaid wedi cyflawni gwelliant, ar gyfartaledd (canolrif), o 13 pwynt ar raddfa'r MDGP.

Mae Tabl 26 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau MDGP, gyda'r mwyafrif (81%) yn gwella rhwng dechrau a chwblhau'r driniaeth, roedd 17% yn dangos dim newid a lleiafrif bach (3%) yn cofnodi sgôr difrifoldeb uwch yn yr apwyntiad diweddaraf o gymharu â'r un cynharaf. Roedd cleientiaid yn fwy tebygol (35%) o gyflawni gwelliant o 10-19, gyda chwarter arall (27%) yn cyflawni gwelliant o 20-27 pwynt.

Dengys Tabl 27 y newidiadau yn sgorau'r MDGP yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid. Roedd diffyg newid mewn sgorau'n fwy tebygol o ran y rheiny nad oeddynt wedi cwblhau eu triniaeth. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (92%). Roedd lefel y newid yn amrywio hefyd yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid, gyda chymedr o 15 pwynt ar gyfer y rheiny a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â chwech ar gyfer y rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi.

### Tabl 26 Newidiadau mewn sgorau MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf

| | N | % |
|---|---|---|
| **Gwelliant o 20- 27 pwynt** | 1422 | 26.9% |
| **Gwelliant o 10- 19 pwynt** | 1875 | 35.4% |
| **Gwelliant o 1- 9 pwynt** | 966 | 18.3% |
| **Dim newid** | 891 | 16.8% |
| **Wedi cynyddu: 1 to 9 pwynt** | 127 | 2.4% |
| **Wedi cynyddu: 10 to 18 pwynt** | 8 | 0.2% |
| **Wedi cynyddu: 19 to 27 pwynt** | 1 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 5290 | 100.0% |
| **Ar goll** | 176 | |
| **Cyfanswm** | 5466 | |

### Tabl 27 Cyfeiriad y newid mewn sgôr MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau

| | Gwaeth | | Dim newid | | Gwell | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 3 | 2.3% | 119 | 91.5% | 8 | 6.2% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad yn unig)** | 1 | 4.2% | 23 | 95.8% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 73 | 1.9% | 223 | 5.9% | 3478 | 92.2% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 44 | 4.0% | 395 | 35.7% | 666 | 60.3% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad a thriniaeth)** | 7 | 4.4% | 88 | 55.3% | 64 | 40.3% |
| **Ymadawedig (asesiad a thriniaeth)** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 100.0% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 14 | 93.3% | 1 | 6.7% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad a thriniaeth)** | 2 | 9.1% | 4 | 18.2% | 16 | 72.7% |


Dengys Tabl 28 y categori diweddaraf a gofnodwyd o ran difrifoldeb cyn diwedd y driniaeth (o gymharu â'r cynharaf yn Nhabl 24). Ar y pwynt hwn, roedd cyfran lawer is o gleientiaid (28%) yn dal i fod gyda sgôr MDGP o 8+. Roedd tua thri o bob deg gamblwr (30%) yn cael eu diffinio bellach fel rhai a chanddynt 'ddim problem', gyda'r gweddill yn cael eu diffinio fel rhai a chanddynt risg isel (21%) neu ganolig (21%)

### Tabl 28 Categori difrifoldeb MDGP diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth, pob gamblwr

| | N. Cleientiaid | % | Sgôr cymedrig |
|---|---|---|---|
| **Dim problem (0)** | 1580 | 29.9 | 0 |
| **Risg isel (1-2)** | 1113 | 21.0 | 1.4 |
| **Risg canolig (3-7)** | 1108 | 20.9 | 4.6 |
| **Sgôr o 8+** | 1489 | 28.1 | 15.9 |
| **Cyfanswm** | 5290 | 100.0 | 5.7 |
| **Ar goll** | 176 | | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 5466 | | |

Dengys Ffigur 2 y statws ar adeg yr asesiad diwethaf a gofnodwyd o fewn y driniaeth ar gyfer yr is-set o gamblwyr â sgôr MDGP o 8+ ar ddechrau'r driniaeth. Nid oedd tua 70% yn cofnodi sgôr o 8+ mwyach ar yr adeg hon, gyda 29% erbyn hynny'n cael eu diffinio fel rhai a chanddynt 'ddim problem'. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau eu triniaeth, nid oedd 84% yn cofnodi sgôr o 8+ mwyach ar yr adeg hon gyda 37% yn cael eu diffinio fel rhai a chanddynt 'ddim problem'.

### Ffigur 2 Statws MDGP diweddaraf o ran cleientiaid sydd â sgôr o 8 neu ragor ar ddechrau'r driniaeth




## CORE-10

Cyfrifwyd newidiadau o ran y sgôr CORE-10 ar gyfer cleientiaid a oedd wedi diweddu eu triniaeth o fewn y cyfnod hwn. Rhwng yr apwyntiad cynharaf a diweddaraf o fewn y cyfnodau triniaeth y cofnodwyd sgorau CORE-10 ar eu cyfer, cafwyd gwelliant yn sgorau'r cleientiaid, ar gyfartaledd (cymedrig), o 9 pwynt ar y raddfa CORE-10 (8 pwynt o ran cleientiaid ar wahân i gamblwyr).

Mae Tabl 29 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau CORE-10 gyda'r mwyafrif (76%) yn gwella o fewn y driniaeth, ond gyda 17% yn dangos dim newid a lleiafrif bach (7%) yn cofnodi sgôr difrifoldeb uwch yn eu hapwyntiad diweddaraf, o gymharu â'u hapwyntiad cynharaf. Roedd y gwelliant mwyaf a gofnodwyd (65%) yn welliant o rhwng un ac 20 pwynt, gyda'r lefel welliant

fwyaf arferol (1-10 pwynt) yn cael ei chyflawni gan 36%. Roedd gamblwyr yn llawer mwy tebygol na chleientiaid eraill o fod wedi gwneud gwelliant o fwy nag 20 pwynt (12% o gymharu â 6%).

Dengys Tabl 30 y newidiadau hyn yn y sgorau CORE-10 yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid o driniaeth. Roedd diffyg newid mewn sgôr yn llawer mwy tebygol o ran y rheiny nad oeddent wedi cwblhau eu triniaeth. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (88%).

### Tabl 29 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Gwelliant o 31-40 pwynt** | 71 | 1.3% | 1 | 0.1% | 72 | 1.1% |
| **Gwelliant o 21-30 pwynt** | 585 | 11.0% | 47 | 4.8% | 632 | 10.0% |
| **Gwelliant o 11-20 pwynt** | 1573 | 29.6% | 295 | 29.9% | 1868 | 29.7% |
| **Gwelliant o 1-10 pwynt** | 1812 | 34.1% | 430 | 43.6% | 2242 | 35.6% |
| **Dim newid** | 908 | 17.1% | 151 | 15.3% | 1059 | 16.8% |
| **Cynnydd o 1-10 pwynt** | 335 | 6.3% | 57 | 5.8% | 392 | 6.2% |
| **Cynnydd o 11-20 pwynt** | 23 | 0.4% | 6 | 0.6% | 29 | 0.5% |
| **Cynnydd o 21-30 pwynt** | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.0% |
| **Cynnydd o 31-40 pwynt** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 5308 | 100.0% | 987 | 100.0% | 6295 | 100.0% |

### Tabl 30 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau

| | Gwaeth | | Dim newid | | Gwell | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 2 | 1.2% | 158 | 94.0% | 8 | 4.8% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 26 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 265 | 5.8% | 286 | 6.2% | 4053 | 88.0% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 128 | 10.6% | 450 | 37.2% | 633 | 52.3% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad a thriniaeth)** | 15 | 8.8% | 90 | 52.6% | 66 | 38.6% |
| **Ymadawedig (asesiad a thriniaeth)** | 1 | 50.0% | 0 | 0.0% | 1 | 50.0% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 19 | 95.0% | 1 | 5.0% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad a thriniaeth)** | 1 | 4.2% | 3 | 12.5% | 20 | 83.3% |

Dengys Tabl 31 y categori difrifoldeb diweddaraf a gofnodwyd cyn diwedd y driniaeth, o gymharu â'r un cynharaf yn Nhabl 25. Ar y pwynt hwn, roedd cyfran is o gleientiaid (5%) yn dal i gael eu dosbarthu yn y categori 'Difrifol'. Roedd mwyafrif y cleientiaid (63%) yn cael eu diffinio bellach fel rhai a oedd yn 'is na'r torbwynt clinigol ', gyda'r mwyafrif o'r gweddill yn cael eu diffinio yn y categorïau ysgafn (17%) neu ganolig (9%).

**Tabl 31 Categori difrifoldeb CORE-10 diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Is na'r torbwynt clinigol** | 3331 | 62.8% | 639 | 64.7% | 3970 | 63.1% |
| **Ysgafn** | 872 | 16.4% | 185 | 18.7% | 1057 | 16.8% |
| **Canolig** | 500 | 9.4% | 84 | 8.5% | 584 | 9.3% |
| **Canolig ddifrifol** | 328 | 6.2% | 57 | 5.8% | 385 | 6.1% |
| **Difrifol** | 277 | 5.2% | 22 | 2.2% | 299 | 4.7% |
| **Cyfanswm** | 5308 | 100.0% | 987 | 100.0% | 6295 | 100.0% |

# 12 Tueddiadau


## 12.1 Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth

Dengys Tabl 32 bod nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth o fewn unrhyw flwyddyn benodol wedi amrywio ers 2015/16, gyda nifer uchaf y cleientiaid yn cael triniaeth yn 2019/20.

**Tabl 32 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth yn ystod y flwyddyn – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cleientiaid sy'n cael triniaeth** | 5909 | 8133 | 8219 | 7675 | 9008 | 8490 |

**Ffigur 3 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth – 2015/16 i 2020/21**



Dengys Tabl 33 bod nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd o fewn unrhyw flwyddyn benodol (gan gynnwys y rheiny nad ydynt yn arwain at driniaeth) wedi amrywio ers 2015/16, gyda nifer uchaf y cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio yn 2019/20.

**Tabl 33 Tueddiadau o ran atgyfeiriadau – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Unigolion a atgyfeiriwyd** | 8194 | 9266 | 9081 | 8453 | 9726 | 9046 |

Mae gwasanaethau gamblo'n darparu pwynt cyswllt a chymorth ar gyfer gamblo cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo ynghyd â'r rheiny a effeithir gan gamblo rhywun arall. Dengys Tabl 34 bod cyfran y cleientiaid sy'n ceisio cymorth o ganlyniad i gamblo rhywun arall wedi cynyddu o 10% yn 2015/16 i 15% yn 2020/21.

**Tabl 34 Tueddiadau o ran y rheswm dros atgyfeirio– 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N. | % | N. | % | N. | % | N. | % | N. | % |
| **Cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo** | 5288 | 90.2% | 7293 | 90.7% | 7337 | 90.1% | 6744 | 88.7% | 7473 | 84.3% | 7191 | 84.7% |
| **Rhai eraill a effeithir** | 563 | 9.6% | 744 | 9.2% | 790 | 9.7% | 834 | 11.0% | 1192 | 13.4% | 1245 | 14.7% |
| **Unigolyn mewn perygl o ddatblygu problem gamblo** | 9 | 0.2% | 7 | 0.1% | 15 | 0.2% | 25 | 0.3% | 202 | 2.3% | 53 | 0.6% |
| **Ar goll** | 49 | | 89 | | 77 | | 72 | | 141 | | 1 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 5909 | | 8133 | | 8219 | | 7675 | | 9008 | | 8490 | |

## 12.2 Tueddiadau o ran y math o gamblo

Y gwahaniaeth mwyaf nodedig a adroddwyd o ran lleoliadau gamblo rhwng 2015/16 a 2020/21 (Tabl 35) fu'r cynnydd yn y gyfran sy'n adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein (a oedd wedi codi o 57% i 79%) ochr yn ochr â'r gostyngiad yn y gyfran sy'n defnyddio siopau betio (sydd wedi gostwng o 56% i 29%). Dengys data ar gyfer 2020/21 ostyngiad cyffredinol yn y defnydd o leoliadau a fynychir gan gleientiaid 'yn bersonol'.

### Tabl 35 Tueddiadau o ran lleoliadau gamblo – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N. | % |
| **Siopau Betio** | 2858 | 56.1% | 3564 | 50.7% | 3219 | 45.5% | 2817 | 42.8% | 2740 | 38.0% | 1902 | 28.8% |
| **Neuadd Bingo** | 101 | 2.0% | 120 | 1.7% | 114 | 1.6% | 110 | 1.7% | 110 | 1.5% | 84 | 1.3% |
| **Casino** | 614 | 12.1% | 776 | 11.0% | 680 | 9.6% | 589 | 9.0% | 669 | 9.3% | 433 | 6.6% |
| **Digwyddiadau byw** | 45 | 0.9% | 44 | 0.6% | 32 | 0.5% | 25 | 0.4% | 23 | 0.3% | 30 | 0.5% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 197 | 3.9% | 265 | 3.8% | 245 | 3.5% | 212 | 3.2% | 269 | 3.7% | 166 | 2.5% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 62 | 1.2% | 51 | 0.7% | 48 | 0.7% | 38 | 0.6% | 41 | 0.6% | 39 | 0.6% |
| **Tafarn** | 213 | 4.2% | 234 | 3.3% | 197 | 2.8% | 170 | 2.6% | 212 | 2.9% | 131 | 2.0% |
| **Ar-lein** | 2890 | 56.8% | 4214 | 59.9% | 4666 | 66.0% | 4331 | 65.9% | 4956 | 68.8% | 5206 | 79.0% |
| **Amrywiol** | 604 | 11.9% | 777 | 11.1% | 619 | 8.8% | 562 | 8.5% | 526 | 7.3% | 535 | 8.1% |
| **Clwb aelodau preifat** | 12 | 0.2% | 10 | 0.1% | 13 | 0.2% | 12 | 0.2% | 10 | 0.1% | 9 | 0.1% |
| **Arall** | 104 | 2.0% | 143 | 2.0% | 155 | 2.2% | 163 | 2.5% | 136 | 1.9% | 63 | 1.0% |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 5288 | | 7293 | | 7337 | | 6744 | | 7473 | | 7191 | |

Dengys Tabl 36 y tueddiadau o ran rhestr ddewisedig o weithgareddau, sydd wedi'u grwpio yn ôl lleoliad (siopau betio, casinos ac ar-lein yn unig). O fewn gweithgareddau ar-lein, mae'r defnydd o slotiau casino wedi cynyddu, tra bo bingo a gemau pocer ar-lein wedi gostwng neu wedi aros yn gymharol debyg.

**Tabl 36 Tueddiadau o ran gweithgareddau gamblo dewisedig – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Siopau Betio - Ceffylau** | 701 | 13.8% | 820 | 11.7% | 705 | 10.0% | 570 | 8.7% | 656 | 9.1% | 538 | 8.2% |
| **Siopau Betio - Cŵn** | 238 | 4.7% | 278 | 4.0% | 263 | 3.7% | 154 | 2.3% | 207 | 2.9% | 155 | 2.4% |
| **Siopau Betio - Digwyddiad chwaraeon neu arall** | 714 | 14.0% | 902 | 12.8% | 803 | 11.4% | 708 | 10.8% | 858 | 11.9% | 612 | 9.3% |
| **Siopau Betio - Peiriant gemau** | 1848 | 36.3% | 2266 | 32.2% | 2056 | 29.1% | 1735 | 26.4% | 1459 | 20.3% | 914 | 13.9% |
| **Casino- Pocer** | 80 | 1.6% | 92 | 1.3% | 70 | 1.0% | 55 | 0.8% | 65 | 0.9% | 42 | 0.6% |
| **Casino- Gemau cardiau eraill** | 116 | 2.3% | 157 | 2.2% | 125 | 1.8% | 96 | 1.5% | 99 | 1.4% | 58 | 0.9% |
| **Casino- Rwlét** | 404 | 7.9% | 508 | 7.2% | 419 | 5.9% | 373 | 5.7% | 412 | 5.7% | 240 | 3.6% |
| **Casino- Peiriant gemau** | 113 | 2.2% | 141 | 2.0% | 129 | 1.8% | 124 | 1.9% | 154 | 2.1% | 118 | 1.8% |
| **Ar-lein- Ceffylau** | 452 | 8.9% | 697 | 9.9% | 719 | 10.2% | 626 | 9.5% | 671 | 9.3% | 631 | 9.6% |
| **Ar-lein- Arall** | 173 | 3.4% | 232 | 3.3% | 225 | 3.2% | 239 | 3.6% | 251 | 3.5% | 338 | 5.1% |
| **Ar-lein- Digwyddiadau chwaraeon** | 1059 | 20.8% | 1512 | 21.5% | 1740 | 24.6% | 1637 | 24.9% | 1807 | 25.1% | 1772 | 26.9% |
| **Ar-lein- Bingo** | 159 | 3.1% | 164 | 2.3% | 163 | 2.3% | 126 | 1.9% | 176 | 2.4% | 218 | 3.3% |
| **Ar-lein- Pocer** | 184 | 3.6% | 240 | 3.4% | 236 | 3.3% | 171 | 2.6% | 154 | 2.1% | 178 | 2.7% |
| **Ar-lein- Casino (Gemau bwrdd)** | 908 | 17.8% | 1323 | 18.8% | 1429 | 20.2% | 1311 | 19.9% | 1315 | 18.3% | 1363 | 20.7% |
| **Ar-lein- Casino (slotiau)** | 839 | 16.5% | 1285 | 18.3% | 1590 | 22.5% | 1458 | 22.2% | 1900 | 26.4% | 2104 | 31.9% |

## 12.3 Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth

A hwnnw wedi'i grwpio yn ôl flwyddyn y derbyniwyd triniaeth dengys, Tabl 37 nifer o dueddiadau cadarnhaol, gyda chynnydd yng nghyfran y cleientiaid sy'n cwblhau triniaeth a drefnwyd (o 59% i 74%), ochr yn ochr â gostyngiad yn y gyfran sy'n rhoi'r gorau i'w triniaeth (o 35% i 20%).

Tabl 37 Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 136 | 3.2% | 251 | 3.9% | 297 | 4.5% | 232 | 3.8% | 398 | 5.6% | 176 | 2.8% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 2513 | 58.5% | 3943 | 61.7% | 4165 | 62.7% | 4215 | 69.4% | 4859 | 68.7% | 4671 | 73.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 1515 | 35.3% | 1976 | 30.9% | 1989 | 29.9% | 1517 | 25.0% | 1696 | 24.0% | 1247 | 19.6% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 93 | 2.2% | 180 | 2.8% | 132 | 2.0% | 91 | 1.5% | 103 | 1.5% | 199 | 3.1% |
| **Ymadawedig** | 1 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.0% | 1 | 0.0% | 2 | 0.0% | 2 | 0.0% |
| **Cyfanswm y cleientiaid a ryddhawyd** | 4297 | | 6392 | | 6645 | | 6092 | | 7076 | | 6484 | |

## 12.4 Tueddiadau o ran nodweddion y cleient

Dengys Tabl 38 gynnydd cyffredinol yng nghyfran y cleientiaid sy'n fenywod, sydd wedi codi o 19% yn 2015/16 i 30% yn 2020/21.

Tabl 38 Tueddiadau o ran y rhywiau – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Gwryw** | 4770 | 80.8% | 6594 | 81.1% | 6518 | 79.4% | 6033 | 78.7% | 6769 | 75.2% | 5780 | 70.4% |
| **Benyw** | 1134 | 19.2% | 1536 | 18.9% | 1691 | 20.6% | 1628 | 21.2% | 2214 | 24.6% | 2423 | 29.5% |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 5909 | | 8133 | | 8219 | | 7675 | | 9008 | | 8490 | |

* N chynhwyswyd categorïau rhyw sydd â llai na 100 o gleientiaid o fewn y tabl hwn

Dengys Tabl 39 bod cyfran y cleientiaid sy'n dod o gefndiroedd ethnig Gwyn neu Wyn Prydeinig wedi gostwng ers 2015/16, gyda phob grŵp ethnic arall yn cynyddu.

### Tabl 39 Tueddiadau o ran ethnigrwydd – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu Wyn Prydeinig** | 5272 | 90.6% | 7264 | 90.2% | 7361 | 90.4% | 6800 | 89.7% | 7890 | 89.0% | 7200 | 87.6% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | 127 | 2.2% | 190 | 2.4% | 146 | 1.8% | 188 | 2.5% | 264 | 3.0% | 307 | 3.7% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | 260 | 4.5% | 368 | 4.6% | 375 | 4.6% | 373 | 4.9% | 432 | 4.9% | 430 | 5.2% |
| **Cymysg** | 96 | 1.6% | 132 | 1.6% | 144 | 1.8% | 137 | 1.8% | 169 | 1.9% | 166 | 2.0% |
| **Arall** | 64 | 1.1% | 95 | 1.2% | 116 | 1.4% | 87 | 1.1% | 111 | 1.3% | 116 | 1.4% |
| **Ddim yn hysbys/Ar goll** | 90 | | 84 | | 77 | | 90 | | 142 | | 271 | |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 5909 | | 8133 | | 8219 | | 7675 | | 9008 | | 8490 | |

Dengys Tabl 40 na welwyd unrhyw dueddiadau clir o ran statws cyflogaeth o fewn y cyfnod amser hwn.

### Tabl 40 Tueddiadau o ran statws cyflogaeth – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Cyflogedig** | 4375 | 75.8% | 6254 | 77.9% | 6436 | 79.3% | 5926 | 78.1% | 6675 | 75.1% | 5814 | 72.7% |
| **Di-waith** | 572 | 9.9% | 708 | 8.8% | 655 | 8.1% | 640 | 8.4% | 767 | 8.6% | 811 | 10.1% |
| **Myfyriwr** | 149 | 2.6% | 161 | 2.0% | 168 | 2.1% | 141 | 1.9% | 146 | 1.6% | 172 | 2.1% |
| **Analluog i weithio oherwydd salwch** | 346 | 6.0% | 470 | 5.9% | 481 | 5.9% | 501 | 6.6% | 630 | 7.1% | 733 | 9.2% |
| **Cadw tŷ** | 112 | 1.9% | 138 | 1.7% | 130 | 1.6% | 147 | 1.9% | 194 | 2.2% | 201 | 2.5% |
| **Ddim yn chwilio am waith** | 10 | 0.2% | 23 | 0.3% | 17 | 0.2% | 20 | 0.3% | 19 | 0.2% | 30 | 0.4% |
| **Carchar-gofal** | 60 | 1.0% | 74 | 0.9% | 20 | 0.2% | 39 | 0.5% | 227 | 2.6% | 14 | 0.2% |
| **Gwirfoddolwr** | 21 | 0.4% | 28 | 0.3% | 15 | 0.2% | 12 | 0.2% | 25 | 0.3% | 20 | 0.3% |
| **Wedi ymddeol** | 126 | 2.2% | 176 | 2.2% | 191 | 2.4% | 160 | 2.1% | 206 | 2.3% | 182 | 2.3% |
| **Ddim yn hysbys/Ar goll** | 138 | | 101 | | 106 | | 89 | | 117 | | 513 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | 5909 | | 8133 | | 8219 | | 7675 | | 9008 | | 8490 | |

# Ystadegau Blynyddol gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol
## Lloegr

1af Ebrill 2020 i 31ain Mawrth 2021

GambleAware

# Cynnwys

## Lloegr


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 46 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | 48 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | 49 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | 51 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | 51 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | 51 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21 | 53 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | 54 |
| 8.1 | Oedran a rhyw Cleientiaid | 54 |
| 8.2 | Ethnigrwydd Cleientiaid | 56 |
| 8.3 | Statws perthynas Cleientiaid | 57 |
| 8.4 | Statws cyflogaeth Cleientiaid | 58 |
| 8.5 | Proffil Gamblo | 59 |
| 8.5.1 | Lleoliadau gamblo | 59 |
| 8.5.2 | Gweithgareddau gamblo | 59 |
| 8.5.3 | Hanes gamblo | 61 |
| 8.5.4 | Arian sy'n cael ei wario ar gamblo | 62 |
| 8.5.5 | Math y gamblo yn ôl oedran | 63 |
| 8.5.6 | Lleoliad gamblo yn ôl rhyw | 64 |
| 8.5.7 | Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig | 65 |
| 8.5.8 | Gamblo yn ôl statws perthynas | 65 |
| 8.5.9 | Math y gamblo yn ôl statws cyflogaeth | 66 |
| 9 | Mynediad at wasanaethau | 67 |
| 9.1 | Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer triniaeth | 67 |
| 9.2 | Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf | 68 |
| 10 | Ymgysylltiad | 69 |
| 10.1 | Cyfnod yr amser yn derbyn triniaeth | 70 |
| 11 | Canlyniadau'r Driniaeth | 70 |
| 11.1 | Y rhesymau dros adael triniaeth | 70 |
| 11.2 | Sgorau difrifoldeb | 72 |
| 11.2.1 | Sgorau difrifoldeb sylfaenol | 72 |
| 11.2.2 | Newid mewn sgorau difrifoldeb | 74 |
| 12 | Tueddiadau | 78 |
| 12.1 | Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth | 78 |
| 12.2 | Tueddiadau o ran y math o gamblo | 79 |
| 12.3 | Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth | 80 |
| 12.4 | Tueddiadau o ran nodweddion y cleient | 80 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

## Nodweddion y cleient

- Cafodd Cyfanswm o 7,726 o breswylwyr Lloegr eu trin yn y gwasanaethau gamblo (sy'n adrodd i'r Fframwaith Adrodd Data (FfAD)) yn ystod 2020/21.
- Roedd mwyafrif helaeth y cleientiaid (70%) yn wrywod.
- Roedd tri chwarter (75%) y cleientiaid yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed, sy'n cyfrif am gyfanswm o 39% o'r cleientiaid.
- Roedd naw o bob deg (87%) o gefndir ethnig gwyn, gan gynnwys 80% a oedd yn Wyn Prydeinig a 5% a oedd yn Wyn Ewropeaidd. Y cefndiroedd ethnig mwyaf cyffredin a adroddwyd wedyn oedd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (6%), a Du neu Ddu Prydeinig (4%).
- Roedd mwyafrif y cleientiaid naill ai mewn perthynas (36%) neu'n briod (26%). Roedd 30% arall yn sengl, 4% wedi gwahanu a 3% wedi ysgaru.
- Yn nhermau statws gweithio, roedd y mwyafrif yn gyflogedig (73%), gyda chyfrannau llai yn adrodd eu bod yn ddi-waith (10%), yn analluog i weithio oherwydd salwch (9%), wedi ymddeol (2%), yn cadw tŷ (3%) neu'n fyfyriwr (2%).

## Proffil gamblo

- Ymysg cleientiaid a oedd yn derbyn triniaeth am eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo, roedd sgoriau cychwynnol y Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI)[1] yn dangos bod gan y mwyafrif (94%) sgôr o wyth neu fwy (y mae'r raddfa MDGP yn eu dosbarthu'n bobl â phroblem gamblo) ar adeg eu hasesu ar gyfer triniaeth. Ymysg y rheiny yr oedd eu cyfnod o driniaeth wedi dod i ben o fewn blwyddyn 2020/21, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 28% a dangosodd y mwyafrif (80%) rywfaint o wellhad ar y raddfa hon.
- Y lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer gamblo oedd gamblo ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 79% o gleientiaid. Siopau betio oedd y lleoliad mwyaf cyffredin wedyn, sy'n cael eu defnyddio gan 29% o gamblwyr. Roedd yn amlwg fod y defnydd o wasanaethau ar-lein yn uwch ymysg grwpiau oedran iau.
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, roedd y gyfran a oedd yn adrodd am ddefnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein wedi cynyddu o 57% i 79%. Yn yr un cyfnod, roedd y gyfran a oedd yn defnyddio siopau betio wedi gostwng o 56% i 29%.
- Ymysg gwasanaethau ar-lein, y gweithgaredd mwyaf cyffredin oedd gamblo drwy slotiau casino (32%), a ddilynwyd gan ddigwyddiadau chwaraeon (27%) a gemau bwrdd casino (21%).
- Ymysg siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo (14%), a ddilynwyd gan ddigwyddiadau chwaraeon (9%) a Cheffylau (3%).
- O gymharu â gamblwyr Gwyn, roedd y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Ddu neu Ddu Prydeinig yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (46% o gymharu â 28%) neu gasinos (17% o gymharu â 5%). Roedd y rheiny a oedd yn nodi eu bod yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (32%) neu gasinos (15%) na chleientiaid Gwyn.
- Roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (63%) yn adrodd bod ganddyn nhw ddyled oherwydd eu gamblo, roedd 11% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo ac roedd 27% wedi cael profiad o berthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo.

1 Gweler yr Atodiad, adran 12.2

- Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £1,000 ar gamblo yn y 30 niwrnod blaenorol cyn iddyn nhw gael eu hasesu, gyda 50% yn gwario mwy na hyn.

## Ymgysylltu â thriniaeth

- Roedd mwyafrif yr atgyfeiriadau i gael triniaeth (93%) yn cael eu gwneud gan y cleientiaid eu hunain.
- Ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn blwyddyn, gwelwyd 50% gleientiaid am y tro cyntaf o fewn tri diwrnod ar ôl cael eu hatgyfeirio, a gwelwyd 75% ohonyn nhw o fewn wyth diwrnod.
- Ymysg pob un o'r rhai hynny sy'n derbyn a diweddu eu triniaeth o fewn 2020/21, roedd y driniaeth yn para am gyfartaledd (canolrif) o 9 wythnos. Yn gyffredinol, derbyniodd cleientiaid gymedr o wyth apwyntiad o fewn eu cyfnod o driniaeth.

## Canlyniadau'r driniaeth

- Ymysg y cleientiaid y daeth eu triniaeth i ben yn ystod 2020/21, cwblhaodd y mwyafrif (74%) y driniaeth a drefnwyd. Gadawodd un o bob pump (20%) y driniaeth a drefnwyd cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen.
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, cynyddodd y gyfran o gleientiaid a oedd yn cwblhau triniaeth a drefnwyd o 59% i 74%, tra bod y gyfran a oedd yn gadael y driniaeth wedi gostwng o 35% i 20%.
- Ymysg gamblwyr, bu gwellhad yn y sgorau MDGP gyda chyfartaledd (canolrif) o 13 pwynt rhwng yr apwyntiad cynharaf a'r un olaf yn y driniaeth.
- Ar y pwynt diweddaraf yn y driniaeth, roedd gan 72% sgôr o saith neu lai, o gymharu â 6% ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau yn y sgôr MDGP o ran 92% o gleientiaid a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 61% o'r rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi
- Diffiniwyd 63% o gleientiaid fel rhai 'is na'r torbwynt clinigol' ar raddfa CORE-10 ar ddiwedd y driniaeth, o gymharu â 17% yn unig ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau yn y sgôr CORE-10 o ran 88% o gleientiaid a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 52% o'r rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi.

# 2 Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (GTGC/NGTS) yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu triniaeth a chefnogaeth gyfrinachol ar gyfer unrhyw un sy'n profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ac mae'n rhad ac am ddim ledled Lloegr, Yr Alban a Chymru. Mae'r GTGC yn cael ei gomisiynu gan GambleAware, sef elusen annibynnol sy'n dyfarnu grantiau ac yn mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus er mwyn lleihau niwed drwy gamblo.

Ble bynnag y mae rhywun yn cysylltu trwy'r rhwydwaith hwn, mae'r darparwyr hyn yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd drwy lwybrau atgyfeirio i gyflawni'r pecyn gofal mwyaf addas ar gyfer unigolion sy'n profi anawsterau gyda gamblo, ac i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan arferion gamblo rhywun arall.

Mae'r data ar gyfer y cyfnod 2020/21 a geir o fewn yr adroddiad hwn yn ymdrin â gwybodaeth a gyflwynwyd gan y sefydliadau a ganlyn, gyda manylion y gwasanaethau a ddarperir ganddyn nhw'n wedi'u rhestru isod.

### Mae GamCare[2] a'i rwydwaith o bartneriaid yn cynnig:

- Triniaeth ar-lein a gefnogir gan gysylltiad rheolaidd â therapydd, sydd ar gael ar adegau ac mewn mannau sy'n gyfleus i'r cleient dros gyfnod o wyth wythnos.
- Cymorth a thriniaeth therapiwtig un-i-un, wyneb-yn-wyneb, ar-lein a thros y ffôn ar gyfer pobl â phroblemau gamblo, yn ogystal â ffrindiau ac aelodau teulu sy'n cael eu heffeithio gan gamblo.
- Cyrsiau Adfer Gamblo a gyflwynir wyneb-yn-wyneb neu ar-lein dros gyfnod o rhwng chwech i wyth wythnos.

### Mae Cymdeithas Gordon Moody yn cynnig:

- Canolfannau Triniaeth Preswyl – dwy ganolfan arbenigol unigryw, sy'n darparu rhaglen driniaeth breswyl ddwys ar gyfer dynion sy'n gaeth i gamblo, dros gyfnod o 14 wythnos.
- Tai/Llety Adferiad – llety arbenigol i'r rheiny sydd wedi cwblhau'r rhaglenni triniaeth ond sydd angen cymorth ychwanegol i'w hadfer rhag mynd yn ôl i'w hen arferion gamblo.
- Rhaglen Encilio a Chwnsela – rhaglenni encilio ar gyfer cohortau o ferched yn unig a chohortau o ddynion yn unig, sy'n cyfuno arosiadau preswyl byr gyda chymorth cwnsela yn y cartref.

### Mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol a Gogledd-orllewin Llundain (Clinig Trin Gamblo Problemus Llundain) yn cynnig:

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

2 Yn ychwanegol, mae GamCare yn gweithredu'r Llinell Gymorth Genedlaethol sy'n cynnig sgyrsiau cymorth byw dros y ffôn ac ar-lein ac sy'n darparu cefnogaeth yn syth i unigolion ac atgyfeiriad i'r gwasanaeth triniaeth. Yn ogystal, mae GamCare yn cynnig gwybodaeth a chyngor drwy'u gwefan, fforymau a gymedrolir ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein ar gyfer grwpiau. Nid yw'r gwasanaethau hyn o fewn cwmpas y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

**Mae Gwasanaeth Gamblo GIG Gogledd Lloegr, a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Partneriaeth Sefydledig GIG Leeds ac Efrog yn cynnig:**

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

Mae angen i ddarparwyr triniaeth GambleAware y telir amdano gyflwyno setiau data chwarterol mewn fformat safonol [3]. Sylfaen yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r cyflwyniadau hyn.

# 3 Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau

Mae Deddf Gamblo 2005 yn cynnwys darpariaeth yn adran 123[4] ar gyfer ardoll ar weithredwyr gamblo i ariannu prosiectau i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ond nid yw llywodraethau olynol wedi rhoi'r ddarpariaeth hon ar waith. Yn absenoldeb ardoll o'r fath, mae'r Comisiwn Gamblo yn gosod gofyniad ar weithredwyr trwy'r Amodau Trwydded a Chod Ymarfer[5] i wneud cyfraniad i ariannu ymchwil, addysg a thriniaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Llywodraeth yn y broses o gynnal adolygiad o Ddeddf Gamblo 2005 ac mae hi i fod i ryddhau papur gwyn ar ddiwedd 2021 sy'n amlinellu ei chynigion ar gyfer ei diwygio.

Mae GambleAware [6] yn elusen annibynnol sy'n comisiynu gwasanaethau atal a thriniaeth ar sail tystiolaeth mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau arbenigol, ac mae hefyd yn wedi dadlau'n gryf dros gael ardoll orfodol. Yr elusen hon yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw sy'n weithredol ym meysydd ymchwil, addysg a thriniaeth [7], ac oherwydd hyn, gwneir cyfran uchel o roddion i GamblAware. Yn arbennig, gwnaed addewid diweddar i'r elusen o hyd at £100 miliwn gan y pedwar cwmni gamblo mwyaf hyd at y flwyddyn 2024.

Ym Medi 2021, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr (sydd wedi'i ddiddymu erbyn hyn) adolygiad o'r dystiolaeth o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo[8]. Daeth y papur i'r casgliad y dylid ystyried bod gamblo niweidiol yn fater iechyd cyhoeddus oherwydd y cysylltiad â niwed i unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymdeithas ehangach. Bydd y Swyddfa Gwella Iechyd ac Atal Gwahaniaethau ('Office for Health Improvement and Disparities', OHID) yn gweithio'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cynllun i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr adroddiad i helpu i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Yn Ionawr 2019, cyhoeddodd GIG Lloegr y byddai'n sefydlu rhagor o glinigau arbenigol i drin anhwylder gamblo[9] ac yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddodd yr amserlen ar gyfer pryd y byddai'r clinigau newydd yn agor[10]. Dechreuodd y cyntaf o'r clinigau hyn gynnig triniaeth yn 2019/20. Yn ogystal, mae rhywfaint o weithgaredd a ariannir gan y GIG i bobl sydd â diagnosis sylfaenol neu

3 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf
4 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/19/section/123
5 http://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/LCCP/Licence-conditions-and-codes-of-practice.aspx
6 Mae gwybodaeth am GambleAware a'i llywodraethu ar gael yn https://about.gambleaware.org/about/
7 https://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/General-compliance/Social-responsibility/Research-education-and-treatment-contributions.aspx
8 https://www.gov.uk/government/news/landmark-report-reveals-harms-associated-with-gambling-estimated-to-cost-society-at-least-1-27-billion-a-year
9 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/08/nhs-long-term-plan-version-1.2.pdf
10 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/07/nhs-mental-health-implementation-plan-2019-20-2023-24.pdf

eilaidd o anhwylder gamblo yn digwydd y tu allan i glinigau arbenigol. Caiff gweithgareddau a ariennir gan y GIG eu hadrodd yn yr ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan y GIG yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Roedd Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17 Prif Swyddog Meddygol Cymru[11], a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 yn trafod yr angen am well mesurau i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gan gynnwys gwasanaethau i helpu'r rheiny sydd eisoes yn profi niwed.

Mae GambleAware yn gweithio i sicrhau y caiff dull iechyd cyhoeddus ei fabwysiadu ym Mhrydain Fawr i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, a'i fod yn cael arwain gan y fframwaith ar gyfer atal niwed, fel y nodir yn y Strategaeth Genedlaethol i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau aruthrol i gymunedau, unigolion, darparwyr gwasanaeth a'r sector statudol. Mae sawl ardal wedi gweld newid cyflym mewn ymateb i ofynion newydd o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, efallai bod rhai wedi colli cyfle i dderbyn cymorth oherwydd newidiadau mewn gwasanaethau neu eu bod wedi datblygu anghenion newydd sydd heb eu diwallu. Mae effaith hirdymor y pandemig yn debygol o gael ei deimlo am flynyddoedd lawer, a dylai comisiynu effeithiol fod yn ymatebol bob amser i anghenion newidiol y gymdeithas. Mae GambleAware yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â'r GIG, asiantaethau iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol ledled Lloegr, yr Alban a Chymru i ddatblygu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ymhellach. Fel prif gyllidwr y GTGC/NGTS, mae'r adroddiad ystadegol hwn yn cwmpasu gweithgaredd a gomisiynwyd gan GambleAware.

Mae GambleAware yn aelod o weithgor ar y cyd ar atal niwed sy'n gysylltiedig gamblo sy'n cael ei gyd-gadeirio gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag aelod o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad. Mae GambleAware wedi sefydlu byrddau cynghori yng Nghymru a Lloegr i arwain cynlluniau comisiynu at y dyfodol yn y gwledydd hynny, ac mae'n bartner anfasnachol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Hefyd, mae GambleAware yn sefydlu Grŵp Cynghori mewn ymgynghoriad â chyrff eraill i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael, ac i gefnogi'r gwaith o alinio, integreiddio ac ehangu gwasanaethau triniaeth ar draws y system fel y gall cleifion gael y driniaeth iawn ar yr adeg iawn.

Trwy gyfuno ffigurau o wasanaethau triniaeth unigol a ariennir gan GambleAware i greu set ddata sy'n cwmpasu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol cyfan, darperir cyfleoedd newydd i gael gwell dealltwriaeth, ymhlith y boblogaeth sy'n derbyn triniaeth, o:

- Raddfa a difrifoldeb niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Nodweddion y rheiny sy'n cael cymorth o ran demograffeg ac ymddygiad
- Cynnydd a chanlyniadau o ran triniaeth

11 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/gambling-with-our-health-chief-medical-officer-for-wales-annual-report-2016-17.pdf

# 4 Cronfa ddata'r FfAD/DRF

Caiff y casgliad o ddata ynghylch cleientiaid sy'n derbyn triniaeth gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ei reoli trwy set ddata a gydlynir yn genedlaethol o'r enw'r Fframwaith Adrodd Data ('Data Reporting Framework), a gychwynnwyd yn 2015. Mae gwasanaethau triniaeth unigol yn casglu data ar gleientiaid a thriniaeth trwy systemau rheoli achosion pwrpasol. Ymgorfforir y FfAD ym mhob un o'r systemau hyn. Nodir eitemau data o fewn y FfAD ym Manyleb y FfAD[12] (sy'n ddilys tan Fawrth 31ain 2021) ac fe'i darperir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Cesglir data o fewn pedwar tabl ar wahân, sy'n darparu manylion am nodweddion cleientiaid, eu hanes o ran gamblo, manylion atgyfeiriadau a manylion am apwyntiadau. Mae'r FfAD yn cynnwys set ddata graidd gydgysylltiedig, a gesglir i ddarparu adroddiadau cyson y gellir eu cymharu ar lefel genedlaethol. Ceir rhai mân wahaniaethau o ran y data a gesglir rhwng asiantaethau, fel yr ychwanegiad o gategorïau atodol o fewn meysydd unigol, neu yn ffurf data a gesglir. Caiff y rhain eu hailfformatio a'u hailgodio ar lefel genedlaethol i sicrhau cysondeb o fewn manyleb y FfAD.

# 5 Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth am gleientiaid asiantaethau'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol, ac yn darparu manylion am nodweddion cleientiaid, gweithgareddau a hanes gamblo, ynghyd â thriniaeth a dderbynnir a chanlyniadau dilynol. Fe'i cyfyngir i gleientiaid y mae tystiolaeth yn bodoli ar eu cyfer eu bod wedi derbyn triniaeth strwythuredig o fewn y cyfnod adrodd, ac felly nid yw'n cynrychioli holl weithgaredd yr asiantaethau sy'n adrodd, ac nid yw ychwaith yn dal gwybodaeth am unrhyw wybodaeth am weithgareddau asiantaethau nad ydynt yn adrodd i'r system FfAD. Mae'n darparu crynodeb a adroddir yn gyson, y gellir ei gymharu o un flwyddyn i'r llall.

# 6 Nodiadau ar ddehongli

Mae coladu'r FfAD a'r lefel genedlaethol yn system gasglu data dienw. Ar lefel gwasanaeth, cesglir codau cleientiaid i wahaniaethu un cleient o'r llall. Bydd cyfansymiau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu symio i ddarparu amcangyfrif o lefelau triniaeth cenedlaethol. Os yw cleientiaid yn mynychu mwy nag un gwasanaeth o fewn y cyfnod adrodd, fe gânt eu cyfrif gan bob gwasanaeth a fynychir ganddynt. Ni ellir cyfrifo lefel y gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau'n gywir, ond disgwylir y bydd yn ganran fach iawn o gyfanswm nifer y cleientiaid a amcangyfrifir ar lefel genedlaethol. Felly dylid dehongli cyfanswm y nifer a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel amcangyfrif o gyfanswm nifer y cleientiaid sy'n derbyn triniaeth o fewn asiantaethau sy'n cymryd rhan.

Gall cleientiaid gwasanaethau triniaeth gamblo naill ai fod yn gamblwyr eu hunain, yn 'rai eraill a effeithir' neu'n unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo. O fewn yr adroddiad

12 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf

hwn, caiff unigolion eu categoreiddio fel 'gamblwyr' neu 'Gleientiaid eraill'. Mae 'Cleientiaid eraill' yn cynnwys rhai eraill a effeithir, unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo a'r rheiny na chafodd y wybodaeth hon ei chofnodi ar eu cyfer. Cyflwynir data am nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaethau ar gyfer y ddau gategori o gleientiaid. Ni chaiff manylion am weithgareddau gamblo a hanes unigolion o ran eu harferion gamblo ond eu cyflwyno ar gyfer cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr.

Mae'r FfAD yn casglu ardal bost eu man preswylio (hanner cyntaf y cod post). Gall y rhain rychwantu ffiniau awdurdodau lleol a ffiniau cenedlaethol. O ran yr adroddiad hwn, ni chynhwyswyd ardaloedd post y mae'r rhan fwyaf ohonynt, neu'r ardal gyfan wedi'u cynnwys o fewn yr Alban neu Gymru.

O fewn yr adroddiad hwn, cyflwynir cyfartaleddau fel cymedrau neu ganolrifau, neu weithiau'r ddau gyda'i gilydd. Gan fod gwerthoedd unigol eithaf yn effeithio'r cymedr ond nid y canolrif, yn aml, ffefrir y canolrif fel mesur canolduedd.

Roedd y cyfnod triniaeth Ebrill 1$^{af}$ 2020-Mawrth 31$^{ain}$ 2021 yn cyd-daro â'r pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, yn aml roedd yr hawl i symud a chael mynediad i leoliadau cyhoeddus wedi'i gyfyngu. Dechreuodd y cyfnod clo cyntaf yn Lloegr ar 23$^{ain}$ Mawrth 2020, gyda'r cyfyngiadau ar bellter cymdeithasol wedi parhau hyd at 23$^{ain}$ Mehefin. Cyhoeddwyd y penderfyniad i fynd yn ôl i weithio o adref ar 22$^{ain}$ Medi a dechreuodd ail gyfnod clo cenedlaethol yn Lloegr ar 5$^{ed}$ Tachwedd, gyda thrydydd un yn cychwyn ar 6$^{th}$ Ionawr. O fewn pob cyfnod clo, cyfyngwyd ar fynediad i wasanaethau a ddiffinnir fel rhai hanfodol. Roedd lleoliadau o fewn y sector lletygarwch ac adloniant, fel tafarnau, bwytai a sinemâu, ond hefyd siopau betio, casinos a neuaddau bingo, wedi cau yn ystod y cyfnodau clo, ac yn destun cyrffywiau a chyfyngiadau o ran cadw pellter y tu allan i'r cyfnodau hynny.

# 7 Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21

Dengys Tabl 1 isod lefel gwblhau y manylion a gymerir ar adeg asesu cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21. Nid yw manylion gweithgareddau gamblo ac a hanes cleientiaid o ran arferion gamblo yn cael eu casglu fel mater o drefn ar gyfer cleientiaid nad ydynt eu hunain yn gamblwyr. Nid yw pa mor gyflawn yw'r wybodaeth ynghylch gamblo ond yn berthnasol i gleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr. O ran y mwyafrif o'r eitemau data, mae bron i 100% ohonynt yn gyflawn, sy'n golygu bod y data'n gynrychioladol o'r boblogaeth hon sy'n derbyn triniaeth, sy'n lleihau unrhyw debygolrwydd o duedd ac sy'n dilysu cymariaethau rhwng cyfnodau amser ac is-samplau.

**Tabl 1 Lefel gwblhau meysydd data penodol**

| Eitem ddata | Lefel gwblhau |
|---|---|
| Rheswm dros yr atgyfeiriad | 100% |
| Ffynhonnell yr atgyfeiriad | 100% |
| Rhyw | 98.1% |
| Ethnigrwydd | 97.1% |
| Statws cyflogaeth | 95.0% |
| Statws o ran perthynas | 96.2% |
| Prif weithgaredd gamblo | 92.1% |
| Arian a gaiff ei wario ar gamblo | 96.7% |
| Colli swydd | 97.0% |
| Perthynas yn chwalu | 97.0% |
| Ennill swm mawr o arian yn gynnar | 97.3% |
| Dyled o ganlyniad i gamblo | 95.6% |
| Hanes gamblo'r cleient yn nhermau amser | 91.7% |
| Oedran dechrau (o ran gamblo problemus) | 94.3% |
| Nifer y diwrnodau yn gamblo bob mis | 85.8% |

# 8 Nodweddion Cleientiaid

Cafodd cyfanswm o 7,726 o unigolion eu trin gan wasanaethau gamblo sy'n darparu data i'r FfAD o fewn 2020/21.

Roedd mwyafrif y rheiny a welwyd gan wasanaethau gamblo yn gamblwyr (6524, 85%). Fodd bynnag, roedd 1155 (15%) o atgyfeiriadau'n ymwneud â 'rhai eraill a effeithir', hynny yw, unigolion nad ydynt o reidrwydd yn gamblwyr ond y cafodd eu bywydau eu heffeithio gan y rheiny sy'n gamblwyr. Roedd nifer fechan (46, 1%) o atgyfeiriadau'n ymwneud ag unigolion a oedd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo (gweler adran 6). Caiff pob cleient ei gynnwys mewn dadansoddiadau o nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaeth, ond dim ond cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr a gynhwysir mewn dadansoddiadau o weithgareddau gamblo cleientiaid a'u hanes o ran arferion gamblo.

Roedd chwarter (23%) yr achosion a welwyd yn 2020/21 ar gyfer triniaeth fynych (cleientiaid a welwyd yn flaenorol gan y gwasanaeth sy'n adrodd).

## 8.1 Oedran a rhyw Cleientiaid

Roedd gan gleientiaid oedran cyfartalog (canolrifol) o 35 mlwydd oed ar adeg eu hatgyfeirio, gyda thri chwarter (75%) yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed (Tabl 2) sy'n cyfrif am 39% o gyfanswm y cleientiaid. Roedd gan gleientiaid ar wahân i gamblwyr oedran canolrifol o 40 oed ac roeddynt yn fwy tebygol o fod yn y bandiau oedran dros 50 oed (Tabl 3).

Roedd mwyafrif helaeth o'r cleientiaid (70%) yn wrywod. Mae hyn yn cymharu â 49% yn y boblogaeth yn gyffredinol yn Lloegr[13]. Mae'r dosbarthiad oedran yn amrywio yn ôl rhyw (Tabl 2 a Ffigur 1), gyda dosbarthiad benywod yn ôl oedran yn fwy cyfartal, gan gynnwys cyfran uwch yn y grwpiau oedran hŷn (45+) o gymharu â gwrywod. Mae hyn yn arwain at oedran cyfartalog (canolrifol) uwch o 38 oed ar gyfer benywod o gymharu â 33 ar gyfer gwrywod. Cafwyd cryn wahaniaeth o ran rhyw yn ôl math y cleient (Tabl 4) gyda 81% o gamblwyr yn wrywod o gymharu â dim ond 14% o gleientiaid eraill.


13 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2020

## Tabl 2 Oedran a rhyw cleientiaid

| | | Gwryw | | | Benyw | | | Cyfanswm* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | Col % | Row % | N | Col % | Row % | N | Col % | Row % |
| Bandiau oedran | < 20 | 88 | 1.7% | 87.1% | 13 | 0.6% | 12.9% | 101 | 1.3% | 100.0% |
| | 20-24 | 573 | 10.9% | 83.3% | 115 | 5.2% | 16.7% | 688 | 9.2% | 100.0% |
| | 25-29 | 1093 | 20.7% | 78.6% | 295 | 13.4% | 21.2% | 1390 | 18.6% | 100.0% |
| | 30-34 | 1164 | 22.0% | 75.1% | 385 | 17.5% | 24.8% | 1550 | 20.7% | 100.0% |
| | 35-39 | 835 | 15.8% | 69.4% | 368 | 16.7% | 30.6% | 1204 | 16.1% | 100.0% |
| | 40-44 | 550 | 10.4% | 71.3% | 221 | 10.0% | 28.7% | 771 | 10.3% | 100.0% |
| | 45-49 | 377 | 7.1% | 66.1% | 192 | 8.7% | 33.7% | 570 | 7.6% | 100.0% |
| | 50-54 | 268 | 5.1% | 53.6% | 232 | 10.5% | 46.4% | 500 | 6.7% | 100.0% |
| | 55-59 | 168 | 3.2% | 46.9% | 189 | 8.6% | 52.8% | 358 | 4.8% | 100.0% |
| | 60+ | 164 | 3.1% | 46.1% | 191 | 8.7% | 53.7% | 356 | 4.8% | 100.0% |
| | Cyfanswm* | 5280 | 100.0% | 70.5% | 2201 | 100.0% | 29.4% | 7488 | 100.0% | 100.0% |

* ni chynhwysir y rheiny lle nad yw'r oedran neu ryw wedi'i gofnodi neu lle bo'r categori rhyw yn cynnwys llai na 10

## Ffigur 1 Oedran a rhyw cleientiaid ar adeg eu hatgyfeirio



Tabl 3 Bandiau oedran yn ôl math y cleient

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | N | % | N | % |
| **Bandiau oedran** | Under 20 | 92 | 1.4% | 10 | 0.8% |
| | 20-24 | 646 | 10.0% | 54 | 4.5% |
| | 25-29 | 1269 | 19.7% | 158 | 13.2% |
| | 30-34 | 1381 | 21.5% | 195 | 16.3% |
| | 35-39 | 1046 | 16.3% | 182 | 15.2% |
| | 40-44 | 676 | 10.5% | 109 | 9.1% |
| | 45-49 | 486 | 7.6% | 93 | 7.8% |
| | 50-54 | 383 | 6.0% | 123 | 10.3% |
| | 55-59 | 249 | 3.9% | 116 | 9.7% |
| | 60+ | 208 | 3.2% | 159 | 13.3% |
| | Cyfanswm | 6436 | 100.0% | 1199 | 100.0% |
| | Ar goll | 88 | | 3 | |
| | Cyfanswm y cleientiaid | 6524 | | 1202 | |

Tabl 4 Rhyw yn ôl math y cleient*

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % |
| **Gwryw** | 5163 | 80.6% | 163 | 13.9% |
| **Benyw** | 1237 | 19.3% | 1006 | 85.9% |

* Ni chynhwyswyd categorïau rhyw sydd â llai na 100 o gleientiaid yn y tabl hwn.

## 8.2 Ethnigrwydd Cleientiaid

Roedd bron i naw o bob deg o'r cleientiaid (87%) o gefndir ethnig Gwyn (Tabl 5) gan gynnwys 80% a oedd yn Wyn Prydeinig a 5% a oedd yn Wyn Ewropeaidd. Y cefndir ethnig a adroddwyd fwyaf wedyn oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (5%), a Du neu Ddu Prydeinig (4%). Mae hyn yn cymharu â chyfrannau [14] cenedlaethol (Cymru a Lloegr) o 86% yn Wyn neu Wyn Prydeinig, 8% yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a 3% yn Ddu neu Ddu Prydeinig.

Er nad oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn bodoli rhwng y rhywiau o fewn categorïau ethnig, roedd cleientiaid benyw ychydig yn llai tebygol na gwrywod o fod yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (4% o gymharu â 6%) neu Ddu neu Ddu Prydeinig (3% o gymharu â 4%).

14 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 y DU.

Tabl 5 Ethnigrwydd cleientiaid

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu Wyn Prydeinig** | Prydeinig | 5071 | 79.8% | 916 | 79.7% | 5987 | 79.8% |
| | Gwyddelig | 54 | 0.8% | 18 | 1.6% | 72 | 1.0% |
| | Ewropeaidd | 307 | 4.8% | 53 | 4.6% | 360 | 4.8% |
| | Arall | 82 | 1.3% | 21 | 1.8% | 103 | 1.4% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | Affricanaidd | 87 | 1.4% | 8 | 0.7% | 95 | 1.3% |
| | Caribïaidd | 65 | 1.0% | 4 | 0.3% | 69 | 0.9% |
| | Arall | 127 | 2.0% | 8 | 0.7% | 135 | 1.8% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig;** | Bangladeshaidd | 36 | 0.6% | 2 | 0.2% | 38 | 0.5% |
| | Indiaidd | 117 | 1.8% | 26 | 2.3% | 143 | 1.9% |
| | Pacistanaidd | 79 | 1.2% | 7 | 0.6% | 86 | 1.1% |
| | Tsieinïaidd | 25 | 0.4% | 4 | 0.3% | 29 | 0.4% |
| | Arall | 105 | 1.7% | 11 | 1.0% | 116 | 1.5% |
| **Cymysg** | Gwyn ac Asiaidd | 32 | 0.5% | 9 | 0.8% | 41 | 0.5% |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | 18 | 0.3% | 5 | 0.4% | 23 | 0.3% |
| | Gwyn a Caribïaidd Du | 34 | 0.5% | 4 | 0.3% | 38 | 0.5% |
| | Arall | 49 | 0.8% | 7 | 0.6% | 56 | 0.7% |
| **Grŵp ethnig arall** | | 68 | 1.1% | 46 | 4.0% | 114 | 1.5% |
| | **Cyfanswm** | 6356 | 100.0% | 1149 | 100.0% | 7505 | 100.0% |
| | **Ar goll** | 168 | | 53 | | 221 | |
| | **Cyfanswm y Cleientiaid** | 6524 | | 1202 | | 7726 | |

## 8.3 Statws perthynas Cleientiaid

Roedd y mwyafrif o'r cleientiaid naill ai mewn perthynas (36%) neu'n briod (26%). Roedd 30% arall yn sengl, 4% wedi gwahanu a 3% wedi ysgaru (Tabl 6). O gymharu â chleientiaid gwryw, roedd cleientiaid benyw yn llai tebygol o fod yn sengl (24% o gymharu â 33%) ac yn fwy tebygol o fod yn briod (32% o gymharu â 23%), wedi ysgaru (4% o gymharu â 2%) neu'n weddw (2% o gymharu â <1%).

Tabl 6 Statws perthynas cleientiaid

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Mewn perthynas** | 2265 | 36.0% | 430 | 37.3% | 2695 | 36.2% |
| **Sengl** | 2138 | 34.0% | 104 | 9.0% | 2242 | 30.2% |
| **Priod** | 1450 | 23.1% | 492 | 42.7% | 1942 | 26.1% |
| **Wedi gwahanu** | 253 | 4.0% | 59 | 5.1% | 312 | 4.2% |
| **Wedi ysgaru** | 140 | 2.2% | 48 | 4.2% | 188 | 2.5% |
| **Gweddw** | 37 | 0.6% | 19 | 1.6% | 56 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | 6283 | 100.0% | 1152 | 100.0% | 7435 | 100.0% |
| **Ar goll** | 241 | | 50 | | 291 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 6524 | | 1202 | | 7726 | |

## 8.4 Statws cyflogaeth Cleientiaid

Roedd mwyafrif y cleientiaid yn gyflogedig (73%). Y statws cyflogaeth a adroddwyd fwyaf wedyn oedd y di-waith (10%) a ddilynwyd gan rai a oedd yn analluog i weithio oherwydd salwch (9%), rhai a oedd yn cadw tŷ (3%), wedi ymddeol (2%) ac yn fyfyrwyr (2%). Roedd cleientiaid a oedd yn gamblo yn llai tebygol o fod yn ddi-waith (11% o gymharu â 6% o gleientiaid eraill), ac yn llai tebygol o fod yn cadw tŷ (2% o gymharu â 8%) neu wedi ymddeol (1% o gymharu â 7%).

Tabl 7 Statws cyflogaeth cleientiaid

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Cyflogedig** | 4541 | 73.1% | 819 | 72.6% | 5360 | 73.1% |
| **Di-waith** | 667 | 10.7% | 62 | 5.5% | 729 | 9.9% |
| **Myfyriwr** | 137 | 2.2% | 20 | 1.8% | 157 | 2.1% |
| **Analluog i weithio oherwydd salwch** | 619 | 10.0% | 46 | 4.1% | 665 | 9.1% |
| **Cadw tŷ** | 97 | 1.6% | 85 | 7.5% | 182 | 2.5% |
| **Ddim yn chwilio am waith** | 24 | 0.4% | 4 | 0.4% | 28 | 0.4% |
| **Carchar-gofal** | 9 | 0.1% | 2 | 0.2% | 11 | 0.1% |
| **Gwirfoddolwr** | 15 | 0.2% | 3 | 0.3% | 18 | 0.2% |
| **Wedi ymddeol** | 84 | 1.4% | 81 | 7.2% | 165 | 2.2% |
| **Heb ddweud** | 15 | 0.2% | 6 | 0.5% | 21 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | 6208 | 100.0% | 1128 | 100.0% | 7336 | 100.0% |
| **Ar goll** | 316 | | 74 | | 390 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 6524 | | 1202 | | 7726 | |

## 8.5 Proffil Gamblo

Nid yw adran 8.5 ond yn adrodd gwybodaeth a gasglwyd gan gleientiaid a oedd yn adrodd bod eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo.

### 8.5.1 Lleoliadau gamblo

Caiff hyd at dri gweithgaredd gamblo (penodol yn ôl lleoliad) eu cofnodi ar gyfer pob cleient, a chaiff y rhain eu rhestru yn ôl eu harwyddocâd. Y lleoliad mwyaf cyffredin a adroddwyd ar gyfer gamblo (Tabl 8) oedd ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 79% o gamblwyr a ddarparodd y wybodaeth hon. Siopau Betio oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o leoliad, a ddefnyddiwyd gan 29% o gamblwyr. Ni ddefnyddiwyd yr un lleoliad arall gan fwy na 10% o gamblwyr, er y defnyddiwyd casinos gan 7% a rhai amrywiol (fel y Loteri, cardiau crafu a'r pwls pêl-droed ) gan 8%.

Dengys Tabl 8 hefyd leoliadau'r prif weithgaredd gamblo ac, unwaith eto, mae'n dangos mai gwasanaethau ar-lein yw'r rhai mwyaf cyffredin, ac wedyn siopau betio. Mae'r ddau leoliad hwn yn cyfrif am y mwyafrif o weithgareddau gamblo, sef 89%.

**Tabl 8 Lleoliad y gweithgareddau gamblo a adroddwyd yn 2020/21**

| | Unrhyw gamblo yn y lleoliad hwn | % | Prif leoliad gamblo | % |
|---|---|---|---|---|
| **Ar-lein** | 4742 | 78.9% | 4181 | 69.6% |
| **Siop Betio** | 1745 | 29.0% | 1157 | 19.3% |
| **Amrywiol** | 478 | 8.0% | 252 | 4.2% |
| **Casino** | 398 | 6.6% | 181 | 3.0% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 148 | 2.5% | 82 | 1.4% |
| **Tafarn** | 126 | 2.1% | 53 | 0.9% |
| **Neuadd Bingo** | 77 | 1.3% | 34 | 0.6% |
| **Arall** | 59 | 1.0% | 33 | 0.5% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 37 | 0.6% | 19 | 0.3% |
| **Digwyddiadau Byw** | 27 | 0.4% | 13 | 0.2% |
| **Clwb aelodau preifat** | 9 | 0.1% | 5 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | 6010 | 100.0 | 6010 | 100.0 |
| **Ar goll** | 514 | | 514 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 6524 | | 6524 | |

### 8.5.2 Gweithgareddau gamblo

Dengys Tabl 9, o fewn gwasanaethau ar-lein, mai slotiau casino oedd y gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin, a ddefnyddiwyd gan 32% o gamblwyr yn gyffredinol (sy'n golygu mai hwn yw'r gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin a adroddwyd), ac wedyn digwyddiadau chwaraeon (27%) a gemau bwrdd casino (21%). O fewn siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo, a ddefnyddiwyd gan 14% o gamblwyr, ac wedyn digwyddiadau chwaraeon (9%) a cheffylau (8%).

## Tabl 9 Gweithgareddau gamblo, wedi'u grwpio yn ôl lleoliad

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Siopau Betio** | | | |
| Peiriant gemau (FOBT) | 821 | 13.7% | 47.0% |
| Digwyddiad chwaraeon neu arall | 558 | 9.3% | 32.0% |
| Ceffylau | 492 | 8.2% | 28.2% |
| Cŵn | 140 | 2.3% | 8.0% |
| Peiriant Gemau (arall) | 43 | 0.7% | 2.5% |
| Arall | 154 | 2.6% | 8.8% |
| **Neuadd Bingo** | | | |
| Lotri byw | 43 | 0.7% | 55.8% |
| Peiriant gemau (arall) | 31 | 0.5% | 40.3% |
| Peiriant sgiliau | 8 | 0.1% | 10.4% |
| Terfynell | 3 | 0.0% | 3.9% |
| Arall | 2 | 0.0% | 2.6% |
| **Casino** | | | |
| Rwlét | 220 | 3.7% | 55.3% |
| Peiriant gemau (arall) | 84 | 1.4% | 21.1% |
| Gemau cardiau ar wahan i bocer | 53 | 0.9% | 13.3% |
| Pocer | 40 | 0.7% | 10.1% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 27 | 0.4% | 6.8% |
| Arall | 13 | 0.2% | 3.3% |
| **Digwyddiadau byw** | | | |
| Ceffylau | 17 | 0.3% | 63.0% |
| Digwyddiad chwaraeon neu arall | 7 | 0.1% | 25.9% |
| Cŵn | 5 | 0.1% | 18.5% |
| Arall | 2 | 0.0% | 7.4% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | | | |
| Peiriant gemau (arall) | 132 | 2.2% | 89.2% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 12 | 0.2% | 8.1% |
| Peiriannau gwobrwyo sgiliau | 2 | 0.0% | 1.4% |
| Arall | 3 | 0.0% | 2.0% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | | | |
| Peiriant gemau (arall) | 32 | 0.5% | 86.5% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 1 | 0.0% | 2.7% |
| Arall | 4 | 0.1% | 10.8% |

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Tafarn** | | | |
| Tafarn- Peiriant gemau (arall) | 120 | 2.0% | 95.2% |
| Tafarn- Pocer | 2 | 0.0% | 1.6% |
| Tafarn- Chwaraeon | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Tafarn- Arall | 4 | 0.1% | 3.2% |
| **Ar-lein** | | | |
| Casino (slotiau) | 1937 | 32.2% | 40.8% |
| Digwyddiadau chwaraeon | 1625 | 27.0% | 34.3% |
| Casino (Gemau bwrdd) | 1259 | 20.9% | 26.5% |
| Ceffylau | 580 | 9.7% | 12.2% |
| Bingo | 200 | 3.3% | 4.2% |
| Pocer | 159 | 2.6% | 3.4% |
| Gwasgar-fetio | 90 | 1.5% | 1.9% |
| Cŵn | 104 | 1.7% | 2.2% |
| Cardiau crafu | 29 | 0.5% | 0.6% |
| Cyfnewidfa fetio | 10 | 0.2% | 0.2% |
| Arall | 311 | 5.2% | 6.6% |
| **Amrywiol** | | | |
| Cardiau crafu | 250 | 4.2% | 52.3% |
| Pŵls Pêl-droed | 95 | 1.6% | 19.9% |
| Loteri (Cenedlaethol) | 85 | 1.4% | 17.8% |
| Gemau preifat/ wedi'u trefnu | 36 | 0.6% | 7.5% |
| Loteri (arall) | 22 | 0.4% | 4.6% |
| Gorsaf wasanaethau (Peiriant gemau) | 24 | 0.4% | 5.0% |
| **Clwb aelodau preifat** | | | |
| Gemau cardiau ar wahan i bocer | 4 | 0.1% | 44.4% |
| Pocer | 2 | 0.0% | 22.2% |
| Peiriant gemau | 2 | 0.0% | 22.2% |
| Arall | 2 | 0.0% | 22.2% |
| **Lleoliad arall** | 59 | 1.0% | |
| Cyfanswm | 6010 | | |
| Ar goll | 514 | | |
| Cyfanswm y gamblwr | 6524 | | |

Gall y %au ddod i gyfanswm > 100%

### 8.5.3 Hanes gamblo

Lle bo hynny'n hysbys, roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (62%) wedi cael y profiad o ennill swm mawr o arian yn gynnar yn eu hanes o ran gamblo. Ymysg y rheiny a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn, roedd 11% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo a 27% wedi profi perthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo.

Nid oedd gan bron i bedwar o bob deg gamblwr (37%) unrhyw ddyled o ganlyniad i gamblo ar adeg yr asesiad (Tabl 10). Fodd bynnag, roedd gan 23% ddyledion o hyd at £5,000 ac roedd gan 40% ddyledion o dros £5,000 neu roeddynt yn fethdalwyr neu wedi cytuno i Drefniant Gwirfoddol Unigol (IVA).

**Tabl 10 Dyled o ganlyniad i gamblo**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Dim dyled** | 2063 | 36.6% |
| **O dan £5000** | 1302 | 23.1% |
| **£5000-£9,999** | 657 | 11.7% |
| **£10,000-£14,999** | 402 | 7.1% |
| **£15,000-£19,999** | 289 | 5.1% |
| **£20,000-£99,999** | 726 | 12.9% |
| **£100,000 neu ragor** | 75 | 1.3% |
| **Methdaliad** | 34 | 0.6% |
| **Mewn IVA** | 84 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | 5632 | 100.0% |
| **Ar goll** | 892 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 6524 | |

Nid oedd unrhyw berthynas glir rhwng math y gweithgareddau gamblo a adroddwyd ac adroddiadau o ennill swm mawr yn gynnar. Roedd defnyddio siopau betio yn fwy cyffredin ymysg y rheiny a oedd yn adrodd eu bod wedi profi perthynas yn chwalu trwy gamblo (39% o gymharu â 25% o'r rheiny nad oeddynt yn adrodd unrhyw golled), tra bo defnyddio gwasanaethau ar-lein yn fwy cyffredin ymysg y rheiny a oedd yn adrodd nad oeddynt wedi profi perthynas yn chwalu (82% o gymharu â 74% o'r rheiny nad oeddynt yn adrodd unrhyw golled). Yn yr un modd, defnyddiwyd siopau betio (48% o gymharu â 26%) a chasinos (11% o gymharu â 6%) yn amlach gan y rheiny a oedd wedi colli swydd trwy gamblo, o gymharu â'r rheiny nad oeddynt wedi colli swydd, tra defnyddiwyd gwasanaethau ar-lein yn amlach gan y rheiny nad oeddynt wedi colli swydd (81% o gymharu â 67% o'r rheiny nad oeddynt yn adrodd unrhyw golled).

Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau pan oeddynt yn 25 oed, er bod hyn yn amrywio'n fawr. Roedd tri chwarter y gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau erbyn iddynt fod yn 32 oed, a chwarter ohonynt erbyn iddynt fod yn 19 oed. Ar adeg eu cyflwyno i'r gwasanaethau gamblo, bu gamblwyr yn gamblo (i raddau problemus) am 10 mlynedd ar gyfartaledd (canolrif). Unwaith eto, roedd hyn yn amrywiol iawn, yn amrywio o fis i 60 mlynedd

### 8.5.4 Arian sy'n cael ei wario ar gamblo

Roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £100 ar gyfartaledd (canolrif) yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad. Gan fod rhai gamblwyr yn gwario ar lefelau sylweddol uwch, mae'r gwerth cymedrig yn uwch, ar lefel o £427 dydd. Roedd y mwyafrif (56%) wedi gwario hyd at £100 yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad (Tabl 11), roedd 14% wedi gwario rhwng £100 a £200, 17% wedi gwario rhwng £200 a £500 a 13% wedi gwario dros £500.

**Tabl 11 Gwariant cyfartalog ar ddiwrnodau gamblo**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 3507 | 55.6% |
| **Hyd at £200** | 898 | 14.2% |
| **Hyd at £300** | 483 | 7.7% |
| **Hyd at £400** | 160 | 2.5% |
| **Hyd at £500** | 438 | 6.9% |
| **Hyd at £1000** | 167 | 2.6% |
| **Hyd at £2000** | 391 | 6.2% |
| **Dros £2000** | 265 | 4.2% |
| **Cyfanswm** | 6309 | 100.0% |
| **Ar goll** | 215 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 6524 | |

Yn ystod y mis blaenorol, roedd gamblwyr wedi adrodd eu bod yn gwario canolrif o £1000 ynghyd â chymedr o £2,103 ar gamblo. Roedd hanner (49%) y gamblwyr wedi gwario hyd at £1,000 yn y mis blaenorol, gyda 51% yn gwario dros £1,000 (Tabl 12). Roedd chwarter y gamblwyr (26%) yn adrodd eu bod wedi gwario dros £2000 yn ystod y mis blaenorol.

**Tabl 12 Gwariant a adroddwyd ar gamblo yn y mis cyn cael triniaeth**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 649 | 10.3% |
| **Hyd at £200** | 345 | 5.5% |
| **Hyd at £300** | 366 | 5.8% |
| **Hyd at £400** | 308 | 4.9% |
| **Hyd at £500** | 655 | 10.4% |
| **Hyd at £1000** | 790 | 12.5% |
| **Hyd at £2000** | 1562 | 24.8% |
| **Dros £2000** | 1635 | 25.9% |
| **Cyfanswm** | 6310 | 100.0% |
| **Ar goll** | 214 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 6524 | |

Roedd gwerthoedd cymedrig ac ystod y gwariant yn amrywio'n sylweddol rhwng y rheiny a oedd yn adrodd gwahanol leoliadau gamblo (Tabl 13), er na ellir priodoli'r gwariant hwnnw i gamblo yn y lleoliadau hynny'n benodol. Roedd gwerth cymedrig y gwariant ar ddiwrnodau gamblo ar ei uchaf ymysg y rheiny sy'n defnyddio casinos, digwyddiadau byw a gwasanaethau ar-lein. Gall allanolion (gwerthoedd unigol eithaf) effeithio'r gwerthoedd cymedrig hyn, ond roedd y gwerthoedd cymedrig yn uwch hefyd ar gyfer casinos (£150). Roedd y gwerth cymedrig ymysg defnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn debyg i hynny ar gyfer y mwyafrif o fathau eraill o gamblo (£100 ar gyfer pob diwrnod o gamblo). Roedd y gwariant misol cyfartalog yn arbennig o uchel ymysg y rheiny a oedd yn defnyddio casinos a gwasanaethau ar-lein, ond hefyd ymysg defnyddwyr siopau betio, a oedd yn uwch na hynny a welwyd o ran y gwariant dyddiol cyfartalog, sy'n awgrymu y gall defnyddio'r gwasanaethau hyn yn aml gyfrannu at wariant misol uchel.

**Tabl 13 Arian sy'n cael ei wario ar gyfartaledd yn ystod diwrnodau gamblo ac yn y mis blaenorol, yn ôl gamblwyr sy'n adrodd ar gyfer pob lleoliad gamblo.**

| | Gwariant cyfartalog ar bob diwrnod gamblo (£) | | Gwariant yn y mis blaenorol (£) | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymedr | Canolrif | Cymedr | Canolrif |
| **Siopau Betio** | 320 | 100 | 1977 | 900 |
| **Neuadd Bingo** | 136 | 85 | 872 | 720 |
| **Casino** | 587 | 150 | 2321 | 1000 |
| **Digwyddiadau byw** | 555 | 15 | 1465 | 900 |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 217 | 100 | 1097 | 525 |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 184 | 100 | 1251 | 700 |
| **Tafarn** | 263 | 100 | 1514 | 600 |
| **Ar-lein** | 474 | 100 | 2128 | 1000 |
| **Amrywiol** | 145 | 50 | 1034 | 500 |
| **Clwb aelodau preifat** | 388 | 150 | 1669 | 675 |
| **Arall** | 377 | 70 | 2054 | 600 |

### 8.5.5 Math y gamblo yn ôl oedran

Dengys Tabl 14 bod defnyddio siopau betio, neuadd bingo a chanolfannau adloniant i oedolion yn cael eu hadrodd yn amlach gan y rheiny mewn categorïau oedran hŷn, tra bo'r berthynas rhwng defnyddio gwasanaethau ar-lein ac oedran yn glir, gyda'r gweithgaredd hwnnw'n llawer mwy poblogaidd ymysg bandiau oedran iau.

### Tabl 14 Lleoliadau gamblo yn ôl grŵp oedran

| | Bandiau oedran* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20-24 | 25-29 | 30-34 | 35-39 | 40-44 | 45-49 | 50-54 | 55-59 | 60+ |
| **Siopau Betio** | 24.1% | 27.8% | 28.2% | 29.0% | 26.1% | 34.8% | 32.6% | 37.7% | 31.6% |
| **Neuadd Bingo** | 0.7% | 0.9% | 0.9% | 1.0% | 0.6% | 2.2% | 1.5% | 4.0% | 2.7% |
| **Casino** | 8.6% | 7.0% | 6.8% | 6.0% | 6.9% | 5.6% | 4.7% | 7.6% | 4.8% |
| **Digwyddiadau byw** | 0.0% | 0.4% | 0.5% | 0.4% | 0.2% | 0.4% | 1.2% | 0.4% | 2.1% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 1.8% | 1.8% | 2.3% | 2.2% | 2.9% | 1.8% | 5.0% | 3.6% | 7.0% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 0.5% | 0.1% | 0.4% | 0.7% | 0.8% | 0.4% | 0.6% | 2.2% | 2.1% |
| **Tafarn** | 1.3% | 1.9% | 1.6% | 2.5% | 3.1% | 1.8% | 2.9% | 2.2% | 3.2% |
| **Ar-lein** | 87.0% | 85.1% | 83.4% | 79.6% | 77.6% | 68.6% | 70.3% | 60.1% | 58.3% |
| **Amrywiol** | 7.6% | 7.0% | 7.1% | 7.2% | 8.4% | 11.0% | 9.7% | 9.4% | 13.4% |
| **Clwb aelodau preifat** | 0.0% | 0.0% | 0.2% | 0.1% | 0.0% | 0.2% | 0.8% | 0.0% | 0.0% |
| **Arall** | 1.3% | 1.1% | 0.8% | 0.7% | 1.2% | 0.6% | 0.5% | 1.6% | 2.4% |
| **Cyfanswm y gamblwyr*** | 607 | 1192 | 1288 | 956 | 621 | 446 | 340 | 223 | 187 |

* Ni chynhwyswyd categorïau oedran â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

### 8.5.6 Lleoliad gamblo yn ôl rhyw

O gymharu â gamblwyr gwryw, roedd benywod yn llai tebygol o ddefnyddio siopau betio (10% o gymharu â 34%), casinos (4% o gymharu â 7%), tafarnau (1% o gymharu â 2%) neu wasanaethau ar-lein (78% o gymharu ag 83%) ond yn fwy tebygol o ddefnyddio neuaddau bingo (6% o gymharu â <1%), canolfannau adloniant i oedolion (4% o gymharu â 2%), canolfannau adloniant i deuluoedd (1% o gymharu â <1%) neu weithgareddau amrywiol (12% o gymharu â 7%).

### Tabl 15 Lleoliadau gamblo yn ôl rhyw

| | Gwryw | | Benyw | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| **Siopau Betio** | 1607 | 33.5% | 115 | 10.4% |
| **Neuadd Bingo** | 15 | 0.3% | 61 | 5.5% |
| **Casino** | 344 | 7.2% | 42 | 3.8% |
| **Digwyddiadau byw** | 26 | 0.5% | 1 | 0.1% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 99 | 2.1% | 47 | 4.2% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 23 | 0.5% | 13 | 1.2% |
| **Tafarn** | 108 | 2.3% | 16 | 1.4% |
| **Ar-lein** | 3737 | 77.9% | 924 | 83.4% |
| **Amrywiol** | 336 | 7.0% | 132 | 11.9% |
| **Clwb aelodau preifat** | 6 | 0.1% | 1 | 0.1% |
| **Arall** | 50 | 1.0% | 7 | 0.6% |
| **Cyfanswm y gamblwyr*** | 4798 | | 1108 | |

* Ni chynhwyswyd categorïau rhyw â llai na 100 gamblwyr yn y tabl hwn
Noder: Gall %au ddod i gyfanswm o > 100% gan y gellir adrodd mwy nag un lleoliad

### 8.5.7 Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig

Roedd rhai gwahaniaethau sylweddol yn amlwg rhwng lleoliadau gamblo a adroddwyd gan wahanol grwpiau ethnig (Tabl 16). O gymharu â gamblwyr Gwyn neu Wyn Prydeinig, roedd gamblwyr a oedd wedi nodi eu bod yn Ddu neu Ddu Prydeinig yn fwy tebygol o ddefnyddio siopau betio (46% o gymharu â 28%) neu gasinos (17% o gymharu â 5%). Hefyd, roedd y rheiny a oedd wedi nodi eu bod yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol na gamblwyr Gwyn neu Wyn Prydeinig o ddefnyddio siopau betio (32%) neu gasinos (15%). Yn gyffredinol, y rheiny a oedd wedi nodi eu bod yn Ddu neu Ddu Prydeinig oedd y rhai a oedd yn fwyaf tebygol o ddefnyddio siopau betio a'r lleiaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ar-lein (63%).

**Tabl 16 Lleoliad gamblo yn ôl grŵp ethnig**

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

Mae angen i ddarparwyr triniaeth GambleAware y telir amdano gyflwyno setiau data chwarterol mewn fformat safonol[19]. Sylfaen yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r cyflwyniadau hyn.

18 Yn ychwanegol, mae GamCare yn gweithredu'r Llinell Gymorth Genedlaethol sy'n cynnig sgyrsiau cymorth byw dros y ffon ac ar-lein ac sy'n darparu cefnogaeth yn syth i unigolion ac atgyfeiriad i'r gwasanaeth triniaeth. Yn ogystal, mae GamCare yn cynnig gwybodaeth a chyngor drwy'u gwefan, fforymau a gymedrolir ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein ar gyfer grwpiau. Nid yw'r gwasanaethau hyn o fewn cwmpas y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

19 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf

# 3 Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau

Mae Deddf Gamblo 2005 yn cynnwys darpariaeth yn adran 123[20] ar gyfer ardoll ar weithredwyr gamblo i ariannu prosiectau i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ond nid yw llywodraethau olynol wedi rhoi'r ddarpariaeth hon ar waith. Yn absenoldeb ardoll o'r fath, mae'r Comisiwn Gamblo yn gosod gofyniad ar weithredwyr trwy'r Amodau Trwydded a Chod Ymarfer[21] i wneud cyfraniad i ariannu ymchwil, addysg a thriniaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Llywodraeth yn y broses o gynnal adolygiad o Ddeddf Gamblo 2005 ac mae hi i fod i ryddhau papur gwyn ar ddiwedd 2021 sy'n amlinellu ei chynigion ar gyfer ei diwygio.

Mae GambleAware [22] yn elusen annibynnol sy'n comisiynu gwasanaethau atal a thriniaeth ar sail tystiolaeth mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau arbenigol, ac mae hefyd yn wedi dadlau'n gryf dros gael ardoll orfodol. Yr elusen hon yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw sy'n weithredol ym meysydd ymchwil, addysg a thriniaeth [23], ac oherwydd hyn, gwneir cyfran uchel o roddion i GamblAware. Yn arbennig, gwnaed addewid diweddar i'r elusen o hyd at £100 miliwn gan y pedwar cwmni gamblo mwyaf hyd at y flwyddyn 2024.

Ym Medi 2021, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr (sydd wedi'i ddiddymu erbyn hyn) adolygiad o'r dystiolaeth o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo[24]. Daeth y papur i'r casgliad y dylid ystyried bod gamblo niweidiol yn fater iechyd cyhoeddus oherwydd y cysylltiad â niwed i unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymdeithas ehangach. Bydd y Swyddfa Gwella Iechyd ac Atal Gwahaniaethau ('Office for Health Improvement and Disparities', OHID) yn gweithio'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cynllun i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr adroddiad i helpu i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Yn Ionawr 2019, cyhoeddodd GIG Lloegr y byddai'n sefydlu rhagor o glinigau arbenigol i drin anhwylder gamblo[25] ac yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddodd yr amserlen ar gyfer pryd y byddai'r clinigau newydd yn agor[26]. Dechreuodd y cyntaf o'r clinigau hyn gynnig triniaeth yn 2019/20. Yn ogystal, mae rhywfaint o weithgaredd a ariannir gan y GIG i bobl sydd â diagnosis sylfaenol neu eilaidd o anhwylder gamblo yn digwydd y tu allan i glinigau arbenigol. Caiff gweithgareddau a ariennir gan y GIG eu hadrodd yn yr ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan y GIG yn Lloegr, yr Alban a Chymru

Roedd *Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17* Prif Swyddog Meddygol Cymru[27], a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 yn trafod yr angen am well mesurau i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gan gynnwys gwasanaethau i helpu'r rheiny sydd eisoes yn profi niwed.

Mae GambleAware yn gweithio i sicrhau y caiff dull iechyd cyhoeddus ei fabwysiadu ym Mhrydain Fawr i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, a'i fod yn cael arwain gan y fframwaith ar gyfer atal niwed, fel y nodir yn y Strategaeth Genedlaethol i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau aruthrol i gymunedau, unigolion, darparwyr gwasanaeth a'r sector statudol. Mae sawl ardal wedi gweld newid cyflym mewn ymateb i ofynion

20 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/19/section/123
21 http://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/LCCP/Licence-conditions-and-codes-of-practice.aspx
22 Mae gwybodaeth am GambleAware a'i llywodraethu ar gael yn https://about.gambleaware.org/about/
23 https://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/General-compliance/Social-responsibility/Research-education-and-treatment-contributions.aspx
24 https://www.gov.uk/government/news/landmark-report-reveals-harms-associated-with-gambling-estimated-to-cost-society-at-least-1-27-billion-a-year
25 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/08/nhs-long-term-plan-version-1.2.pdf
26 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/07/nhs-mental-health-implementation-plan-2019-20-2023-24.pdf
27 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/gambling-with-our-health-chief-medical-officer-for-wales-annual-report-2016-17.pdf

newydd o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, efallai bod rhai wedi colli cyfle i dderbyn cymorth oherwydd newidiadau mewn gwasanaethau neu eu bod wedi datblygu anghenion newydd sydd heb eu diwallu. Mae effaith hirdymor y pandemig yn debygol o gael ei deimlo am flynyddoedd lawer, a dylai comisiynu effeithiol fod yn ymatebol bob amser i anghenion newidiol y gymdeithas. Mae GambleAware yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â'r GIG, asiantaethau iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol ledled Lloegr, yr Alban a Chymru i ddatblygu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ymhellach. Fel prif gyllidwr y GTGC/NGTS, mae'r adroddiad ystadegol hwn yn cwmpasu gweithgaredd a gomisiynwyd gan GambleAware.

Mae GambleAware yn aelod o weithgor ar y cyd ar atal niwed sy'n gysylltiedig gamblo sy'n cael ei gyd-gadeirio gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag aelod o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad. Mae GambleAware wedi sefydlu byrddau cynghori yng Nghymru a Lloegr i arwain cynlluniau comisiynu at y dyfodol yn y gwledydd hynny, ac mae'n bartner anfasnachol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Hefyd, mae GambleAware yn sefydlu Grŵp Cynghori mewn ymgynghoriad â chyrff eraill i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael, ac i gefnogi'r gwaith o alinio, integreiddio ac ehangu gwasanaethau triniaeth ar draws y system fel y gall cleifion gael y driniaeth iawn ar yr adeg iawn.

Trwy gyfuno ffigurau o wasanaethau triniaeth unigol a ariennir gan GambleAware i greu set ddata sy'n cwmpasu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol cyfan, darperir cyfleoedd newydd i gael gwell dealltwriaeth, ymhlith y boblogaeth sy'n derbyn triniaeth, o:

- Raddfa a difrifoldeb niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Nodweddion y rheiny sy'n cael cymorth o ran demograffeg ac ymddygiad
- Cynnydd a chanlyniadau o ran triniaeth

# 4 Cronfa ddata'r FfAD/DRF

Caiff y casgliad o ddata ynghylch cleientiaid sy'n derbyn triniaeth gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ei reoli trwy set ddata a gydlynir yn genedlaethol o'r enw'r Fframwaith Adrodd Data ('Data Reporting Framework), a gychwynnwyd yn 2015. Mae gwasanaethau triniaeth unigol yn casglu data ar gleientiaid a thriniaeth trwy systemau rheoli achosion pwrpasol. Ymgorfforir y FfAD ym mhob un o'r systemau hyn. Nodir eitemau data o fewn y FfAD ym Manyleb y FfAD [28] (sy'n ddilys tan Fawrth 31ain 2021) ac fe'i darperir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Cesglir data o fewn pedwar tabl ar wahân, sy'n darparu manylion am nodweddion cleientiaid, eu hanes o ran gamblo, manylion atgyfeiriadau a manylion am apwyntiadau. Mae'r FfAD yn cynnwys set ddata graidd gydgysylltiedig, a gesglir i ddarparu adroddiadau cyson y gellir eu cymharu ar lefel genedlaethol. Ceir rhai mân wahaniaethau o ran y data a gesglir rhwng asiantaethau, fel yr ychwanegiad o gategorïau atodol o fewn meysydd unigol, neu yn ffurf data a gesglir. Caiff y rhain eu hailfformatio a'u hailgodio ar lefel genedlaethol i sicrhau cysondeb o fewn manyleb y FfAD.

# 5 Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth am gleientiaid asiantaethau'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol, ac yn darparu manylion am nodweddion cleientiaid, gweithgareddau a hanes gamblo, ynghyd â thriniaeth a dderbynnir a chanlyniadau dilynol. Fe'i cyfyngir i gleientiaid y mae tystiolaeth yn bodoli ar eu cyfer eu bod wedi derbyn triniaeth strwythuredig o fewn y cyfnod adrodd, ac felly nid yw'n cynrychioli holl weithgaredd yr asiantaethau sy'n adrodd, ac nid yw ychwaith yn dal gwybodaeth am unrhyw wybodaeth am weithgareddau asiantaethau nad ydynt yn adrodd i'r system FfAD. Mae'n darparu crynodeb a adroddir yn gyson, y gellir ei gymharu o un flwyddyn i'r llall.

# 6 Nodiadau ar ddehongli

Mae coladu'r FfAD a'r lefel genedlaethol yn system gasglu data dienw. Ar lefel gwasanaeth, cesglir codau cleientiaid i wahaniaethu un cleient o'r llall. Bydd cyfansymiau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu symio i ddarparu amcangyfrif o lefelau triniaeth cenedlaethol. Os yw cleientiaid yn mynychu mwy nag un gwasanaeth o fewn y cyfnod adrodd, fe gânt eu cyfrif gan bob gwasanaeth a fynychir ganddynt. Ni ellir cyfrifo lefel y gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau'n gywir, ond disgwylir y bydd yn ganran fach iawn o gyfanswm nifer y cleientiaid a amcangyfrifir ar lefel genedlaethol. Felly dylid dehongli cyfanswm y nifer a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel amcangyfrif o gyfanswm nifer y cleientiaid sy'n derbyn triniaeth o fewn asiantaethau sy'n cymryd rhan.

Gall cleientiaid gwasanaethau triniaeth gamblo naill ai fod yn gamblwyr eu hunain, yn 'rai eraill a effeithir' neu'n unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo. O fewn yr adroddiad hwn, caiff unigolion eu categoreiddio fel 'gamblwyr' neu 'Gleientiaid eraill'. Mae 'Cleientiaid eraill' yn cynnwys rhai eraill a effeithir, unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo a'r rheiny na chafodd y wybodaeth hon ei chofnodi ar eu cyfer. Cyflwynir data am nodweddion cleientiaid

28 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf

a'u hymgysylltiad â thriniaethau ar gyfer y ddau gategori o gleientiaid. Ni chaiff manylion am weithgareddau gamblo a hanes unigolion o ran eu harferion gamblo ond eu cyflwyno ar gyfer cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr.

Mae'r FfAD yn casglu ardal bost eu man preswylio (hanner cyntaf y cod post). Gall y rhain rychwantu ffiniau awdurdodau lleol a ffiniau cenedlaethol. O ran yr adroddiad hwn, cynhwysir ardaloedd post y mae'r rhan fwyaf ohonynt, neu'r ardal gyfan wedi'u cynnwys o fewn yr Alban. Ni chynhwysir ardaloedd sydd yn rhannol yn yr Alban ond y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Lloegr. Cynhwysir ardaloedd post sy'n dechrau gyda 'AB', 'DD', 'DG', 'EH', 'FK', 'G_', 'HS', 'IV', 'KA', 'KW', 'KY', 'ML', 'PA', 'PH' neu 'ZE' yn llawn. Cynhwysir ardaloedd post sy'n dechrau gyda 'TD', ac eithrio TD12 a TD15.

O fewn yr adroddiad hwn, cyflwynir cyfartaleddau fel cymedrau neu ganolrifau, neu weithiau'r ddau gyda'i gilydd. Gan fod gwerthoedd unigol eithaf yn effeithio'r cymedr ond nid y canolrif, yn aml, ffefrir y canolrif fel mesur canolduedd.

Roedd y cyfnod triniaeth Ebrill 1af 2020-Mawrth 31ain 2021 yn cyd-daro â'r pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, yn aml, roedd yr hawl i symud a chael mynediad i leoliadau cyhoeddus wedi'i gyfyngu. Dechreuodd y cyfnod clo cyntaf yn yr Alban ar 24in Mawrth 2020, gyda symud i gam un ar y map llwybr allan o'r cyfnod clo yn dechrau ar 29ain Mai. Dychwelodd disgyblion i'r ysgol ar 11eg Awst. Yn dilyn cyfyngiadau ar lefel leol, dechreuodd cyfnod clo pellach ar 5ed Ionawr 2021. O fewn y cyfnodau clo, cyfyngwyd ar fynediad i wasanaethau a ddiffinnir fel rhai hanfodol. Roedd lleoliadau o fewn y sector lletygarwch ac adloniant, fel tafarnau, bwytai a sinemâu, ond hefyd siopau betio, casinos a neuaddau bingo, wedi cau yn ystod y cyfnodau clo, ac yn destun cyrffywiau a chyfyngiadau o ran cadw pellter y tu allan i'r cyfnodau hynny.

# 7 Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD/DRF 2020/21

Dengys Tabl 1 isod lefel gwblhau y manylion a gymerir ar adeg asesu cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21. Nid yw manylion gweithgareddau gamblo ac a hanes cleientiaid o ran arferion gamblo yn cael eu casglu fel mater o drefn ar gyfer cleientiaid nad ydynt eu hunain yn gamblwyr. Nid yw pa mor gyflawn yw'r wybodaeth ynghylch gamblo ond yn berthnasol i gleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr. O ran y mwyafrif o'r eitemau data, mae bron i 100% ohonynt yn gyflawn, sy'n golygu bod y data'n gynrychioladol o'r boblogaeth hon sy'n derbyn triniaeth, sy'n lleihau unrhyw debygolrwydd o duedd ac sy'n dilysu cymariaethau rhwng cyfnodau amser ac is-samplau.

**Tabl 1 Lefel gwblhau meysydd data penodol**

| Eitem ddata | Lefel gwblhau |
|---|---|
| Rheswm dros yr atgyfeiriad | 100% |
| Ffynhonnell yr atgyfeiriad | 100% |
| Rhyw | 97.8% |
| Ethnigrwydd | 96.6% |
| Statws cyflogaeth | 97.8% |
| Statws o ran perthynas | 97.4% |
| Prif weithgaredd gamblo | 92.3% |
| Arian a gaiff ei wario ar gamblo | 99.6% |
| Colli swydd | 100% |
| Perthynas yn chwalu | 100% |
| Ennill swm mawr o arian yn gynnar | 100% |
| Dyled o ganlyniad i gamblo | 94.9% |
| Hanes gamblo'r cleient yn nhermau amser | 92.8% |
| Oedran dechrau (o ran gamblo problemus) | 91.9% |
| Nifer y diwrnodau yn gamblo bob mis | 89.4% |

# 8 Nodweddion Cleientiaid

Cafodd cyfanswm o 268 o unigolion eu trin gan y gwasanaethau gamblo sy'n darparu data FfAD o fewn 2020/21. Mae hyn yn ostyngiad o 9% o gymharu â 2019/20.

Roedd mwyafrif (88%) y rheiny a welwyd gan wasanaethau gamblo yn gamblwyr (235). Fodd bynnag, roedd 31 (12%) o atgyfeiriadau'n ymwneud â 'rhai eraill a effeithir', hynny yw, unigolion nad ydynt o reidrwydd yn gamblwyr ond y cafodd eu bywydau eu heffeithio gan y rheiny sy'n gamblwyr. Roedd nifer fechan (2, 1%) o atgyfeiriadau'n ymwneud ag unigolion a oedd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo (gweler adran 6). Caiff pob cleient ei gynnwys mewn dadansoddiadau o nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaeth, ond dim ond cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr a gynhwysir mewn dadansoddiadau o weithgareddau gamblo cleientiaid a'u hanes o ran arferion gamblo.

## 8.1 Oedran a rhyw Cleientiaid

Roedd gan gleientiaid oedran cyfartalog (canolrifol) o 35 mlwydd oed ar adeg eu hatgyfeirio, gyda thri chwarter (75%) yn 43 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed (Tabl 2), sy'n cyfrif am gyfanswm o 53% o gleientiaid. Roedd gan gleientiaid ar wahân i gamblwyr oedran canolrifol o 38 oed ac yn fwy tebygol o fod yn y bandiau oedran dros 50 oed.

Roedd mwyafrif helaeth y cleientiaid yn wrywod (69%) Mae hyn yn cymharu â 49% yn y boblogaeth yn gyffredinol yn yr Alban [29]. I ryw raddau, mae'r dosbarthiad oedran yn amrywio yn ôl rhyw (Tabl 2), gydag oedran canolrifol o 39 oed ar gyfer benywod o gymharu â 33 ar gyfer gwrywod. Cafwyd cryn wahaniaeth o ran rhyw yn ôl math y cleient gyda 78% o gamblwyr yn wrywod o gymharu â 6% o gleientiaid eraill.

**Tabl 2 Oedran a rhyw cleientiaid**

| | | Gwryw | | | Benyw | | | Cyfanswm* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | Col % | Rhes % | N | Col % | Rhes % | N | Col % | Rhes % |
| **Bandiau oedran** | **< 20** | 4 | 2.3% | 100.0% | 0 | 0.0% | 0.0% | 4 | 1.6% | 100.0% |
| | **20-24** | 23 | 13.0% | 88.5% | 3 | 3.8% | 11.5% | 26 | 10.2% | 100.0% |
| | **25-29** | 36 | 20.3% | 76.6% | 11 | 14.1% | 23.4% | 47 | 18.4% | 100.0% |
| | **30-34** | 32 | 18.1% | 78.0% | 9 | 11.5% | 22.0% | 41 | 16.1% | 100.0% |
| | **35-39** | 31 | 17.5% | 62.0% | 19 | 24.4% | 38.0% | 50 | 19.6% | 100.0% |
| | **40-44** | 21 | 11.9% | 65.6% | 11 | 14.1% | 34.4% | 32 | 12.5% | 100.0% |
| | **45-49** | 9 | 5.1% | 50.0% | 9 | 11.5% | 50.0% | 18 | 7.1% | 100.0% |
| | **50-54** | 8 | 4.5% | 50.0% | 8 | 10.3% | 50.0% | 16 | 6.3% | 100.0% |
| | **55-59** | 5 | 2.8% | 45.5% | 6 | 7.7% | 54.5% | 11 | 4.3% | 100.0% |
| | **60+** | 8 | 4.5% | 80.0% | 2 | 2.6% | 20.0% | 10 | 3.9% | 100.0% |
| | **Cyfanswm*** | 177 | 100.0% | 69.4% | 78 | 100.0% | 30.6% | 255 | 100.0% | 100.0% |

* ni chynhwysir y rheiny lle nad yw'r oedran neu ryw wedi'i gofnodi neu lle bo'r categori rhyw yn cynnwys llai na 5

29 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2020

## 8.2 Ethnigrwydd Cleientiaid

Roedd bron pob un o'r cleientiaid (96%) o gefndir ethnig Gwyn (Tabl 5) gan gynnwys 89% a oedd yn Wyn Prydeinig a 3% a oedd yn Wyn Ewropeaidd. Y cefndir ethnig a adroddwyd fwyaf wedyn oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (2%), gyda <1% o gefndir Du neu Ddu Prydeinig. Mae hyn yn cymharu â chyfrannau cenedlaethol (yr Alban)[30] o 96% yn Wyn neu Wyn Prydeinig, 3% yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a 1% yn Ddu neu Ddu Prydeinig.

### Tabl 3 Ethnigrwydd cleientiaid

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu Wyn Prydeinig** | Prydeinig | 203 | 89.8% | 27 | 81.8% | 230 | 88.8% |
| | Gwyddelig | 4 | 1.8% | 1 | 3.0% | 5 | 1.9% |
| | Ewropeaidd | 4 | 1.8% | 3 | 9.1% | 7 | 2.7% |
| | Arall | 5 | 2.2% | 2 | 6.1% | 7 | 2.7% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | Affricanaidd | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| | Caribïaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Arall | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig;** | Bangladeshaidd | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| | Indiaidd | 3 | 1.3% | 0 | 0.0% | 3 | 1.2% |
| | Pacistanaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Tsieiniïaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Arall | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Cymysg** | Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| | Gwyn a Caribïaidd Du | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Arall | 2 | 0.9% | 0 | 0.0% | 2 | 0.8% |
| **Grŵp ethnig arall** | | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Cyfanswm** | | 226 | 100.0% | 33 | 100.0% | 259 | 100.0% |
| **Ar goll** | | 9 | | 0 | | 9 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | | 235 | | 33 | | 268 | |

## 8.3 Statws cyflogaeth cleientiaid

Roedd mwyafrif y cleientiaid yn gyflogedig (69%). Y statws cyflogaeth a adroddwyd fwyaf wedyn oedd y di-waith (15%) a ddilynwyd gan rai a oedd yn analluog i weithio oherwydd salwch (9%), myfyrwyr (3%) a chadw tŷ (2%).

30 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 y DU.

### Tabl 4 Statws cyflogaeth cleientiaid

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Cyflogedig** | 157 | 68.0% | 23 | 74.2% | 180 | 68.7% |
| **Di-waith** | 37 | 16.0% | 2 | 6.5% | 39 | 14.9% |
| **Myfyriwr** | 7 | 3.0% | 1 | 3.2% | 8 | 3.1% |
| **Analluog i weithio oherwydd salwch** | 22 | 9.5% | 2 | 6.5% | 24 | 9.2% |
| **Cadw tŷ** | 4 | 1.7% | 1 | 3.2% | 5 | 1.9% |
| **Ddim yn chwilio am waith** | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Carchar-gofal** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Gwirfoddolwr** | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Wedi ymddeol** | 1 | 0.4% | 1 | 3.2% | 2 | 0.8% |
| **Heb ddweud** | 1 | 0.4% | 1 | 3.2% | 2 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | 231 | 100.0% | 31 | 100.0% | 262 | 100.0% |
| **Ar goll** | 4 | | 2 | | 6 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 235 | | 33 | | 268 | |

## 8.4 Proffil gamblo

Mae Adran 8.5 yn adrodd gwybodaeth a gesglir gan gleientiaid a oedd yn adrodd bod eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo yn unig.

### 8.4.1 Lleoliadau gamblo

Caiff hyd at dri gweithgaredd gamblo (penodol yn ôl lleoliad) eu cofnodi ar gyfer pob cleient, a chaiff y rhain eu rhestru yn ôl eu harwyddocâd. Y lleoliad mwyaf cyffredin a adroddwyd ar gyfer gamblo (Tabl 8) oedd ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 83% o gamblwyr a ddarparodd y wybodaeth hon (o gymharu â 69% yn 2019/20). Siopau Betio oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o leoliad, a ddefnyddiwyd gan 26% o gamblwyr (42% yn 2019/20). Ni ddefnyddiwyd unrhyw leoliadau eraill gan fwy na 10% o gamblwyr, er y defnyddiwyd casinos gan 6% a rhai amrywiol (fel y Loteri, cardiau crafu a'r Pŵls Pêl-droed ) gan 10%.

Dengys Tabl 8 leoliadau'r prif weithgaredd gamblo ac, unwaith eto, mae'n dangos mai gwasanaethau ar-lein yw'r rhai mwyaf cyffredin, ac wedyn Siopau Betio. Mae'r ddau leoliad hwn yn cyfrif am y mwyafrif o weithgareddau gamblo, sef 87%.

### Tabl 5 Lleoliad y gweithgareddau gamblo a adroddwyd yn 2020/21

| | Unrhyw gamblo yn y lleoliad hwn | % | Prif leoliad gamblo | % |
|---|---|---|---|---|
| **Ar-lein** | 179 | 82.5% | 154 | 71.0% |
| **Siop Betio** | 56 | 25.8% | 34 | 15.7% |
| **Amrywiol** | 21 | 9.7% | 16 | 7.4% |
| **Casino** | 13 | 6.0% | 6 | 2.8% |
| **Neuadd Bingo** | 5 | 2.3% | 3 | 1.4% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion**[31] | 4 | 1.8% | 2 | 0.9% |
| **Tafarn** | 2 | 0.9% | 1 | 0.5% |
| **Arall** | 1 | 0.5% | 1 | 0.5% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 1 | 0.5% | 0 | 0.0% |
| **Clwb Aelodau Preifat** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Digwyddiadau Byw** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 217 | | 217 | |
| **Ar goll** | 18 | | 18 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 235 | | 235 | |

## 8.4.2 Gweithgareddau gamblo

Dengys Tabl 6 o fewn gwasanaethau ar-lein, mai digwyddiadau chwaraeon oedd y gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin, a ddefnyddiwyd gan 31% o gamblwyr yn gyffredinol (sy'n golygu mai hwn yw'r gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin a adroddwyd), ac wedyn slotiau casino (29%) a gemau bwrdd casino (23%). O fewn siopau betio, digwyddiadau chwaraeon oedd y mat mwyaf cyffredin o gamblo, a ddefnyddiwyd gan 12% o gamblwyr, ac wedyn ceffylau (10% a pheiriannau gemau (8%).

31 Fe'u gelwir hefyd yn Ganolfannau Gemau i Oedolion (CGC/AGC)

## Tabl 6 Gweithgareddau gamblo, wedi'u grwpio yn ôl lleoliad

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Siopau Betio** | | | |
| Digwyddiad chwaraeon neu arall | 27 | 12.4% | 48.2% |
| Ceffylau | 21 | 9.7% | 37.5% |
| Peiriant gemau (FOBT) | 17 | 7.8% | 30.4% |
| Cŵn | 8 | 3.7% | 14.3% |
| Arall | 2 | 0.9% | 3.6% |
| Neuadd Bingo | | | |
| Lotri byw | 3 | 1.4% | 60.0% |
| Peiriant gemau | 2 | 0.9% | 40.0% |
| **Casino** | | | 0.0% |
| Rwlét | 8 | 3.7% | 61.5% |
| Gemau cardiau ar wahan i bocer | 3 | 1.4% | 23.1% |
| Peiriant gemau (dim FOBT) | 1 | 0.5% | 7.7% |
| Pocer | 1 | 0.5% | 7.7% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | | | |
| Peiriant gemau (dim FOBT) | 4 | 1.8% | 100% |
| Canolfan Adloniant i Deuluoedd | | | |
| Peiriant gemau (dim FOBT) | 1 | 0.5% | 100% |
| **Tafarn** | | | |
| Peiriant gemau (arall) | 1 | 0.5% | 50.0% |
| Chwaraeon | 1 | 0.5% | 50.0% |

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Online** | | | |
| Digwyddiadau chwaraeon | 68 | 31.3% | 38.0% |
| Casino (slotiau) | 63 | 29.0% | 35.2% |
| Casino (Gemau bwrdd) | 49 | 22.6% | 27.4% |
| Ceffylau | 31 | 14.3% | 17.3% |
| Bingo | 7 | 3.2% | 3.9% |
| Pocer | 7 | 3.2% | 3.9% |
| Arall | 7 | 3.2% | 3.9% |
| Cŵn | 6 | 2.8% | 3.4% |
| Gwasgar-fetio | 3 | 1.4% | 1.7% |
| **Amrywiol** | | | |
| Cardiau crafu | 16 | 2.3% | 76.2% |
| Loteri (Cenedlaethol) | 5 | 2.3% | 23.8% |
| Pŵls Pêl-droed | 1 | 0.5% | 4.8% |
| Gorsaf wasanaethau Peiriant gemau | 1 | 0.5% | 4.8% |
| Loteri (arall) | 1 | 0.5% | 4.8% |
| **Lleoliad arall** | 1 | 0.5% | |
| **Cyfanswm** | 217 | | |
| **Ar goll** | 18 | | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 235 | | |

*Gall y %au ddod i gyfanswm o lai na > 100%

### 8.4.3 Hanes gamblo

Lle bo hynny'n hysbys, roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (71%) wedi cael y profiad o ennill swm mawr o arian yn gynnar yn eu hanes o ran gamblo. Ymysg y rheiny a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn, roedd 7% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo a 18% wedi profi perthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo.

Nod oedd gan dros draean o'r gamblwyr (37%) unrhyw ddyled o ganlyniad i gamblo ar adeg yr asesiad (Tabl 7). Fodd bynnag, roedd gan 27% ddyledion o hyd at £5,000 ac roedd gan 36% ddyledion o dros £5,000 neu roeddynt wedi cytuno i Drefniant Gwirfoddol Unigol (IVA).

**Tabl 7 Dyled o ganlyniad i gamblo**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Dim dyled** | 66 | 37.1% |
| **O dan £5000** | 48 | 27.0% |
| **£5000-£9,999** | 20 | 11.2% |
| **£10,000-£14,999** | 10 | 5.6% |
| **£15,000-£19,999** | 9 | 5.1% |
| **£20,000-£99,999** | 21 | 11.8% |
| **£100,000 neu ragor** | 1 | 0.6% |
| **Methdaliad** | 3 | 1.7% |
| **Mewn IVA** | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 178 | |
| **Ar goll/Ddim yn hysbysk** | 57 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 235 | |

Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau pan oeddynt yn 27 oed, er bod hyn yn amrywio'n fawr. Roedd tri chwarter y gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau erbyn iddynt fod yn 35 oed, a chwarter ohonynt erbyn iddynt fod yn 21 oed. Ar adeg eu cyflwyno i'r gwasanaethau gamblo, bu gamblwyr yn gamblo (i raddau problemus) am 10 mlynedd ar gyfartaledd (canolrif). Unwaith eto, roedd hyn yn amrywiol iawn, yn amrywio o chwe mis i 50 mlynedd.

### 8.4.4 Arian sy'n cael ei wario ar gamblo

Roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £150 ar gyfartaledd (canolrif) yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad. Gan fod rhai gamblwyr yn gwario ar lefelau sylweddol uwch, mae'r gwerth cymedrig yn uwch, ar lefel o £266 y dydd. Roedd pum deg y cant wedi gwario hyd at £100 yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad (Tabl 8), roedd 18% wedi gwario rhwng £100 a £200, 23% wedi gwario rhwng £200 a £500 a 10% wedi gwario dros £500.

### Tabl 8 Gwariant cyfartalog ar ddiwrnodau gamblo

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 116 | 49.6% |
| **Hyd at £200** | 41 | 17.5% |
| **Hyd at £300** | 22 | 9.4% |
| **Hyd at £400** | 4 | 1.7% |
| **Hyd at £500** | 28 | 12.0% |
| **Hyd at £1000** | 10 | 4.3% |
| **Hyd at £2000** | 9 | 3.8% |
| **Dros £2000** | 4 | 1.7% |
| **Cyfanswm** | 234 | |
| **Ar goll** | 1 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 235 | |

Yn ystod y mis blaenorol, roedd gamblwyr wedi adrodd eu bod yn gwario canolrif o £800 ynghyd â chymedr o £1,490 ar gamblo. Roedd ychydig dros hanner (52%) y gamblwyr wedi gwario hyd at £1,000, gyda 49% yn gwario dros £1,000 (Tabl 9). Roedd tua un o bob pump (17%) o gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario dros £2000 yn ystod y mis blaenorol.

### Tabl 9 Gwariant a adroddwyd ar gamblo yn y mis cyn cael triniaeth

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 35 | 14.9% |
| **Hyd at £200** | 8 | 3.4% |
| **Hyd at £300** | 16 | 6.8% |
| **Hyd at £400** | 7 | 3.0% |
| **Hyd at £500** | 21 | 8.9% |
| **Hyd at £1000** | 34 | 14.5% |
| **Hyd at £2000** | 74 | 31.5% |
| **Dros £2000** | 40 | 17.0% |
| **Cyfanswm** | 235 | |
| **Ar goll** | 0 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 235 | |

Roedd gwerthoedd cymedrig ac ystod y gwariant yn amrywio'n sylweddol rhwng y rheiny a oedd yn adrodd gwahanol leoliadau gamblo (Tabl 10), er na ellir priodoli'r gwariant hwnnw i gamblo yn y lleoliadau hynny'n benodol. Roedd gwerth cymedrig y gwariant ar ddiwrnodau gamblo ar ei uchaf ymysg y rheiny sy'n defnyddio casinos ac wedyn gwasanaethau ar-lein. Hefyd, roedd y gwariant misol cyfartalog yn uwch ymhlith y rheiny a oedd yn defnyddio casinos.

Tabl 10 Arian sy'n cael ei wario ar gyfartaledd yn ystod diwrnodau gamblo ac yn y mis blaenorol, yn ôl gamblwyr sy'n adrodd ar gyfer pob lleoliad gamblo

| | Gwariant cyfartalog ar bob diwrnod gamblo (£) | | Gwariant yn y mis blaenorol (£) | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymedr | Canolrif | Cymedr | Canolrif |
| **Siopau Betio** | 184 | 100 | 1278 | 800 |
| **Casino** | 500 | 300 | 6173 | 1000 |
| **Ar-lein** | 278 | 150 | 1671 | 1000 |
| **Amrywiol** | 127 | 50 | 579 | 300 |

# 9 Mynediad at Wasanaethau

## 9.1 Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer triniaeth

Cafodd bron bob un o'r atgyfeiriadau (96%) eu gwneud gan y cleientiaid eu hunain. Roedd gwasanaethau ymddiriedolaethau iechyd meddwl a 'gwasanaethau neu asiantaethau eraill' yn cyfrif am 4% o atgyfeiriadau rhyngddynt (Tabl 11).

Tabl 11 Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer cleientiaid sy'n cael triniaeth yn 2020/21, yn ôl math y cleient

| | Cleient sy'n gamblo | | Cleient arall | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Hunanatgyfeiriad** | 224 | 95.3% | 32 | 97.0% | 256 | 95.5% |
| **Gwasanaeth neu asiantaeth arall** | 4 | 1.7% | 1 | 3.0% | 5 | 1.9% |
| **Iechyd Meddwl, Ymddiriedolaeth GIG** | 5 | 2.1% | 0 | 0.0% | 5 | 1.9% |
| **Gwasanaethau Camddefnyddio Cyffuriau** | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Meddyg Teulu** | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Cyfanswm** | 235 | | 33 | | 268 | |

## 9.2 Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf

Cyfrifwyd yr amser aros fel yr amser rhwng dyddiad yr atgyfeiriad a'r apwyntiad cyntaf a gofnodwyd. O ran cleientiaid a driniwyd yn ystod 2020/21, cafodd 50% o'r cleientiaid apwyntiad o fewn chwe diwrnod, a 75% o fewn wyth diwrnod.

## 9.3 Cyfnod yr amser yn derbyn triniaeth

Ymysg yr holl gleientiaid a oedd wedi derbyn a diweddu eu triniaeth yn ystod 2020/21, roedd eu triniaeth yn para am gyfartaledd (canolrif) o wyth wythnos. Derbyniodd chwarter y cleientiaid driniaeth am dair wythnos neu lai, derbyniodd hanner y cleientiaid driniaeth am rhwng tair a 13 wythnos a derbyniodd chwarter y cleientiaid driniaeth am dros 13 wythnos.

# 10 Canlyniadau'r Driniaeth

Ymysg y cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2020/21, roedd 108 (40%) yn dal i dderbyn triniaeth ddiwedd Mawrth 2021, tra bo 160 (60%) wedi gadael y driniaeth cyn diwedd Mawrth 2021. Cyflwynwyd canlyniadau'r driniaeth ar gyfer y cleientiaid hynny a ryddhawyd o fewn y cyfnod hwn er mwyn cynrychioli eu statws ar ddiwedd y driniaeth.

## 10.1 Y rhesymau dros adael triniaeth

Roedd mwyafrif y cleientiaid (63%) a oedd wedi gadael eu triniaeth o fewn 2020/21 wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd. Fodd bynnag, roedd 26% wedi rhoi'r gorau i'r driniaeth cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen. Cafodd cyfran lawer is ohonynt eu rhyddhau'n gynnar trwy gytundeb (4%). Roedd cleientiaid eraill ar wahân gamblwyr yn fwy tebygol o gwblhau triniaeth (73% o gymharu â 61%) ac yn llai tebygol o roi'r gorau iddi (18% o gymharu â 28%) ac yn fwy tebygol o gael eu rhyddhau'n gynnar trwy gytundeb (9% o gymharu â 4%).

**Tabl 12 Rhesymau dros adael triniaeth o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2020/21**

| | Cleient sy'n gamblo | | Cleient arall | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 84 | 61.3% | 16 | 72.7% | 100 | 62.9% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 38 | 27.7% | 4 | 18.2% | 42 | 26.4% |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 5 | 3.6% | 2 | 9.1% | 7 | 4.4% |
| **Ddim yn hysbys** | 6 | 4.4% | 0 | 0.0% | 6 | 3.8% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 2 | 1.5% | 0 | 0.0% | 2 | 1.3% |
| **Ymadawedig** | 2 | 1.5% | 0 | 0.0% | 2 | 1.3% |
| **Cyfanswm** | 137 | 100.0% | 22 | 100.0% | 159 | 100.0% |

## 10.2 Sgorau difrifoldeb

### 10.2.1 Sgorau difrifoldeb sylfaenol

Caiff dau fesur difrifoldeb eu cofnodi'n rheolaidd o fewn apwyntiadau, sef, yn benodol, y Mynegrif Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI) a'r sgôr CORE-10.

**MDGP**

Mae'r MDGP yn adnodd wedi'i ddilysu[32] a ddefnyddir yn yr Arolwg Iechyd Lloegr, Arolwg Iechyd yr Alban a'r Arolwg o Gamblo Problemus yng Nghymru. Mae'r MDGP yn cynnwys naw eitem a chaiff pob eitem ei hasesu ar raddfa pedwar pwynt, sy'n rhoi cyfanswm sgôr o rhwng sero a 27 pwynt.

32 Mae'r MDGP yn adnodd sgrinio wedi'i ddilysu ar lefel poblogaeth. Dylid nodi na chafodd y MDGP ei ddylunio fel adnodd clinigol, neu fel mesur canlyniadau ar gyfer triniaeth. Ni ellir dehongli'r MDGP yn uniongyrchol fel meincnod ar gyfer effeithiolrwydd triniaeth, gan na ellir cipio canlyniadau tymor hwy. Fodd bynnag, yn absenoldeb mesur clinigol sydd wedi'i gytuno'n gyffredinol, mae'r MDGP yn darparu dangosydd ar gyfer niwed gamblo a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae sgôr MDGP o wyth neu ragor yn cynrychioli unigolyn sy'n gamblwr problemus. Mae sgorau o rhwng tri a saith yn cynrychioli unigolion y dosbarthwyd eu bod mewn perygl canolig o broblemau gamblo (gamblwyr sy'n profi lefel ganolig o broblemau sy'n arwain at rai canlyniadau negyddol) ac mae sgôr o un neu ddau'n cynrychioli unigolion sydd mewn perygl isel o broblemau gamblo (gamblwyr sy'n profi lefel isel o broblemau gydag ychydig neu ddim canlyniadau negyddol wedi'u nodi).

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cynharaf ar gyfer gamblwyr a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2020/21, cofnodwyd sgôr MDGP ar gyfer 84% o gamblwyr. Ymysg y rhain (Tabl 13), roedd y mwyafrif (99%) wedi cofnodi sgôr MDGP o 8 neu ragor. Diffiniwyd cyfrannau llawer is fel rhai â risg canolig (1%). Ymysg y rheiny yn y categori MDGP uchaf, roedd y sgôr MDGP cymedrig yn 21, sydd gryn dipyn yn uwch na'r lleiafswm o wyth ar gyfer y categori hwn.

**Tabl 13 Categori difrifoldeb MDGP yn yr apwyntiad cynharaf**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Dim problem (0)** | 1 | 0.5% |
| **Risg isel (1-2)** | 0 | 0.0% |
| **Risg canolig (3-7)** | 2 | 1.0% |
| **Sgôr o 8+** | 195 | 98.5% |
| **Cyfanswm** | 198 | 100.0% |
| **Ar goll** | 37 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 235 | |

**CORE-10**

Mae'r CORE-10 yn holiadur 10 eitem byr sy'n cynnwys yr eitemau a ganlyn: Gorbryder (2 eitem), iselder (2 eitem), trawma (1 eitem), problemau corfforol (1 eitem), y modd y mae'n gweithredu (3 eitem - o ddydd i ddydd, perthnasau agos, perthnasau cymdeithasol) ynghyd â'r risg i'w hunan (1 eitem). Mae gan y mesur 6 dwysedd/difrifoldeb uchel a 4 eitem dwysedd /difrifoldeb isel, a gaiff eu sgorio'n unigol ar raddfa o 0 i 4. Byddai sgôr o 40 (yr uchafswm) yn cael ei ddosbarthu fel gofid difrifol, 25 = canolig i ddifrifol, 20 = canolig, 15 = ysgafn, gyda 10 neu lai yn is na'r torbwynt clinigol.

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cyntaf ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2020/21, cofnodwyd sgôr CORE-10 ar gyfer 83% o'r cleientiaid. Ymysg y cleientiaid hyn, roedd y sgorau wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ar draws y categorïau difrifoldeb (Tabl 25) gyda thua un o bob pum cleient wedi'u sgorio'n ddifrifol (17%), canolig-i-ddifrifol (19%), canolig (20%), gyda 28% yn sgorio'n ysgafn a 17% yn sgorio'n is na'r torbwynt clinigol. O gymharu â chleientiaid eraill, roedd gamblwyr yn fwy tebygol na chleientiaid eraill i sgorio'n ddifrifol (17% o gymharu â 15%). O fewn y categori 'difrifol', roedd y sgorau cymedrig yn 29 ar gyfer gamblwyr a 28 ar gyfer cleientiaid eraill.

**Tabl 14 Categori difrifoldeb CORE-10 yn yr apwyntiad cynharaf**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Is na'r torbwynt clinigol** | 31 | 15.8% | 6 | 23.1% | 37 | 16.7% |
| **Ysgafn** | 57 | 29.1% | 6 | 23.1% | 63 | 28.4% |
| **Canolig** | 39 | 19.9% | 5 | 19.2% | 44 | 19.8% |
| **Canolig ddifrifol** | 36 | 18.4% | 5 | 19.2% | 41 | 18.5% |
| **Difrifol** | 33 | 16.8% | 4 | 15.4% | 37 | 16.7% |
| **Cyfanswm** | 196 | 100.0% | 26 | 100.0% | 222 | 100.0% |
| **Ar goll** | 39 | | 7 | | 46 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | 235 | | 33 | | 268 | |

### 10.2.2 Newid mewn sgorau difrifoldeb

Gan fod sgorau MDGP a CORE-10 yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad, mae'n bosib adrodd am unrhyw newidiadau i'r sgorau hyn dros gyfnod o amser. Defnyddir tri dull i'w hadrodd yma: y newid cyffredinol yn y sgorau, cynnydd a gostyngiadau yn y sgorau, a newidiadau rhwng categorïau difrifoldeb. Caiff newidiadau eu hadrodd fel y rheiny rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf o fewn cyfnod o driniaeth a dderbynnir gan gleient, ac felly os derbyniodd cleient sawl cyfnod o driniaeth (gan un neu ragor o ddarparwyr), efallai na fydd y sgorau'n adlewyrchu'r newid cronnol dros eu hanes cyfan o driniaeth.

**MDGP**

Cyfrifwyd newidiadau mewn sgorau MDGP ar gyfer cleientiaid a oedd wedi cwblhau eu triniaeth cyn diwedd Mawrth 2020 (gweler adran 10.1). ). Rhwng yr apwyntiad cynharaf a diweddaraf o fewn cyfnod o driniaeth lle cafodd sgorau MDGP eu cofnodi, roedd cleientiaid wedi cyflawni gwelliant, ar gyfartaledd (canolrif), o 12` pwynt ar raddfa'r MDGP.

Mae Tabl 15 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau MDGP, gyda'r mwyafrif (77%) yn gwella rhwng dechrau a chwblhau'r driniaeth, roedd tua un o bob pump (22%) yn dangos dim newid a lleiafrif bach (2%) yn cofnodi sgôr difrifoldeb uwch yn yr apwyntiad diweddaraf o gymharu â'r un cynharaf. Roedd gamblwyr yn fwyaf tebygol (39%) o gyflawni gwelliant o 20-27 pwynt, gyda chwarter arall (24%) yn cyflawni gwelliant o 10-19 pwynt.

Dengys Tabl 16 y newidiadau yn sgorau'r MDGP yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid. Roedd diffyg newid mewn sgorau'n fwy tebygol o ran y rheiny nad oeddynt wedi cwblhau eu triniaeth. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (89%). Roedd lefel y newid yn amrywio hefyd yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid, gyda chymedr o 19 pwynt ar gyfer y rheiny a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â wyth ar gyfer y rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi

### Tabl 15 Newidiadau mewn sgorau MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf

| | N | % |
|---|---|---|
| **Gwelliant o 20- 27 pwynt** | 52 | 38.5% |
| **Gwelliant o 10- 19 pwynt** | 32 | 23.7% |
| **Gwelliant o 1- 9 pwynt** | 20 | 14.8% |
| **Dim newid** | 29 | 21.5% |
| **Wedi cynyddu: 1 to 9 pwynt** | 2 | 1.5% |
| **Wedi cynyddu: 10 to 18 pwynt** | 0 | 0.0% |
| **Wedi cynyddu: 19 to 27 pwynt** | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 135 | 100.0% |
| **Ar goll** | 3 | |
| **Cyfanswm** | 138 | |

### Tabl 16 Cyfeiriad y newid mewn sgôr MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau

| | Gwaeth | | Dim newid | | Gwell | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 0 | 0.0% | 5 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 0 | 0.0% | 9 | 10.8% | 74 | 89.2% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 1 | 2.6% | 12 | 31.6% | 25 | 65.8% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad a thriniaeth)** | 0 | 0.0% | 1 | 20.0% | 4 | 80.0% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 1 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad a thriniaeth)** | 1 | 50.0% | 0 | 0.0% | 1 | 50.0% |

Dengys Tabl 17 y categori diweddaraf a gofnodwyd o ran difrifoldeb cyn diwedd y driniaeth o gymharu â'r cynharaf yn Nhabl 13. Ar y pwynt hwn, roedd gan gyfran lawer is o gleientiaid (36%) sgôr MDGP [33] o 8+. Roedd dau ddeg pedwar y cant o gamblwyr yn cael eu diffinio bellach fel rhai a chanddynt 'ddim problem', gyda'r gweddill yn cael eu diffinio fel rhai a chanddynt risg isel (18%) neu ganolig (23%).

33 Gan fod y dosbarthiad MDGP uchaf yn sgôr o fewn yr ystod o rhwng 8 a 27, bydd llawer o gleientiaid y maent yn dal i fod wedi'u dosbarthu felly ar ddiwedd cyfnod penodol o driniaeth yn dal i fod wedi profi gostyngiad yn eu sgôr MDGP, er nad yw'n un a fyddai'n ddigonol i'w tynnu o'r categori hwn.

### Tabl 17 Categori difrifoldeb MDGP diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth

| | N. Clients | % | Mean score |
|---|---|---|---|
| **Dim problem (0)** | 32 | 23.7% | 0 |
| **Risg isel (1-2)** | 24 | 17.8% | 1.6 |
| **Risg canolig (3-7)** | 31 | 23.0% | 5.0 |
| **Sgôr o 8+** | 48 | 35.6% | 16.2 |
| **Cyfanswm** | 135 | 100.0% | 7.1 |
| **Ar goll** | 3 | | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 138 | | |

### CORE-10

Cyfrifwyd newidiadau o ran y sgôr CORE-10 ar gyfer cleientiaid a oedd wedi diweddu eu triniaeth o fewn y cyfnod hwn. Rhwng yr apwyntiad cynharaf a diweddaraf o fewn y cyfnodau triniaeth y cofnodwyd sgorau CORE-10 ar eu cyfer, cafwyd gwelliant yn sgorau'r cleientiaid, ar gyfartaledd (cymedrig), o 8 pwynt ar y raddfa CORE-10 (8 pwynt o ran cleientiaid ar wahân i gamblwyr).

Mae Tabl 18 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau CORE-10 gyda'r mwyafrif (76%) yn gwella o fewn y driniaeth, ond gyda 22% yn dangos dim newid a lleiafrif bach (3%) yn cofnodi sgôr difrifoldeb uwch yn eu hapwyntiad diweddaraf, o gymharu â'u hapwyntiad cynharaf. Roedd y gwelliant mwyaf a gofnodwyd (64%) yn welliant o rhwng un ac 20 pwynt. Yn gyffredinol, roedd y gwelliannau'n debyg rhwng y gamblwyr a chleientiaid eraill.

Dengys Tabl 19 y newidiadau hyn yn y sgorau CORE-10 yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid o driniaeth. Roedd diffyg newid mewn sgôr yn llawer mwy tebygol o ran y rheiny nad oeddent wedi cwblhau eu triniaeth. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (85%).

### Tabl 18 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Gwelliant o 31-40 pwynt** | 1 | 0.8% | 0 | 0.0% | 1 | 0.7% |
| **Gwelliant o 21-30 pwynt** | 15 | 11.3% | 2 | 10.0% | 17 | 11.1% |
| **Gwelliant o 11-20 pwynt** | 35 | 26.3% | 5 | 25.0% | 40 | 26.1% |
| **Gwelliant o 1-10 pwynt** | 50 | 37.6% | 8 | 40.0% | 58 | 37.9% |
| **Dim newid** | 28 | 21.1% | 5 | 25.0% | 33 | 21.6% |
| **Cynnydd o 1-10 pwynt** | 4 | 3.0% | 0 | 0.0% | 4 | 2.6% |
| **Cynnydd o 11-20 pwynt** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cynnydd o 21-30 pwynt** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cynnydd o 31-40 pwynt** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 133 | 100.0% | 20 | 100.0% | 153 | 100.0% |

**Tabl 19 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau**

| | Gwaeth | | Dim newid | | Gwell | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 0 | 0.0% | 5 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 4 | 4.1% | 11 | 11.3% | 82 | 84.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 0 | 0.0% | 14 | 34.1% | 27 | 65.9% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen (asesiad a thriniaeth)** | 0 | 0.0% | 2 | 28.6% | 5 | 71.4% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad yn unig)** | 0 | 0.0% | 1 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Ddim yn hysbys (asesiad a thriniaeth)** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 100.0% |

Dengys Tabl 20 y categori difrifoldeb diweddaraf a gofnodwyd cyn diwedd y driniaeth, o gymharu â'r un cynharaf yn Nhabl 14. Ar y pwynt hwn, roedd cyfran is o gleientiaid (4%) yn dal i gael eu dosbarthu yn y categori 'difrifol'. Roedd mwyafrif y cleientiaid (66%) yn cael eu diffinio bellach fel rhai a oedd yn 'is na'r torbwynt clinigol ', gyda'r mwyafrif o'r gweddill yn cael eu diffinio yn y categori ysgafn (18%).

**Tabl 20 Categori difrifoldeb CORE-10 diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Is na'r torbwynt clinigol** | 88 | 66.2% | 13 | 65.0% | 101 | 66.0% |
| **Ysgafn** | 23 | 17.3% | 5 | 25.0% | 28 | 18.3% |
| **Canolig** | 7 | 5.3% | 0 | 0.0% | 7 | 4.6% |
| **Canolig ddifrifol** | 9 | 6.8% | 2 | 10.0% | 11 | 7.2% |
| **Difrifol** | 6 | 4.5% | 0 | 0.0% | 6 | 3.9% |
| **Cyfanswm** | 133 | 100.0% | 20 | 100.0% | 153 | 100.0% |

# 11 Tueddiadau


## 11.1 Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth

Dengys Tabl 21 bod nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth o fewn unrhyw flwyddyn benodol wedi amrywio ers 2015/16, gyda nifer uchaf y cleientiaid yn cael triniaeth yn 2017/18.

**Tabl 21 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth yn ystod y flwyddyn – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cleientiaid sy'n cael triniaet** | 218 | 280 | 302 | 295 | 295 | 268 |

**Ffigur 1 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth – 2015/16 i 2020/21**




Mae gwasanaethau gamblo yn darparu pwynt cyswllt a chymorth ar gyfer cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo. Dengys Tabl 22 bod cyfran y cleientiaid sy'n chwilio am help o ganlyniad i gamblo rhywun arall wedi cynyddu o 3% yn 2015/16 i 12% yn 2020/21.

**Tabl 22 Tueddiadau o ran y rheswm dros atgyfeirio– 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N. | % | N. | % | N. | % | N. | % | N | % |
| **Cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo** | 211 | 97.2% | 267 | 96.0% | 283 | 95.3% | 272 | 94.4% | 258 | 89.9% | 235 | 87.7% |
| **Rhai eraill a effeithir** | 6 | 2.8% | 11 | 4.0% | 14 | 4.7% | 16 | 5.6% | 26 | 9.1% | 31 | 11.6% |
| **Unigolyn mewn perygl o ddatblygu problem gamblo** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 3 | 1.0% | 2 | 0.7% |
| **Ar goll** | 1 | | 2 | | 5 | | 7 | | 8 | | 0 | |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 218 | | 280 | | 302 | | 295 | | 295 | | 268 | |

## 11.2 Tueddiadau o ran y math o gamblo

Y gwahaniaeth mwyaf nodedig a adroddwyd o ran lleoliadau gamblo rhwng 2015/16 a 2020/21 (Tabl 23) fu'r cynnydd yn y gyfran sy'n adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein (a oedd wedi codi o 52% i 83%) ochr yn ochr â'r gostyngiad yn y gyfran sy'n defnyddio siopau betio (sydd wedi gostwng o 54% i 26%). Mae'n amlwg hefyd bod cynnydd yn y defnydd o weithgareddau amrywiol (o 3% i 10%).

Tabl 23 Tueddiadau o ran lleoliadau gamblo – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | N | % | N | % | N | N | % |
| **Siopau Betio** | 113 | 53.6% | 114 | 42.7% | 125 | 45.1% | 119 | 44.4% | 105 | 41.7% | 56 | 25.8% |
| **Neuadd Bingo** | 3 | 1.4% | 2 | 0.7% | 3 | 1.1% | 7 | 2.6% | 1 | 0.4% | 5 | 2.3% |
| **Casino** | 9 | 4.3% | 10 | 3.7% | 20 | 7.2% | 22 | 8.2% | 21 | 8.3% | 13 | 6.0% |
| **Digwyddiadau byw** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 7 | 3.3% | 7 | 2.6% | 7 | 2.5% | 7 | 2.6% | 5 | 2.0% | 4 | 1.8% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 1 | 0.4% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 1 | 0.5% |
| **Tafarn** | 2 | 0.9% | 3 | 1.1% | 5 | 1.8% | 2 | 0.7% | 1 | 0.4% | 2 | 0.9% |
| **Ar-lein** | 110 | 52.1% | 181 | 67.8% | 186 | 67.1% | 178 | 66.4% | 176 | 69.8% | 179 | 82.5% |
| **Amrywiol** | 7 | 3.3% | 13 | 4.9% | 16 | 5.8% | 16 | 6.0% | 17 | 6.7% | 21 | 9.7% |
| **Clwb aelodau preifat** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Arall** | 1 | 0.5% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 1 | 0.5% |
| **Cyfanswm** | 211 | | 267 | | 277 | | 268 | | 252 | | 235 | |

## 11.3 Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth

A hwnnw wedi'i grwpio yn ôl flwyddyn y derbyniwyd triniaeth dengys Tabl 24 nifer o dueddiadau cadarnhaol, gyda chynnydd yng nghyfran y cleientiaid sy'n cwblhau triniaeth a drefnwyd (o 51% i 63%), ochr yn ochr â gostyngiad yn y gyfran sy'n rhoi'r gorau i'w triniaeth (o 43% i 26%).

Tabl 24 Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 12 | 6.5% | 37 | 15.5% | 27 | 10.5% | 13 | 5.5% | 30 | 11.9% | 6 | 3.8% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 94 | 50.5% | 119 | 49.8% | 133 | 51.6% | 133 | 56.6% | 147 | 58.1% | 100 | 62.9% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 80 | 43.0% | 81 | 33.9% | 92 | 35.7% | 86 | 36.6% | 74 | 29.2% | 42 | 26.4% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 6 | 2.3% | 3 | 1.3% | 1 | 0.4% | 7 | 4.4% |
| **Ymadawedig** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm y cleientiaid a ryddhawyd** | 186 | | 239 | | 258 | | 235 | | 253 | | 160 | |

## 11.4 Tueddiadau o ran nodweddion y cleient

Dengys Tabl 25 gynnydd bach cyffredinol yng nghyfran y cleientiaid sy'n fenywod, sydd wedi codi o 17% yn 2015/16 i 30% yn 2020/21.

### Tabl 25 Tueddiadau o ran y rhywiau – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Gwryw** | 182 | 83.5% | 236 | 84.3% | 248 | 82.1% | 244 | 82.7% | 232 | 78.6% | 182 | 69.5% |
| **Benyw** | 36 | 16.5% | 44 | 15.7% | 54 | 17.9% | 50 | 16.9% | 63 | 21.4% | 80 | 30.5% |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 218 | | 280 | | 302 | | 295 | | 295 | | 268 | |

* Ni chynhwyswyd categorïau rhyw sydd â llai na 100 o gleientiaid o fewn y tabl hwn

Dengys Tabl 26 nad yw cyfran y cleientiaid sy'n dod o wahanol grwpiau ethnig wedi newid yn sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf.

### Tabl 26 Tueddiadau o ran ethnigrwydd – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu wyn Prydeinig** | 208 | 96.7% | 274 | 98.6% | 294 | 97.7% | 288 | 97.6% | 277 | 95.2% | 249 | 96.1% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | 2 | 0.9% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | 5 | 2.3% | 3 | 1.1% | 5 | 1.7% | 7 | 2.4% | 11 | 3.8% | 5 | 1.9% |
| **Cymysg** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% | 3 | 1.2% |
| **Arall** | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 2 | 0.7% | 1 | 0.4% |
| **Ddim yn hysbys/ Ar goll** | 3 | | 2 | | 1 | | 0 | | 4 | | 9 | |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 218 | | 280 | | 302 | | 295 | | 295 | | 268 | |

# Ystadegau Cenedlaethol gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol

## Cymru

1af Ebrill 2020 i 31ain Mawrth 2021

GambleAware

# Cynnwys

## Wales


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 111 |
| 2 | Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol | 112 |
| 3 | Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau | 113 |
| 4 | Cronfa ddata'r FfAD/DRF | 115 |
| 5 | Ynghylch yr adroddiad hwn | 115 |
| 6 | Nodiadau ar ddehongli | 116 |
| 7 | Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21 | 117 |
| 8 | Nodweddion Cleientiaid | 118 |
| 8.1 | Oedran a rhyw cleientiaid | 118 |
| 8.2 | Ethnigrwydd cleientiaid | 119 |
| 8.3 | Statws cyflogaeth cleientiaid | 119 |
| 8.4 | Proffil Gamblo | 120 |
| 8.4.1 | Lleoliadau Gamblo | 120 |
| 8.4.2 | Gweithgareddau gamblo | 121 |
| 8.4.3 | Hanes Gamblo | 123 |
| 8.4.4 | Arian sy'n cael ei wario ar gamblo | 123 |
| 9 | Mynediad at wasanaethau | 125 |
| 9.1 | Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer cael triniaeth | 125 |
| 9.2 | Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf | 125 |
| 9.3 | Cyfnod yr amser y derbyniwyd triniaeth | 125 |
| 10 | Canlyniadau'r Driniaeth | 126 |
| 10.1 | Y rhesymau dros adael triniaeth | 126 |
| 10.2 | Sgorau Difrifoldeb | 127 |
| 10.2.1 | Sgorau difrifoldeb sylfaenol | 127 |
| 10.2.2 | Newid mewn sgorau difrifoldeb | 128 |
| 11 | Tueddiadau | 131 |
| 11.1 | Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth | 131 |
| 11.2 | Tueddiadau o ran y math o gamblo | 132 |
| 11.3 | Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth | 133 |
| 11.4 | Tueddiadau o ran nodweddion cleientiaid | 133 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

### Nodweddion y cleient

- Cafodd cyfanswm o 347 o breswylwyr Cymru eu trin yn y gwasanaethau gamblo (sy'n adrodd i'r Fframwaith Adrodd Data (FfAD) yn ystod 2020/21.
- Roedd mwyafrif y cleientiaid (66%) yn wrywod.
- Roedd tri chwarter (75%) y cleientiaid yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed, sy'n cyfrif am gyfanswm o 39% o'r cleientiaid
- Roedd dros naw o bob deg (96%) o gefndir ethnig gwyn, gan gynnwys 93% a oedd yn Wyn Prydeinig. Y cefndiroedd ethnig mwyaf cyffredin a adroddwyd wedyn oedd Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (2%), a Du neu Ddu Prydeinig (2%).
- Roedd mwyafrif y cleientiaid yn gyflogedig (68%). Y statws cyflogaeth a adroddwyd fwyaf wedyn oedd y di-waith (11%) a rhai analluog i weithio oherwydd salwch (11%), ac wedyn rhai wedi ymddeol (4%), rhai sy'n cadw tŷ (4%) a myfyrwyr (2%).

### Proffil gamblo

- Ymysg cleientiaid a oedd yn derbyn triniaeth am eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo, roedd sgoriau cychwynnol y Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI) [1] yn dangos bod gan y mwyafrif (98%) sgôr o wyth neu fwy (y mae'r raddfa MDGP yn eu dosbarthu'n bobl â phroblem gamblo) ar adeg eu hasesu ar gyfer triniaeth. Ymysg y rheiny yr oedd eu cyfnod o driniaeth wedi dod i ben o fewn blwyddyn 2020/21, roedd y gyfran hon wedi gostwng i 25% a dangosodd y mwyafrif (83%) rywfaint o wellhad ar y raddfa hon.
- Y lleoliad mwyaf cyffredin ar gyfer gamblo oedd gamblo ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 83% o gleientiaid. Siopau betio oedd y lleoliad mwyaf cyffredin wedyn, sy'n cael eu defnyddio gan 21% o gamblwyr.
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, roedd y gyfran a oedd yn adrodd am ddefnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein wedi cynyddu o 65% i 83%. Yn yr un cyfnod, roedd y gyfran a oedd yn defnyddio siopau betio wedi gostwng o 47% i 21%.
- O fewn gwasanaethau ar-lein, y gweithgaredd mwyaf cyffredin oedd gamblo drwy slotiau casino (32%), a oedd yn cael ei ddilyn gan ddigwyddiadau chwaraeon (23%) a gemau bwrdd casino (14%).
- Roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (58%) yn adrodd bod ganddyn nhw ddyled oherwydd eu gamblo. Roedd 16% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo ac roedd 33% wedi cael profiad o berthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo.
- Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £600 ar gamblo yn y 30 niwrnod blaenorol cyn iddyn nhw gael eu hasesu, gyda 50% yn gwario mwy na hyn.

### Ymgysylltu â thriniaeth

- Roedd mwyafrif yr atgyfeiriadau i gael triniaeth (90%) yn cael eu gwneud gan y cleientiaid eu hunain.
- Ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn blwyddyn, gwelwyd 50% gleientiaid am y tro

1 Gweler yr Atodiad, adran 12.2

cyntaf o fewn diwrnod ar ôl cael eu hatgyfeirio, a gwelwyd 75% ohonyn nhw o fewn pedwar diwrnod.

- Ymysg pob un o'r rhai hynny sy'n derbyn a diweddu eu triniaeth o fewn 2020/21, roedd y driniaeth yn parhau am gyfartaledd (canolrif) o wyth wythnos.

### Canlyniadau'r driniaeth

- Ymysg y cleientiaid y daeth eu triniaeth i ben yn ystod 2020/21, cwblhaodd y mwyafrif (78%) y driniaeth a drefnwyd. Gadawodd 16% y driniaeth a drefnwyd cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen.
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, cynyddodd y gyfran o gleientiaid a oedd yn cwblhau triniaeth a drefnwyd o 64% i 78%, tra bod y gyfran a oedd yn gadael y driniaeth wedi gostwng o 28% i 16%.
- Ymysg gamblwyr, bu gwellhad yn y sgorau MDGP gyda chyfartaledd (canolrif) o 16 pwynt rhwng yr apwyntiad cynharaf a'r un olaf yn y driniaeth.
- Ar ddiwedd y driniaeth, nid oedd gan 75% sgôr MDGP o 8+ mwyach, o gymharu â 2% ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau mewn sgôr MDGP ar gyfer 94% o gamblwyr a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 51% o'r rheiny a oedd wedi rhoi'r gorau iddi
- Diffiniwyd 64% o gleientiaid fel rhai 'is na'r torbwynt clinigol' ar raddfa CORE-10 ar ddiwedd y driniaeth, o'i gymharu â 7% yn unig ar ddechrau'r driniaeth.
- Gwelwyd gwelliannau yn y sgôr CORE-10 o ran 92% o gleientiaid a oedd yn cwblhau eu triniaeth, o gymharu â 49% o'r rheiny a oedd yn rhoi'r gorau iddi

# 2 Gwybodaeth am y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol

Mae'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol (GTGC/NGTS) yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu triniaeth a chefnogaeth gyfrinachol ar gyfer unrhyw un sy'n profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ac mae'n rhad ac am ddim ledled Lloegr, Yr Alban a Chymru. Mae'r GTGC yn cael ei gomisiynu gan GambleAware, sef elusen annibynnol sy'n dyfarnu grantiau ac yn mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus er mwyn lleihau niwed drwy gamblo.

Ble bynnag y mae rhywun yn cysylltu trwy'r rhwydwaith hwn, mae'r darparwyr hyn yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd drwy lwybrau atgyfeirio i gyflawni'r pecyn gofal mwyaf addas ar gyfer unigolion sy'n profi anawsterau gyda gamblo, ac i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio gan arferion gamblo rhywun arall.

Mae'r data ar gyfer y cyfnod 2020/21 a geir o fewn yr adroddiad hwn yn ymdrin â gwybodaeth a gyflwynwyd gan y sefydliadau a ganlyn, gyda manylion y gwasanaethau a ddarperir ganddyn nhw'n wedi'u rhestru isod.

### Mae GamCare[2] a'i rwydwaith o bartneriaid yn cynnig:

- Triniaeth ar-lein a gefnogir gan gysylltiad rheolaidd â therapydd, sydd ar gael ar adegau ac mewn mannau sy'n gyfleus i'r cleient dros gyfnod o wyth wythnos.

2 Yn ychwanegol, mae GamCare yn gweithredu'r Llinell Gymorth Genedlaethol sy'n cynnig sgyrsiau cymorth byw dros y ffôn ac ar-lein ac sy'n darparu cefnogaeth yn syth i unigolion ac atgyfeiriad i'r gwasanaeth triniaeth. Yn ogystal, mae GamCare yn cynnig gwybodaeth a chyngor drwy'u gwefan, fforymau a gymedrolir ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein ar gyfer grwpiau. Nid yw'r gwasanaethau hyn o fewn cwmpas y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

- Cymorth a thriniaeth therapiwtig un-i-un, wyneb-yn-wyneb, ar-lein a thros y ffôn ar gyfer pobl â phroblemau gamblo, yn ogystal â ffrindiau ac aelodau teulu sy'n cael eu heffeithio gan gamblo.
- Cyrsiau Adfer Gamblo a gyflwynir wyneb-yn-wyneb neu ar-lein dros gyfnod o rhwng chwech i wyth wythnos.

**Mae Cymdeithas Gordon Moody yn cynnig:**

- Canolfannau Triniaeth Preswyl – dwy ganolfan arbenigol unigryw, sy'n darparu rhaglen driniaeth breswyl ddwys ar gyfer dynion sy'n gaeth i gamblo, dros gyfnod o 14 wythnos.
- Tai/Llety Adferiad – llety arbenigol i'r rheiny sydd wedi cwblhau'r rhaglenni triniaeth ond sydd angen cymorth ychwanegol i'w hadfer rhag mynd yn ôl i'w hen arferion gamblo.
- Rhaglen Encilio a Chwnsela – rhaglenni encilio ar gyfer cohortau o ferched yn unig a chohortau o ddynion yn unig, sy'n cyfuno arosiadau preswyl byr gyda chymorth cwnsela yn y cartref.

**Mae Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol a Gogledd-orllewin Llundain (Clinig Trin Gamblo Problemus Llundain) yn cynnig:**

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

**Mae Gwasanaeth Gamblo GIG Gogledd Lloegr, a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Partneriaeth Sefydledig GIG Leeds ac Efrog yn cynnig:**

- Triniaeth ar gyfer problemau gamblo yn arbennig ar gyfer pobl gyda dibyniaethau mwy difrifol yn ogystal â'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd meddwl ac iechyd corfforol cydafiachedd, y rhai hynny â gweithredu cymdeithasol diffygiol, a'r rhai hynny a all fod mewn mwy o risg, fel y risg o hunanladdiad.

Mae angen i ddarparwyr triniaeth GambleAware y telir amdano gyflwyno setiau data chwarterol mewn fformat safonol[3]. Sylfaen yr adroddiad hwn yw dadansoddi'r cyflwyniadau hyn.

# 3 Cefndir a Chyd-destun o ran Polisïau

Mae Deddf Gamblo 2005 yn cynnwys darpariaeth yn adran 123[4] ar gyfer ardoll ar weithredwyr gamblo i ariannu prosiectau i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, ond nid yw llywodraethau olynol wedi rhoi'r ddarpariaeth hon ar waith. Yn absenoldeb ardoll o'r fath, mae'r Comisiwn Gamblo yn gosod gofyniad ar weithredwyr trwy'r Amodau Trwydded a Chod Ymarfer[5] i wneud cyfraniad i ariannu ymchwil, addysg a thriniaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r Llywodraeth yn y broses o gynnal adolygiad o Ddeddf Gamblo 2005 ac mae hi i fod i ryddhau papur gwyn ar ddiwedd 2021 sy'n amlinellu ei chynigion ar gyfer ei diwygio.

3 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf
4 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/19/section/123
5 http://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/LCCP/Licence-conditions-and-codes-of-practice.aspx

Mae GambleAware[6] yn elusen annibynnol sy'n comisiynu gwasanaethau atal a thriniaeth ar sail tystiolaeth mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau arbenigol, ac mae hefyd yn wedi dadlau'n gryf dros gael ardoll orfodol. Yr elusen hon yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw sy'n weithredol ym meysydd ymchwil, addysg a thriniaeth [7], ac oherwydd hyn, gwneir cyfran uchel o roddion i GamblAware. Yn arbennig, gwnaed addewid diweddar i'r elusen o hyd at £100 miliwn gan y pedwar cwmni gamblo mwyaf hyd at y flwyddyn 2024.

Ym Medi 2021, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Lloegr (sydd wedi'i ddiddymu erbyn hyn) adolygiad o'r dystiolaeth o niwed sy'n gysylltiedig â gamblo[8]. Daeth y papur i'r casgliad y dylid ystyried bod gamblo niweidiol yn fater iechyd cyhoeddus oherwydd y cysylltiad â niwed i unigolion, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymdeithas ehangach. Bydd y Swyddfa Gwella Iechyd ac Atal Gwahaniaethau ('Office for Health Improvement and Disparities', OHID) yn gweithio'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cynllun i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn yr adroddiad i helpu i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Yn Ionawr 2019, cyhoeddodd GIG Lloegr y byddai'n sefydlu rhagor o glinigau arbenigol i drin anhwylder gamblo[9] ac yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddodd yr amserlen ar gyfer pryd y byddai'r clinigau newydd yn agor[10]. Dechreuodd y cyntaf o'r clinigau hyn gynnig triniaeth yn 2019/20. Yn ogystal, mae rhywfaint o weithgaredd a ariannir gan y GIG i bobl sydd â diagnosis sylfaenol neu eilaidd o anhwylder gamblo yn digwydd y tu allan i glinigau arbenigol. Caiff gweithgareddau a ariennir gan y GIG eu hadrodd yn yr ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan y GIG yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Roedd *Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17* Prif Swyddog Meddygol Cymru[11], a gyhoeddwyd yn Ionawr 2018 yn trafod yr angen am well mesurau i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gan gynnwys gwasanaethau i helpu'r rheiny sydd eisoes yn profi niwed.

Mae GambleAware yn gweithio i sicrhau y caiff dull iechyd cyhoeddus ei fabwysiadu ym Mhrydain Fawr i atal niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, a'i fod yn cael arwain gan y fframwaith ar gyfer atal niwed, fel y nodir yn y Strategaeth Genedlaethol i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo.

Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau aruthrol i gymunedau, unigolion, darparwyr gwasanaeth a'r sector statudol. Mae sawl ardal wedi gweld newid cyflym mewn ymateb i ofynion newydd o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag, efallai bod rhai wedi colli cyfle i dderbyn cymorth oherwydd newidiadau mewn gwasanaethau neu eu bod wedi datblygu anghenion newydd sydd heb eu diwallu. Mae effaith hirdymor y pandemig yn debygol o gael ei deimlo am flynyddoedd lawer, a dylai comisiynu effeithiol fod yn ymatebol bob amser i anghenion newidiol y gymdeithas. Mae GambleAware yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â'r GIG, asiantaethau iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol ledled Lloegr, yr Alban a Chymru i ddatblygu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ymhellach. Fel prif gyllidwr y GTGC/NGTS, mae'r adroddiad ystadegol hwn yn cwmpasu gweithgaredd a gomisiynwyd gan GambleAware.

Mae GambleAware yn aelod o weithgor ar y cyd ar atal niwed sy'n gysylltiedig gamblo sy'n cael ei gyd-gadeirio gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r

6 Mae gwybodaeth am GambleAware a'i llywodraethu ar gael yn https://about.gambleaware.org/about/
7 https://www.gamblingcommission.gov.uk/for-gambling-businesses/Compliance/General-compliance/Social-responsibility/Research-education-and-treatment-contributions.aspx
8 https://www.gov.uk/government/news/landmark-report-reveals-harms-associated-with-gambling-estimated-to-cost-society-at-least-1-27-billion-a-year
9 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/08/nhs-long-term-plan-version-1.2.pdf
10 https://www.longtermplan.nhs.uk/wp-content/uploads/2019/07/nhs-mental-health-implementation-plan-2019-20-2023-24.pdf
11 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/gambling-with-our-health-chief-medical-officer-for-wales-annual-report-2016-17.pdf

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd ag aelod o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad. Mae GambleAware wedi sefydlu byrddau cynghori yng Nghymru a Lloegr i arwain cynlluniau comisiynu at y dyfodol yn y gwledydd hynny, ac mae'n bartner anfasnachol â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Hefyd, mae GambleAware yn sefydlu Grŵp Cynghori mewn ymgynghoriad â chyrff eraill i sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael, ac i gefnogi'r gwaith o alinio, integreiddio ac ehangu gwasanaethau triniaeth ar draws y system fel y gall cleifion gael y driniaeth iawn ar yr adeg iawn.

Trwy gyfuno ffigurau o wasanaethau triniaeth unigol a ariennir gan GambleAware i greu set ddata sy'n cwmpasu'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol cyfan, darperir cyfleoedd newydd i gael gwell dealltwriaeth, ymhlith y boblogaeth sy'n derbyn triniaeth, o:

- Raddfa a difrifoldeb niwed sy'n gysylltiedig â gamblo
- Nodweddion y rheiny sy'n cael cymorth o ran demograffeg ac ymddygiad
- Cynnydd a chanlyniadau o ran triniaeth

# 4 Cronfa ddata'r FfAD/DRF

Caiff y casgliad o ddata ynghylch cleientiaid sy'n derbyn triniaeth gan y Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol ei reoli trwy set ddata a gydlynir yn genedlaethol o'r enw'r Fframwaith Adrodd Data ('Data Reporting Framework, DRF), a gychwynnwyd yn 2015. Mae gwasanaethau triniaeth unigol yn casglu data ar gleientiaid a thriniaeth trwy systemau rheoli achosion pwrpasol. Ymgorfforir y FfAD ym mhob un o'r systemau hyn. Nodir eitemau data o fewn y FfAD ym Manyleb y FfAD [12] (sy'n ddilys tan Fawrth 31ain 2021) ac fe'i darperir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Cesglir data o fewn pedwar tabl ar wahân, sy'n darparu manylion am nodweddion cleientiaid, eu hanes o ran gamblo, manylion atgyfeiriadau a manylion am apwyntiadau. Mae'r FfAD yn cynnwys set ddata graidd gydgysylltiedig, a gesglir i ddarparu adroddiadau cyson y gellir eu cymharu ar lefel genedlaethol. Ceir rhai mân wahaniaethau o ran y data a gesglir rhwng asiantaethau, fel yr ychwanegiad o gategorïau atodol o fewn meysydd unigol, neu yn ffurf data a gesglir. Caiff y rhain eu hailfformatio a'u hailgodio ar lefel genedlaethol i sicrhau cysondeb o fewn manyleb y FfAD.

# 5 Ynghylch yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth am gleientiaid asiantaethau'r Gwasanaeth Triniaeth Gamblo Cenedlaethol, ac yn darparu manylion am nodweddion cleientiaid, gweithgareddau a hanes gamblo, ynghyd â thriniaeth a dderbynnir a chanlyniadau dilynol. Fe'i cyfyngir i gleientiaid y mae tystiolaeth yn bodoli ar eu cyfer eu bod wedi derbyn triniaeth strwythuredig o fewn y cyfnod adrodd, ac felly nid yw'n cynrychioli holl weithgaredd yr asiantaethau sy'n adrodd, ac nid yw ychwaith yn dal gwybodaeth am unrhyw wybodaeth am weithgareddau asiantaethau nad ydynt yn adrodd i'r system FfAD. Mae'n darparu crynodeb a adroddir yn gyson, y gellir ei gymharu o un flwyddyn i'r llall.

12 https://about.gambleaware.org/media/2147/gambleaware-drf-specification-june-16.pdf

# 6 Nodiadau ar ddehongli

Mae coladu'r FfAD a'r lefel genedlaethol yn system gasglu data dienw. Ar lefel gwasanaeth, cesglir codau cleientiaid i wahaniaethu un cleient o'r llall. Bydd cyfansymiau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu symio i ddarparu amcangyfrif o lefelau triniaeth cenedlaethol. Os yw cleientiaid yn mynychu mwy nag un gwasanaeth o fewn y cyfnod adrodd, fe gânt eu cyfrif gan bob gwasanaeth a fynychir ganddynt. Ni ellir cyfrifo lefel y gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau'n gywir, ond disgwylir y bydd yn ganran fach iawn o gyfanswm nifer y cleientiaid a amcangyfrifir ar lefel genedlaethol. Felly dylid dehongli cyfanswm y nifer a gyflwynir yn yr adroddiad hwn fel amcangyfrif o gyfanswm nifer y cleientiaid sy'n derbyn triniaeth o fewn asiantaethau sy'n cymryd rhan.

Gall cleientiaid gwasanaethau triniaeth gamblo naill ai fod yn gamblwyr eu hunain, yn 'rai eraill a effeithir' neu'n unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo. O fewn yr adroddiad hwn, caiff unigolion eu categoreiddio fel 'gamblwyr' neu 'Gleientiaid eraill'. Mae 'Cleientiaid eraill' yn cynnwys rhai eraill a effeithir, unigolion sydd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo a'r rheiny na chafodd y wybodaeth hon ei chofnodi ar eu cyfer. Cyflwynir data am nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaethau ar gyfer y ddau gategori o gleientiaid. Ni chaiff manylion am weithgareddau gamblo a hanes unigolion o ran eu harferion gamblo ond eu cyflwyno ar gyfer cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr.

Mae'r FfAD yn casglu ardal bost eu man preswylio (hanner cyntaf y cod post). Gall y rhain rychwantu ffiniau awdurdodau lleol a ffiniau cenedlaethol. O ran yr adroddiad hwn, cynhwysir ardaloedd post y mae'r rhan fwyaf ohonynt, neu'r ardal gyfan wedi'u cynnwys o fewn Cymru. Ni chynhwysir ardaloedd sydd yn rhannol yng Nghymru ond y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Lloegr. Cynhwysir ardaloedd post sy'n dechrau gyda 'LL', 'CF' neu 'SA' yn llawn. Cynhwysir ardaloedd post sy'n dechrau gyda'NP', ac eithrio NP5, NP6 a NP16. Cynhwysir ardaloedd post sy'n dechrau gyda 'SY', ac eithrio SY1, SY2, SY3, SY4, SY5, SY6, SY7, SY8, SY9, SY10, SY11, SY12, SY13, SY14, SY15, SY21. Cynhwysir CH5, CH6, CH7, a CH8 hefyd.

O fewn yr adroddiad hwn, cyflwynir cyfartaleddau fel cymedrau neu ganolrifau, neu weithiau'r ddau gyda'i gilydd. Gan fod gwerthoedd unigol eithaf yn effeithio'r cymedr ond nid y canolrif, yn aml, ffefrir y canolrif fel mesur canolduedd.

Roedd y cyfnod triniaeth Ebrill 1$^{af}$ 2020-Mawrth 31$^{ain}$ 2021 yn cyd-daro â'r pandemig Covid-19. Yn ystod y cyfnod hwn, yn aml roedd yr hawl i symud a chael mynediad i leoliadau cyhoeddus wedi'i gyfyngu. Dechreuodd y cyfnod clo cyntaf yng Nghymru ar 23$^{ain}$ Mawrth 2020. Cyhoeddwyd cynllun i godi cyfyngiadau ar 10$^{fed}$ Gorffennaf ond roedd rhai o'r cyfyngiadau wedi parhau hyd at 20$^{fed}$ Chwefror 2021. O fewn y cyfnodau clo, cyfyngwyd ar fynediad i wasanaethau a ddiffinnir fel rhai hanfodol. Roedd lleoliadau o fewn y sector lletygarwch ac adloniant, fel tafarnau, bwytai a sinemâu, ond hefyd siopau betio, casinos a neuaddau bingo, wedi cau yn ystod y cyfnodau clo, ac yn destun cyrffywiau a chyfyngiadau o ran cadw pellter y tu allan i'r cyfnodau hynny.

# 7 Asesiad o ansawdd a chadernid data FfAD 2020/21

Dengys Tabl 1 isod lefel gwblhau y manylion a gymerir ar adeg asesu cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21. Nid yw manylion gweithgareddau gamblo ac a hanes cleientiaid o ran arferion gamblo yn cael eu casglu fel mater o drefn ar gyfer cleientiaid nad ydynt eu hunain yn gamblwyr. Nid yw pa mor gyflawn yw'r wybodaeth ynghylch gamblo ond yn berthnasol i gleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr. O ran y mwyafrif o'r eitemau data, mae bron i 100% ohonynt yn gyflawn, sy'n golygu bod y data'n gynrychioladol o'r boblogaeth hon sy'n derbyn triniaeth, sy'n lleihau unrhyw debygolrwydd o duedd ac sy'n dilysu cymariaethau rhwng cyfnodau amser ac is-samplau.

**Tabl 1 Lefel gwblhau meysydd data penodol**

| Eitem ddata | Lefel gwblhau |
|---|---|
| Rheswm dros yr atgyfeiriad | 100% |
| Ffynhonnell yr atgyfeiriad | 100% |
| Rhyw | 97.4% |
| Ethnigrwydd | 99.4% |
| Statws cyflogaeth | 98.6% |
| Statws o ran perthynas | 98.6% |
| Prif weithgaredd gamblo | 93.4% |
| Arian a gaiff ei wario ar gamblo | 99.0% |
| Colli swydd | 98.4% |
| Perthynas yn chwalu | 99.0% |
| Ennill swm mawr o arian yn gynnar | 98.7% |
| Dyled o ganlyniad i gamblo | 96.4% |
| Hanes gamblo'r cleient yn nhermau amser | 94.4% |
| Oedran dechrau (o ran gamblo problemus) | 97.0% |
| Nifer y diwrnodau yn gamblo bob mis | 89.8% |

# 8 Nodweddion cleientiaid

Cafodd cyfanswm o 347 o unigolion, sy'n preswylio yng Nghymru, eu trin gan wasanaethau gamblo sy'n darparu data i'r FfAD o fewn 2020/21.

Roedd mwyafrif (88%) y rheiny a welwyd gan wasanaethau gamblo yn gamblwyr (305). Fodd bynnag, roedd 37 (11%) o atgyfeiriadau'n ymwneud â 'rhai eraill a effeithir', hynny yw, unigolion nad ydynt o reidrwydd yn gamblwyr ond y cafodd eu bywydau eu heffeithio gan y rheiny sy'n gamblwyr. Roedd nifer fechan (5, 1%) o atgyfeiriadau'n ymwneud ag unigolion a oedd mewn perygl o ddatblygu problem gamblo (gweler adran 6). Caiff pob cleient ei gynnwys mewn dadansoddiadau o nodweddion cleientiaid a'u hymgysylltiad â thriniaeth, ond dim ond cleientiaid y nodwyd eu bod yn gamblwyr a gynhwysir mewn dadansoddiadau o weithgareddau gamblo cleientiaid a'u hanes o ran arferion gamblo.

## 8.1 Oedran a rhyw cleientiaid

Roedd gan gleientiaid oedran cyfartalog (canolrifol) o 34 mlwydd oed ar adeg eu hatgyfeirio, gyda thri chwarter (75%) yn 44 oed neu iau. Adroddwyd y niferoedd uchaf yn y bandiau oedran 25-29 oed a 30-34 oed, sy'n cyfrif am 39% o gyfanswm y cleientiaid. Roedd gan gleientiaid ar wahân i gamblwyr oedran canolrifol o 44 oed ac roeddynt yn fwy tebygol o fod yn y bandiau oedran dros 50 oed.

Roedd mwyafrif y cleientiaid yn wrywod (66%). Mae hyn yn cymharu â 49% yn y boblogaeth yn gyffredinol yng Nghymru [13]. Mae'r dosbarthiad oedran yn wahanol i ryw raddau yn ôl rhyw (Tabl 2), gydag oedran canolrifol o 37 oed i fenywod o gymharu â 33 oed ar gyfer gwrywod. Cafwyd cryn wahaniaeth o ran rhyw yn ôl math y cleient, gyda 74% o gamblwyr yn wrywaidd o gymharu â dim ond 10% o gleientiaid eraill.

**Tabl 2 Oedran a rhyw cleientiaid**

| | | Gwryw | | | Benyw | | | Cyfanswm* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | Col % | Rhes % | N | Col % | Rhes % | N | Col % | Rhes % |
| **Bandiau oedran** | < 20 | 4 | 1.8% | 80.0% | 1 | 0.9% | 20.0% | 5 | 1.5% | 100.0% |
| | 20-24 | 36 | 16.2% | 92.3% | 3 | 2.7% | 7.7% | 39 | 11.7% | 100.0% |
| | 25-29 | 40 | 18.0% | 69.0% | 18 | 16.1% | 31.0% | 58 | 17.4% | 100.0% |
| | 30-34 | 44 | 19.8% | 62.0% | 27 | 24.1% | 38.0% | 71 | 21.3% | 100.0% |
| | 35-39 | 35 | 15.8% | 71.4% | 14 | 12.5% | 28.6% | 49 | 14.7% | 100.0% |
| | 40-44 | 23 | 10.4% | 74.2% | 8 | 7.1% | 25.8% | 31 | 9.3% | 100.0% |
| | 45-49 | 15 | 6.8% | 71.4% | 6 | 5.4% | 28.6% | 21 | 6.3% | 100.0% |
| | 50-54 | 13 | 5.9% | 52.0% | 12 | 10.7% | 48.0% | 25 | 7.5% | 100.0% |
| | 55-59 | 5 | 2.3% | 33.3% | 10 | 8.9% | 66.7% | 15 | 4.5% | 100.0% |
| | 60+ | 7 | 3.2% | 35.0% | 13 | 11.6% | 65.0% | 20 | 6.0% | 100.0% |
| | Total* | 222 | 100.0% | 66.5% | 112 | 100.0% | 33.5% | 334 | 100.0% | 100.0% |

*ni chynhwysir y rheiny lle nad yw'r oedran neu ryw wedi'i gofnodi neu lle bo'r categori rhyw yn cynnwys llai na 5

13 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2020

## 8.2 Ethnigrwydd cleientiaid

Roedd bron pob un o'r cleientiaid (96%) o gefndir ethnig Gwyn (Tabl 3) yr oedd 93% ohonynt yn Wyn Prydeinig. Y cefndir ethnig a adroddwyd fwyaf wedyn oedd Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (2%) a Du neu Ddu Prydeinig (2%). Mae hyn yn cymharu â chyfrannau cenedlaethol (Cymru)[14] o 96% yn Wyn neu Wyn Prydeinig, 2% yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a 1% yn Ddu neu Ddu Prydeinig.

**Tabl 3 Ethnigrwydd cleientiaid**

| | | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu Wyn Prydeinig** | Prydeinig | 282 | 93.1% | 38 | 90.5% | 320 | 92.8% |
| | Gwyddelig | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Ewropeaidd | 4 | 1.3% | 0 | 0.0% | 4 | 1.2% |
| | Arall | 4 | 1.3% | 2 | 4.8% | 6 | 1.7% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | Affricanaidd | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| | Caribïaidd | 1 | 0.3% | 1 | 2.4% | 2 | 0.6% |
| | Arall | 4 | 1.3% | 0 | 0.0% | 4 | 1.2% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig;** | Bangladeshaidd | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| | Indiaidd | 3 | 1.0% | 0 | 0.0% | 3 | 0.9% |
| | Pacistanaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Tsieinïaidd | 2 | 0.7% | 1 | 2.4% | 3 | 0.9% |
| | Arall | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cymysg** | Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Gwyn a Du Affricanaidd | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Gwyn a Caribïaidd Du | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| | Arall | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| **Grŵp ethnig arall** | | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | | 303 | 100.0% | 42 | 100.0% | 345 | 100.0% |
| **Ar goll** | | 2 | | 0 | | 2 | |
| **Cyfanswm y Cleientiaid** | | 305 | | 42 | | 347 | |

## 8.3 Statws cyflogaeth cleientiaid

Roedd mwyafrif y cleientiaid yn gyflogedig (68%). Y statws cyflogaeth a adroddwyd fwyaf wedyn oedd y di-waith (11%) a rhai a oedd yn analluog i weithio oherwydd salwch (11%), ac wedyn rhai a oedd wedi ymddeol (4%), yn cadw tŷ (4%) ac yn fyfyrwyr (2%).

14 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2011 y DU.

Tabl 4 Statws cyflogaeth cleientiaid

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| Cyflogedig | 206 | 68.7% | 28 | 66.7% | 234 | 68.4% |
| Di-waith | 35 | 11.7% | 1 | 2.4% | 36 | 10.5% |
| Myfyriwr | 7 | 2.3% | 0 | 0.0% | 7 | 2.0% |
| Analluog i weithio oherwydd salwch | 36 | 12.0% | 1 | 2.4% | 37 | 10.8% |
| Cadw tŷ | 7 | 2.3% | 5 | 11.9% | 12 | 3.5% |
| Ddim yn chwilio am waith | 0 | 0.0% | 1 | 2.4% | 1 | 0.3% |
| Carchar-gofal | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| Gwirfoddolwr | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| Wedi ymddeol | 7 | 2.3% | 6 | 14.3% | 13 | 3.8% |
| Cyfanswm | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| Ar goll | 5 | | 42 | 0 | 2 | |
| Cyfanswm y cleientiaid | 305 | | 42 | | 347 | |

## 8.4 Proffil Gamblo

Nid yw adran 8.4 ond yn adrodd gwybodaeth a gasglwyd gan gleientiaid a oedd yn adrodd bod eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo.

### 8.4.1 Lleoliadau Gamblo

Caiff hyd at dri gweithgaredd gamblo (penodol yn ôl lleoliad) eu cofnodi ar gyfer pob cleient, a chaiff y rhain eu rhestru yn ôl eu harwyddocâd. Y lleoliad mwyaf cyffredin a adroddwyd ar gyfer gamblo (Tabl 5) oedd ar-lein, a ddefnyddiwyd gan 83% o gamblwyr a ddarparodd y wybodaeth hon. Siopau Betio oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o leoliad, a ddefnyddiwyd gan 21% o gamblwyr, ac wedyn casinos (12%). Ni ddefnyddiwyd yr un lleoliad arall gan fwy na 10% o gamblwyr.

Dengys Tabl 5 leoliadau'r prif weithgaredd gamblo ac, unwaith eto, mae'n dangos mai gwasanaethau ar-lein yw'r rhai mwyaf cyffredin, ac wedyn Siopau Betio. Mae'r ddau leoliad hwn yn cyfrif am y mwyafrif o weithgareddau gamblo, sef 87%.

### Tabl 5 Lleoliad gweithgaredd gamblo a adroddwyd yn 2020/21

| | Unrhyw gamblo yn y lleoliad hwn | % | Prif leoliad gamblo | % |
|---|---|---|---|---|
| **Ar-lein** | 237 | 83.2% | 221 | 77.5% |
| **Siopau Betio** | 60 | 21.1% | 28 | 9.8% |
| **Casino** | 33 | 11.6% | 6 | 2.1% |
| **Amrywiol** | 12 | 4.2% | 19 | 6.7% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion**[15] | 11 | 3.9% | 9 | 3.2% |
| **Tafarn** | 3 | 1.1% | 1 | 0.4% |
| **Neuadd Bingo** | 2 | 0.7% | 1 | 0.4% |
| **Arall** | 2 | 0.7% | 0 | 0.0% |
| **Canolfan Adloniant i'r Teulu** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Clwb Aelodau Preifat** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Digwyddiadau Byw** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 285 | | 285 | |
| **Ar goll** | 20 | | 20 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 305 | | 305 | |

### 8.4.2 Gweithgareddau gamblo

Dengys Tabl 6, o fewn gwasanaethau ar-lein, mae slotiau casino oedd y gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin, a ddefnyddiwyd gan 32% o gamblwyr yn gyffredinol (sy'n golygu mai hwn yw'r gweithgaredd unigol mwyaf cyffredin a adroddwyd), ac wedyn digwyddiadau chwaraeon (23%) a gemau bwrdd casino (14%). O fewn siopau betio, peiriannau gemau oedd y math mwyaf cyffredin o gamblo, a ddefnyddiwyd gan 7% o gamblwyr, ac wedyn digwyddiadau chwaraeon (5%) a cheffylau (3%).

15 Fel y'u gelwir hefyd yn Ganolfanau Gemau i Oedolion (GGO/AGC)

## Tabl 6 Gweithgareddau gamblo, wedi'u grwpio yn ôl lleoliad

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Siopau Betio** | | | |
| Peiriant Gemau (FOBT) | 20 | 7.0% | 33.3% |
| Digwyddiad chwaraeon neu arall | 13 | 4.6% | 21.7% |
| Ceffylau | 9 | 3.2% | 15.0% |
| Cŵn | 3 | 1.1% | 5.0% |
| Peiriant Gemau (arall) | 1 | 0.4% | 1.7% |
| Arall | 19 | 6.7% | 31.7% |
| Neuadd Bingo | | | |
| Lotri Byw | 2 | 0.7% | 100.0% |
| Peiriant Gemau | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Peiriant Sgiliau | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Terfynell | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Arall | 0 | 0.0% | 0.0% |
| **Casino** | | | |
| Rwlét | 7 | 2.5% | 58.3% |
| Peiriant Gemau (nid FOBT) | 3 | 1.1% | 25.0% |
| Gemau cardiau ar wahan i bocerj | 1 | 0.4% | 8.3% |
| Pocer | 1 | 0.4% | 8.3% |
| Peiriant Gemau (FOBT) | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Arall | 0 | 0.0% | 0.0% |
| **Digwyddiadau Byw** | | | |
| Ceffylau | 0 | 0.0% | |
| Cŵn | 0 | 0.0% | |
| Chwaraeon neu ddigwyddiad arall | 0 | 0.0% | |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | | | |
| Peiriant Gemau (nid FOBT) | 11 | 3.9% | 100.0% |
| Peiriant Gemau (FOBT) | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Peiriannau gwobrwyo sgiliau | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Arall | 0 | 0.0% | 0.0% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | | | |
| Peiriant Gemau (nid FOBT) | 0 | 0.0% | |
| Peiriant Gemau (FOBT) | 0 | 0.0% | |
| Arall | 0 | 0.0% | |

| Lleoliad Gweithgaredd | N | % ymysg y gamblwyr gamblers | % o fewn y lleoliad location |
|---|---|---|---|
| **Tafarn** | | | |
| Peiriant Gamblo (arall) | 2 | 0.7% | 100.0% |
| Pocer | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Chwaraeon | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Arall | 0 | 0.0% | 0.0% |
| **Ar-lein** | | | |
| Casino (slotiau) | 92 | 32.3% | 38.8% |
| Digwyddiadau chwaraeon | 64 | 22.5% | 27.0% |
| Casino (gemau bwrdd) | 40 | 14.0% | 16.9% |
| Gwasgar-fetio | 27 | 9.5% | 11.4% |
| Ceffylau | 15 | 5.3% | 6.3% |
| Bingo | 10 | 3.5% | 4.2% |
| Pocer | 7 | 2.5% | 3.0% |
| Cardiau crafu | 1 | 0.4% | 0.4% |
| Cyfnewidfa fetio | 1 | 0.4% | 0.4% |
| Cŵn | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Arall | 16 | 5.6% | 6.8% |
| **Amrywiol** | | | |
| Cardiau crafu | 19 | 6.7% | 57.6% |
| Loteri (Cenedlaethol) | 6 | 2.1% | 18.2% |
| Loteri (arall) | 4 | 1.4% | 12.1% |
| Pŵls Pêl-droed | 3 | 1.1% | 9.1% |
| Peiriant gemau mewn gorsafoedd gwasanaeth | 3 | 1.1% | 9.1% |
| Gemau preifat/ wedi'u trefnu | 1 | 0.4% | 3.0% |
| **Clwb aelodau preifat** | | | |
| Pocer | 0 | 0.0% | |
| Peiriant Gemau | 0 | 0.0% | |
| Gemau cardiau eraill | 0 | 0.0% | |
| Lleoliad arall | 3 | 1.1% | |
| **Cyfanswm** | 285 | | |
| **Ar goll** | 20 | | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 305 | | |

Gall y %au ddod i gyfanswm > 100%

### 8.4.3 Hanes Gamblo

Lle bo hynny'n hysbys, roedd y mwyafrif o'r gamblwyr (60%) wedi cael y profiad o ennill swm mawr o arian yn gynnar yn eu hanes o ran gamblo. Ymysg y rheiny a ddarparodd ymateb i'r cwestiwn, roedd 16% wedi colli swydd o ganlyniad i'w gamblo a 33% wedi profi perthynas yn chwalu oherwydd eu gamblo.

Nid oedd gan dros bedwar o bob deg gamblwr (42%) unrhyw ddyled o ganlyniad i gamblo ar adeg yr asesiad (Tabl 7). Fodd bynnag, roedd gan 24% ddyledion o hyd at £5,000 ac roedd gan 34% ddyledion o dros £5,000 neu roeddynt yn fethdalwyr neu wedi cytuno i Drefniant Gwirfoddol Unigol (IVA).

**Tabl 7 Dyled o ganlyniad i gamblo**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Dim dyled** | 120 | 42.0% |
| **O dan £5000** | 68 | 23.8% |
| **£5000-£9,999** | 23 | 8.0% |
| **£10,000-£14,999** | 22 | 7.7% |
| **£15,000-£19,999** | 22 | 7.7% |
| **£20,000-£99,999** | 26 | 9.1% |
| **£100,000 neu ragor** | 0 | 0.0% |
| **Methdaliad** | 1 | .3% |
| **Mewn IVA** | 4 | 1.4% |
| **Cyfanswm** | 286 | |
| **Ar goll** | 19 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 305 | |

Ar gyfartaledd (canolrif), roedd gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau pan oeddynt yn 25 oed, er bod hyn yn amrywio'n fawr. Roedd tri chwarter y gamblwyr yn adrodd bod eu gamblo problemus wedi dechrau erbyn iddynt fod yn 32 oed, a chwarter ohonynt erbyn iddynt fod yn 18 oed. Ar adeg eu cyflwyno i'r gwasanaethau gamblo, bu gamblwyr yn gamblo (i raddau problemus) am naw mlynedd ar gyfartaledd (canolrif).

### 8.4.4 Arian sy'n cael ei wario ar gamblo

Roedd gamblwyr yn adrodd eu bod wedi gwario £100 ar gyfartaledd (canolrif) yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad. Gan fod rhai gamblwyr yn gwario ar lefelau sylweddol uwch, mae'r gwerth cymedrig yn uwch, ar lefel o £298 y dydd. Roedd pum deg naw y cant wedi gwario hyd at £100 yn ystod pob diwrnod y buont yn gamblo yn ystod y 30 diwrnod cyn eu hasesiad (Tabl 8), roedd 14% wedi gwario rhwng £100 a £200, 18% wedi gwario rhwng £200 a £500 a 10% wedi gwario dros £500.

### Tabl 8 Gwariant cyfartalog ar ddiwrnodau gamblo

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 179 | 59.3% |
| **Hyd at £200** | 41 | 13.6% |
| **Hyd at £300** | 34 | 11.3% |
| **Hyd at £400** | 6 | 2.0% |
| **Hyd at £500** | 13 | 4.3% |
| **Hyd at £1000** | 11 | 3.6% |
| **Hyd at £2000** | 10 | 3.3% |
| **Dros £2000** | 8 | 2.6% |
| **Cyfanswm** | 302 | 100.0% |
| **Ar goll** | 3 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 305 | |

Yn ystod y mis blaenorol, roedd gamblwyr wedi adrodd eu bod yn gwario canolrif o £600 ynghyd â chymedr o £1,850 ar gamblo. Roedd ychydig dros hanner (59%) y gamblwyr wedi gwario hyd at £1,000 yn ystod y mis blaenorol, gyda 41% yn gwario dros £1,000 (Tabl 9). Roedd un o bob pump o'r gamblwyr (20%) yn adrodd eu bod wedi gwario dros £2000 yn ystod y mis blaenorol.

### Tabl 9 Gwariant a adroddwyd ar gamblo yn y mis cyn cael triniaeth

| | N | % |
|---|---|---|
| **Hyd at £100** | 26 | 8.6% |
| **Hyd at £200** | 19 | 6.3% |
| **Hyd at £300** | 30 | 9.9% |
| **Hyd at £400** | 11 | 3.6% |
| **Hyd at £500** | 50 | 16.6% |
| **Hyd at £1000** | 43 | 14.2% |
| **Hyd at £2000** | 64 | 21.2% |
| **Dros £2000** | 59 | 19.5% |
| **Cyfanswm** | 302 | 100.0% |
| **Ar goll** | 3 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 305 | |

# 9 Mynediad at Wasanaethau

## 9.1 Ffynhonnell yr atgyfeiriad ar gyfer cael triniaeth

Cafodd mwyafrif pendant o'r atgyfeiriadau (90%) eu gwneud gan y cleientiaid eu hunain. Roedd ymddiriedolaethau iechyd meddwl a 'gwasanaethau neu asiantaethau eraill' yn cyfrif am 6% o'r atgyfeiriadau a Meddygon Teulu/gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol eraill, yn cyfrif am 2% ohonynt rhyngddynt (Tabl 11). Roedd ffynonellau eraill yn cyfrif am lai na chyfanswm o 4% o'r atgyfeiriadau.

**Tabl 11 Ffynhonnell yr atgyfeiriad o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn 2020/21, yn ôl y math o gleient**

| | Cleient sy'n gamblo | | Cleient arall | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Hunanatgyfeiriad** | 270 | 88.5% | 41 | 97.6% | 311 | 89.6% |
| **Gwasanaeth neu asiantaeth arall** | 11 | 3.6% | 0 | 0.0% | 11 | 3.2% |
| **Iechyd Meddwl, Ymddiriedolaeth GIG** | 5 | 1.6% | 1 | 2.4% | 6 | 1.7% |
| **Gofal iechyd sylfaenol arall** | 6 | 2.0% | 0 | 0.0% | 6 | 1.7% |
| **Gwasanaethau cymdeithasol** | 4 | 1.3% | 0 | 0.0% | 4 | 1.2% |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl yn y sector annibynnol** | 2 | 0.7% | 0 | 0.0% | 2 | 0.6% |
| **Yr heddlu** | 2 | 0.7% | 0 | 0.0% | 2 | 0.6% |
| **Meddyg Teulu** | 2 | 0.7% | 0 | 0.0% | 2 | 0.6% |
| **Carchar** | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| **Gwasanaeth Prawf** | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| **Gofalwr** | 1 | 0.3% | 0 | 0.0% | 1 | 0.3% |
| **Cyfanswm** | 305 | | 42 | | 347 | |

## 9.2 Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf

Cyfrifiwyd yr amser aros fel yr amser rhwng dyddiad yr atgyfeiriad a'r apwyntiad cyntaf a gofnodwyd. O ran cleientiaid a driniwyd yn ystod 2020/21, cafodd 50% o'r cleientiaid apwyntiad o fewn diwrnod, a 75% o fewn pedwar diwrnod.

## 9.3 Cyfnod yr amser y derbyniwyd triniaeth

Ymysg yr holl gleientiaid a oedd wedi derbyn a diweddu eu triniaeth yn ystod 2020/21, roedd eu triniaeth yn para am gyfartaledd (canolrif) o wyth wythnos. Derbyniodd chwarter y cleientiaid driniaeth am bum wythnos neu lai, derbyniodd hanner y cleientiaid driniaeth am rhwng 5 a 11 wythnos, a derbyniodd chwarter y cleientiaid driniaeth am dros 11 wythnos.

# 10 Canlyniadau'r Driniaeth

Ymysg y cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2020/21, roedd 72 (21%) yn dal i dderbyn triniaeth ddiwedd Mawrth 2021, tra bo 275 (79%) wedi gadael y driniaeth cyn diwedd Mawrth 2021. Cyflwynwyd canlyniadau'r driniaeth ar gyfer y cleientiaid hynny a ryddhawyd o fewn y cyfnod hwn er mwyn cynrychioli eu statws ar ddiwedd y driniaeth.

## 10.1 Y rhesymau dros adael triniaeth

Roedd mwyafrif y cleientiaid (78%) a oedd wedi gadael eu triniaeth o fewn 2020/21 wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd. Dim ond 16% a oedd wedi rhoi'r gorau i'r driniaeth cyn yr adeg yr oedd i fod i orffen. Cafodd cyfran lai ohonyn nhw eu cyfeirio ymlaen neu eu rhyddhau'n gynnar trwy gytundeb (4%). Roedd cyfraddau'r rheiny a oedd wedi cwblhau a rhoi'r gorau i'w triniaeth yn debyg rhwng gamblwyr a chleientiaid eraill.

**Tabl 12 Rhesymau dros adael triniaeth o ran cleientiaid a dderbyniodd driniaeth o fewn 2020/21**

| | Cleient sy'n gamblo | | Cleient arall | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 185 | 78.1% | 28 | 73.7% | 213 | 77.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 40 | 16.9% | 5 | 13.2% | 45 | 16.4% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 8 | 3.4% | 1 | 2.6% | 9 | 3.3% |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 3 | 1.3% | 0 | 0.0% | 3 | 1.1% |
| **Ddim yn hysbys** | 1 | 0.4% | 4 | 10.5% | 5 | 1.8% |
| **Ymadawedig** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 237 | 100.0% | 38 | 100.0% | 275 | 100.0% |

## 10.2 Sgorau Difrifoldeb

### 10.2.1 Sgorau difrifoldeb sylfaenol

Caiff dau fesur difrifoldeb eu cofnodi'n rheolaidd o fewn apwyntiadau, sef, yn benodol, y Mynegrif Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI) a'r sgôr CORE-10.

**MDGP**

Mae'r MDGP yn adnodd wedi'i ddilysu[16] a ddefnyddir yn yr Arolwg Iechyd Lloegr, Arolwg Iechyd yr Alban a'r Arolwg o Gamblo Problemus yng Nghymru. Mae'r MDGP yn cynnwys naw eitem a chaiff pob eitem ei hasesu ar raddfa pedwar pwynt, sy'n rhoi cyfanswm sgôr o rhwng sero a 27 pwynt.

Mae sgôr MDGP o wyth neu ragor yn cynrychioli unigolyn sy'n gamblwr problemus. Mae sgorau o rhwng tri a saith yn cynrychioli unigolion y dosbarthwyd eu bod mewn perygl canolig o broblemau gamblo (gamblwyr sy'n profi lefel ganolig o broblemau sy'n arwain at rai canlyniadau negyddol) ac mae sgôr o un neu ddau'n cynrychioli unigolion sydd mewn perygl isel o broblemau gamblo (gamblwyr sy'n profi lefel isel o broblemau gydag ychydig neu ddim canlyniadau negyddol wedi'u nodi).

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cynharaf ar gyfer gamblwyr a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2020/21, cofnodwyd sgôr MDGP ar gyfer 94% o gamblwyr. Ymysg y rhain (Tabl 13), roedd y mwyafrif (98%) wedi cofnodi sgôr MDGP o 8 neu ragor. Diffiniwyd cyfran lawer is fel gamblwyr a chanddynt risg canolig neu isel (2%), ac ni chafodd yr un ohonyn nhw eu diffinio fel rhai nad oedd ganddynt broblem. Ymysg y rheiny yn y categori MDGP uchaf, roedd y sgôr MDGP cymedrig yn 22, sydd gryn dipyn yn uwch na'r lleiafswm o wyth ar gyfer y categori hwn.

**Tabl 13 Categori difrifoldeb MDGP yn yr apwyntiad cynharaf**

| | N | % |
|---|---|---|
| **Dim problem (0)** | 0 | 0.0% |
| **Risg isel (1-2)** | 1 | 0.3% |
| **Risg canolig (3-7)** | 4 | 1.4% |
| **Sgôr o 8+** | 281 | 98.3% |
| **Cyfanswm** | 286 | 100.0% |
| **Ar goll** | 19 | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 305 | |

**CORE-10**

Mae'r CORE-10 yn holiadur 10 eitem byr sy'n cynnwys yr eitemau a ganlyn: Gorbryder (2 eitem), iselder (2 eitem), trawma (1 eitem), problemau corfforol (1 eitem), y modd y mae'n gweithredu (3 eitem – o ddydd i ddydd, perthnasau agos, perthnasau cymdeithasol) ynghyd â'r risg i'w hunan (1 eitem). Mae gan y mesur 6 dwysedd/difrifoldeb uchel a 4 eitem dwysedd /difrifoldeb isel, a gaiff eu sgorio'n unigol ar raddfa o 0 i 4. Byddai sgôr o 40 (yr uchafswm) yn cael ei ddosbarthu fel gofid difrifol, 25 = canolig i ddifrifol, 20 = canolig, 15 = ysgafn, gyda 10 neu lai yn is na'r torbwynt clinigol.

16 Mae'r MDGP yn adnodd sgrinio wedi'i ddilysu ar lefel poblogaeth. Dylid nodi na chafodd y MDGP ei ddylunio fel adnodd clinigol, neu fel mesur canlyniadau ar gyfer triniaeth. Ni ellir dehongli'r MDGP yn uniongyrchol fel meincnod ar gyfer effeithiolrwydd triniaeth, gan na ellir cipio canlyniadau tymor hwy. Fodd bynnag, yn absenoldeb mesur clinigol sydd wedi'i gytuno'n gyffredinol, mae'r MDGP yn darparu dangosydd ar gyfer niwed gamblo a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Ar adeg yr apwyntiad hysbys cyntaf ar gyfer cleientiaid a dderbyniodd driniaeth yn ystod 2020/21, cofnodwyd sgôr CORE-10 ar gyfer 94% o'r cleientiaid (Tabl 14). Ymysg y cleientiaid hyn, sgoriwyd bod 36% yn ddifrifol, gyda sgorau eraill wedi'u dosbarthu'n gymharol gyfartal ar draws y categorïa canolig-i-ddifrifol (22%) neu ganolig (21%), gyda 14% wedi'u sgorio'n ysgafn a 7% yn sgorio'n is na'r torbwynt clinigol. Roedd gamblwyr ychydig yn fwy tebygol na chleientiaid eraill i sgorio'n ddifrifol (40% o gymharu â 12%).

**Tabl 14 Categori difrifoldeb CORE-10 yn yr apwyntiad cynharaf**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Is na'r torbwynt clinigol** | 15 | 5.2% | 9 | 22.0% | 24 | 7.3% |
| **Ysgafn** | 37 | 12.9% | 7 | 17.1% | 44 | 13.5% |
| **Canolig** | 57 | 19.9% | 12 | 29.3% | 69 | 21.1% |
| **Canolig ddifrifol** | 64 | 22.4% | 8 | 19.5% | 72 | 22.0% |
| **Difrifol** | 113 | 39.5% | 5 | 12.2% | 118 | 36.1% |
| **Cyfanswm** | 286 | 100.0% | 41 | 100.0% | 327 | 100.0% |
| **Ar goll** | 19 | | 1 | | 20 | |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 305 | | 42 | | 347 | |

### 10.2.2 Newid mewn sgorau difrifoldeb

Gan fod sgorau MDGP a CORE-10 yn cael eu cofnodi ym mhob apwyntiad, mae'n bosib adrodd am unrhyw newidiadau i'r sgorau hyn dros gyfnod o amser. Defnyddir tri dull i'w hadrodd yma: y newid cyffredinol yn y sgorau, cynnydd a gostyngiadau yn y sgorau, a newidiadau rhwng categorïau difrifoldeb. Caiff newidiadau eu hadrodd fel y rheiny rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf o fewn cyfnod o driniaeth a dderbynnir gan gleient, ac felly os derbyniodd cleient sawl cyfnod o driniaeth (gan un neu ragor o ddarparwyr), efallai na fydd y sgorau'n adlewyrchu'r newid cronnol dros eu hanes cyfan o driniaeth.

#### MDGP

Cyfrifwyd newidiadau mewn sgorau MDGP ar gyfer cleientiaid a oedd wedi cwblhau eu triniaeth cyn diwedd Mawrth 2020 (gweler adran 8.1). Rhwng yr apwyntiad cynharaf a diweddaraf o fewn cyfnod o driniaeth lle cafod sgorau MDGP eu cofnodi, roedd cleientiaid wedi cyflawni gwelliant, ar gyfartaledd (canolrif), o 16 pwynt ar raddfa'r MDGP.

Mae Tabl 15 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau MDGP, gyda'r mwyafrif (83%) yn gwella cyn rhwng dechrau a cwblhau'r driniaeth, roedd 15% yn dangos dim newid, a lleiafrif bach (3%) yn cofnodi sgôr difrifoldeb uwch yn yr apwyntiad diweddaraf. Roedd gamblwyr (43%) yn fwyaf tebygol o gyflawni gwelliant o 19-27 pwynt, gyda 27% arall yn cyflawni gwelliant o 10-19 pwynt.

Dengys Tabl 16 y newidiadau yn sgorau'r MDGP yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid. Roedd diffyg newid mewn sgorau'n fwy tebygol o ran y rheiny nad oeddynt wedi cwblhau eu triniaeth. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (94%).

### Tabl 15 Newidiadau mewn sgorau MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf

| | N | % |
|---|---|---|
| **Gwelliant o 19- 27 pwynt** | 100 | 42.7% |
| **Gwelliant o 10- 19 pwynt** | 62 | 26.5% |
| **Gwelliant o 1- 9 pwynt** | 32 | 13.7% |
| **Dim newid** | 34 | 14.5% |
| **Wedi cynyddu: 1 to 9 pwynt** | 6 | 2.6% |
| **Wedi cynyddu: 10-18 pwynt** | 0 | 0.0% |
| **Wedi cynyddu: 19 i 27 pwynt** | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 234 | 100.0% |
| **Ar goll** | 3 | |
| **Cyfanswm** | 237 | |

### Tabl 16 Cyfeiriad y newid mewn sgôr MDGP rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau

| | Gwaeth | | Dim newid | | Gwell | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 0 | 0.0% | 2 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 5 | 2.7% | 7 | 3.8% | 172 | 93.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 1 | 2.6% | 18 | 46.2% | 20 | 51.3% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 0 | 0.0% | 2 | 50.0% | 2 | 50.0% |

Dengys Tabl 17 y categori diweddaraf a gofnodwyd o ran difrifoldeb cyn diwedd y driniaeth o gymharu â'r cynharaf yn Nhabl 13. Ar y pwynt hwn, roedd cyfran lawer is o gleientiaid (25%) yn dal i fod gyda sgôr MDGP[17]

o wyth neu ragor. Roedd tua thraean (32%) o'r gamblwyr yn cael eu diffinio bellach fel rhai a chanddynt 'ddim problem', gyda'r gweddill yn cael eu diffinio fel rhai a chanddynt risg isel (27%) neu ganolig (16%).

### Tabl 17 Categori difrifoldeb MDGP diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth

| | N. Cleientiaid | % | Sgôr cymedrig |
|---|---|---|---|
| **Dim problem (0)** | 75 | 32.1% | 0 |
| **Risg isel (1-2)** | 64 | 27.4% | 1.3 |
| **Risg canolig (3-7)** | 37 | 15.8% | 4.3 |
| **Sgôr o 8+** | 58 | 24.8% | 18.7 |
| **Cyfanswm** | 234 | 100.0% | 5.7 |
| **Ar goll** | 3 | | |
| **Cyfanswm y gamblwyr** | 237 | | |

17 Gan fod y dosbarthiad MDGP uchaf yn sgôr o fewn yr ystod o rhwng 8 a 27, bydd llawer o gleientiaid y maent yn dal i fod wedi'u dosbarthu felly ar ddiwedd cyfnod penodol o driniaeth yn dal i fod wedi profi gostyngiad yn eu sgôr MDGP, er nad yw'n un a fyddai'n ddigonol i'w tynnu o'r categori hwn.

### CORE-10

Cyfrifwyd sgôr CORE-10 ar gyfer cleientiaid a oedd wedi diweddu eu triniaeth o fewn y cyfnod hwn. Rhwng yr apwyntiad cynharaf a diweddaraf o fewn y cyfnodau triniaeth y cofnodwyd sgorau CORE-10 ar eu cyfer, cafwyd gwelliant yn sgorau'r cleientiaid, ar gyfartaledd (cymedrig), o 13 pwynt ar y raddfa CORE-10 (9 pwynt o ran cleientiaid ar wahân i gamblwyr).

Mae Tabl 18 yn crynhoi cyfeiriad a graddau'r newid mewn sgorau CORE-10 gyda'r mwyafrif (80%) yn gwella o fewn y driniaeth, ond gyda 15% yn dangos dim newid a lleiafrif bach (5%) yn cofnodi sgôr difrifoldeb uwch yn eu hapwyntiad diweddaraf, o gymharu â'u hapwyntiad cynharaf. Roedd y gwelliant mwyaf a gofnodwyd (58%) yn welliant o rhwng un ac 20 pwynt. Roedd gamblwyr yn llawer mwy tebygol na chleientiaid eraill i fod wedi gwneud gwelliant o fwy nag 20 pwynt.

Dengys Tabl 19 y newidiadau hyn yn y sgorau CORE-10 yn ôl y rheswm dros ryddhau cleientiaid o driniaeth. Roedd diffyg newid mewn sgôr yn llawer mwy tebygol o ran y rheiny nad oeddent wedi cwblhau eu triniaeth. O ran y rheiny a oedd wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd, cofnodwyd sgorau gwell ar gyfer y mwyafrif ohonynt (92%).

**Tabl 18 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % |
| **Gwelliant o 31-40 pwynt** | 11 | 4.7% | 0 | 0.0% | 11 | 4.1% |
| **Gwelliant o 21-30 pwynt** | 49 | 21.0% | 2 | 5.3% | 51 | 18.8% |
| **Gwelliant o 11-20 pwynt** | 78 | 33.5% | 16 | 42.1% | 94 | 34.7% |
| **Gwelliant o 1-10 pwynt** | 52 | 22.3% | 10 | 26.3% | 62 | 22.9% |
| **Dim newid** | 33 | 14.2% | 8 | 21.1% | 41 | 15.1% |
| **Cynnydd o 1-10 pwynt** | 10 | 4.3% | 1 | 2.6% | 11 | 4.1% |
| **Cynnydd o 11-20 pwynt** | 0 | 0.0% | 1 | 2.6% | 1 | 0.4% |
| **Cynnydd o 21-30 pwynt** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cynnydd o 31-40 pwynt** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm** | 233 | 100.0% | 38 | 100.0% | 271 | 100.0% |

**Tabl 19 Cyfeiriad y newid mewn sgôr CORE-10 rhwng yr apwyntiadau cynharaf a diweddaraf yn ôl y rheswm dros ryddhau**

| | Gwaeth | | Dim newid | | Gwell | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 0 | 0.0% | 2 | 100.0% | 0 | 0.0% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 9 | 4.3% | 7 | 3.3% | 194 | 92.4% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 3 | 6.7% | 20 | 44.4% | 22 | 48.9% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 0 | 0.0% | 7 | 77.8% | 2 | 22.2% |

Dengys Tabl 20 y categori difrifoldeb diweddaraf a gofnodwyd cyn diwedd y driniaeth, o gymharu

â'r un cynharaf Tabl 14. Ar y pwynt hwn, roedd cyfran is o gleientiaid (7%) yn dal i gael eu dosbarthu yn y categori 'Difrifol'. Roedd mwyafrif y cleientiaid (63%) yn cael eu diffinio bellach fel rhai a oedd yn 'is na'r torbwynt clinigol ', gyda'r mwyafrif o'r gweddill yn cael eu diffinio yn y categorïau ysgafn (14%) neu ganolig (9%).

**Tabl 20 Categori difrifoldeb CORE-10 diweddaraf a gofnodwyd o fewn y driniaeth**

| | Cleientiaid sy'n gamblo | | Cleientiaid eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | N | % | N | % |
| **Is na'r torbwynt clinigol** | 150 | 64.4% | 23 | 60.5% | 173 | 63.8% |
| **Ysgafn** | 31 | 13.3% | 8 | 21.1% | 39 | 14.4% |
| **Canolig** | 21 | 9.0% | 4 | 10.5% | 25 | 9.2% |
| **Canolig ddifrifol** | 13 | 5.6% | 2 | 5.3% | 15 | 5.5% |
| **Difrifol** | 18 | 7.7% | 1 | 2.6% | 19 | 7.0% |
| **Cyfanswm** | 233 | 100.0% | 38 | 100.0% | 271 | 100.0% |

# 11 Tueddiadau


## 11.1 Tueddiadau o ran niferoedd sy'n cael triniaeth

Dengys Tabl 21 bod nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth o fewn unrhyw flwyddyn benodol wedi amrywio ers 2015/16, gyda nifer uchaf y cleientiaid yn cael triniaeth yn 2020/21.

**Tabl 21 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth yn ystod y flwyddyn – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cleientiaid sy'n cael triniaeth** | 129 | 209 | 270 | 210 | 271 | 347 |

**Ffigur 1 Tueddiadau o ran nifer y cleientiaid sy'n cael triniaeth – 2015/16 i 2020/21**



Mae gwasanaethau gamblo'n darparu pwynt cyswllt a chymorth ar gyfer gamblo cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo ynghyd â'r rheiny a effeithir gan gamblo rhywun arall. Dengys Tabl 22 bod cyfran y cleientiaid sy'n ceisio cymorth o ganlyniad i gamblo rhywun arall wedi cynyddu o 4% yn 2015/16 i 11% yn 2020/21.

### Tabl 22 Tueddiadau o ran y rheswm dros atgyfeirio– 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N. | % | N. | % | N. | % | N. | % | N. | % |
| **Cleientiaid y mae eu hymddygiad o ganlyniad i anhwylder gamblo** | 123 | 96.1% | 197 | 96.1% | 252 | 93.7% | 186 | 88.6% | 233 | 86.6% | 305 | 87.9% |
| **Rhai eraill a effeithir** | 5 | 3.9% | 8 | 3.9% | 15 | 5.6% | 21 | 10.0% | 34 | 12.6% | 37 | 10.7% |
| **Unigolyn mewn perygl o ddatblygu problem gamblo** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.7% | 3 | 1.4% | 2 | 0.7% | 5 | 1.4% |
| **Ar goll** | 1 | | 4 | | 1 | | 0 | | 2 | | 0 | |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 129 | | 209 | | 270 | | 210 | | 271 | | 347 | |

## 11.2 Tueddiadau o ran y math o gamblo

Y gwahaniaeth mwyaf nodedig a adroddwyd o ran lleoliadau gamblo rhwng 2015/16 a 2020/21 (Tabl 23) fu'r cynnydd yn y gyfran sy'n adrodd eu bod yn defnyddio gwasanaethau gamblo ar-lein (a oedd wedi codi o 65% i 83%) ochr yn ochr â'r gostyngiad yn y gyfran sy'n defnyddio siopau betio (sydd wedi gostwng o 47% i 21%) neu fathau amrywiol o gamblo (sydd wedi gostwng o 20% i 12%).

### Tabl 23 Tueddiadau o ran lleoliadau gamblo – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Siopau Betio** | 57 | 47.1% | 85 | 43.8% | 92 | 37.7% | 66 | 35.9% | 77 | 33.3% | 60 | 21.1% |
| **Neuadd Bingo** | 3 | 2.5% | 6 | 3.1% | 5 | 2.0% | 1 | 0.5% | 5 | 2.2% | 2 | 0.7% |
| **Casino** | 7 | 5.8% | 16 | 8.2% | 11 | 4.5% | 5 | 2.7% | 14 | 6.1% | 12 | 4.2% |
| **Digwyddiadau byw** | 1 | 0.8% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Canolfan Adloniant i Oedolion** | 6 | 5.0% | 13 | 6.7% | 8 | 3.3% | 11 | 6.0% | 11 | 4.8% | 11 | 3.9% |
| **Canolfan Adloniant i Deuluoedd** | 0 | 0.0% | 1 | 0.5% | 2 | 0.8% | 3 | 1.6% | 2 | 0.9% | 0 | 0.0% |
| **Tafarn** | 6 | 5.0% | 5 | 2.6% | 5 | 2.0% | 4 | 2.2% | 6 | 2.6% | 2 | 0.7% |
| **Ar-lein** | 79 | 65.3% | 125 | 64.4% | 173 | 70.9% | 118 | 64.1% | 159 | 68.8% | 237 | 83.2% |
| **Amrywiol** | 24 | 19.8% | 32 | 16.5% | 25 | 10.2% | 10 | 5.4% | 13 | 5.6% | 33 | 11.6% |
| **Clwb aelodau preifat** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Arall** | 4 | 3.3% | 0 | 0.0% | 3 | 1.2% | 2 | 1.1% | 3 | 1.3% | 3 | 1.1% |
| **Cyfanswm** | 121 | | 194 | | 244 | | 184 | | 231 | | 305 | |

## 11.3 Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth

A hwnnw wedi'i grwpio yn ôl flwyddyn y derbyniwyd triniaeth, dengys Tabl 24 nifer o dueddiadau cadarnhaol, gyda chynnydd yng nghyfran y cleientiaid sy'n cwblhau triniaeth a drefnwyd (o 64% i 78%), ochr yn ochr â gostyngiad yn y gyfran sy'n rhoi'r gorau i'w triniaeth (o 28% i 16%).

**Tabl 24 Tueddiadau o ran y rheswm dros adael triniaeth – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Wedi'u rhyddhau trwy gytundeb** | 5 | 4.7% | 6 | 3.5% | 4 | 1.8% | 1 | 0.6% | 9 | 4.4% | 3 | 1.1% |
| **Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd** | 68 | 64.2% | 104 | 60.8% | 153 | 67.1% | 128 | 80.0% | 164 | 80.4% | 213 | 77.5% |
| **Wedi rhoi'r gorau iddi** | 30 | 28.3% | 56 | 32.7% | 64 | 28.1% | 25 | 15.6% | 30 | 14.7% | 45 | 16.4% |
| **Wedi'u cyfeirio ymlaen** | 2 | 1.9% | 4 | 2.3% | 5 | 2.2% | 6 | 3.8% | 0 | 0.0% | 9 | 3.3% |
| **Ymadawedig** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm y cleientiaid a ryddhawyd** | 106 | | 171 | | 228 | | 160 | | 204 | | 275 | |

## 11.4 Tueddiadau o ran nodweddion cleientiaid

Dengys Tabl 25 gynnydd cyffredinol yng nghyfran y cleientiaid sy'n fenywod, sydd wedi codi o 20% yn 2015/16 i 34% yn 2020/21.

**Tabl 25 Tueddiadau o ran rhyw – 2015/16 i 2020/21**

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Gwryw** | 103 | 79.8% | 174 | 83.3% | 218 | 80.7% | 160 | 76.2% | 184 | 67.9% | 224 | 66.3% |
| **Benyw** | 26 | 20.2% | 35 | 16.7% | 51 | 18.9% | 50 | 23.8% | 87 | 32.1% | 114 | 33.7% |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 129 | | 209 | | 270 | | 210 | | 271 | | 347 | |

* Ni chynhwyswyd categorïau rhyw â llai na 30 o gleientiaid yn y tabl hwn

Dengys Tabl 26 bod cyfran y cleientiaid sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu'n gyffredinol o ran cyfran y rhai sy'n wyn neu wyn Prydeinig ers 2015/16 ond nid yn 2020/21.

### Tabl 26 Tueddiadau o ran ethnigrwydd – 2015/16 i 2020/21

| | 2015/16 | | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| **Gwyn neu wyn Prydeinig** | 128 | 99.2% | 204 | 98.1% | 256 | 95.5% | 205 | 97.6% | 256 | 94.5% | 330 | 95.7% |
| **Du neu Ddu Prydeinig** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 2 | 0.7% | 2 | 1.0% | 3 | 1.1% | 7 | 2.0% |
| **Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig** | 1 | 0.8% | 2 | 1.0% | 5 | 1.9% | 2 | 1.0% | 8 | 3.0% | 7 | 2.0% |
| **Cymysg** | 0 | 0.0% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 1 | 0.5% | 3 | 1.1% | 1 | 0.3% |
| **Arall** | 0 | 0.0% | 2 | 1.0% | 4 | 1.5% | 0 | 0.0% | 1 | 0.4% | 0 | 0.0% |
| **Cyfanswm y cleientiaid** | 129 | | 208 | | 268 | | 210 | | 271 | | 347 | |

# Atodiadau

# 12 Atodiadau

## 12.1 Eitemau data FfAD/DRF

### 12.1.1 Tabl Data Unigolion

| Cod yr Eitem ddata | Eitem ddata | Gorfodol (M)/Gofynnol (R) | Tabl Cod Mewnbynnu |
|---|---|---|---|
| X1 | Dynodydd Claf Lleol | M | - |
| X2 | Cod y Darparwr | M | - |
| X3 | Dyddiad Geni (MMBB) | M | - |
| P1 | Rhyw | M | P-A |
| P2 | Cod Post | R | - |
| P3 | Dangosydd economaidd-gymdeithasol | R | P-B |
| P4 | Statws perthynas | R | P-C |
| P5 | Cefndir ethnig | R | P-D |
| P6 | Diagnosis Ychwanegol Cleient | R | P-E |

#### 12.1.1.1 Codau Tabl Data Unigolion

| P-A Rhyw | |
|---|---|
| 0 | Ddim yn hysbys |
| 1 | Gwryw |
| 2 | Benyw |
| 3 | Trawsryweddol |
| 9 | Heb ddweud (gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |

| P-B Dangosydd economaidd-gymdeithasol | |
|---|---|
| 01 | Cyflogedig |
| 02 | Di-waith ac yn Chwilio am Waith |
| 03 | Myfyrwyr sy'n ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant (o leiaf 16 awr yr wythnos) llawn neu ran amser (llai na 16 awr yr wythnos) ac sydd ddim yn gweithio neu wrthi'n chwilio am waith |
| 04 | Rhai â salwch hirdymor neu sy'n anabl, y rheiny sy'n derbyn Budd-dal Analluogrwydd, Cymhorthdal Incwm neu'r ddau; neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| 05 | Rhywun sy'n cadw tŷ sy'n edrych ar ôl y teulu neu'r cartref ac nad yw wrthi'n chwilio am waith |
| 06 | Ddim yn derbyn budd-daliadau ac ddim yn gweithio neu wrthi'n chwilio am waith |
| 07 | Yn y carchar, mewn gofal, neu'n ceisio lloches |
| 08 | Gwaith gwirfoddol di-dâl, nid yw'n gweithio neu wrthi'n chwilio am waith |
| 09 | Wedi ymddeol |
| ZZ | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |

| P-C Statws Perthynas | |
|---|---|
| 0 | Ddim yn hysbys |
| 1 | Wedi Ysgaru/Diddymu Partneriaeth Sifil |
| 2 | Wedi gwahanu |
| 3 | Sengl |
| 4 | Gweddw |
| 5 | Mewn perthynas |
| 6 | Priod/Partneriaeth Sifil |
| 9 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |

| **P-D Cefndir ethnig** | |
|---|---|
| A | Gwyn Prydeinig |
| B | Gwyn Gwyddelig |
| C | Gwyn Ewropeaidd |
| D | Gwyn Arall |
| E | Du, Du Prydeinig: Affricanaidd |
| F | Du, Du Prydeinig: Caribïaidd |
| G | Du, Du Prydeinig: Arall |
| H | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Bangladeshaidd |
| J | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Indiaidd |
| K | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Pacistanaidd |
| L | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Tsieinïaidd |
| M | Asiaidd, Asiaidd Prydeinig: Arall |
| N | Cymysg: Gwyn ac Asiaidd |
| P | Cymysg, Gwyn a Du Affricanaidd |
| R | Cymysg: Gwyn a Du Caribïaidd |
| S | Cymysg: Arall |
| Z | Unrhyw grŵp ethnig arall |

| **P-E Diagnosis ychwanegol cleient** | |
|---|---|
| 0 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |
| 1 | Oes – Ffarmacolegol |
| 2 | Oes – Seicolegol |
| 3 | Oes – Y ddau, ffarmacolegol a seicolegol |
| 4 | Nac oes |

## 12.1.2 Tabl Hanes Gamblo

| Cod Eitem ddata | Eitem ddata | Gorfodol (M)/ Gofynnol (R) | Tabl Cod Mewnbynnu |
|---|---|---|---|
| X1 | Dynodydd Claf Lleol | M | - |
| X2 | Cod darparwr | M | - |
| X3 | Dyddiad Geni (MMBB) | M | - |
| G1 | Gweithgaredd(au) Gamblo | M | G-A |
| G2 | Lleoliad(au) gamblo | M | G-B |
| G3 | Hyd y cyfnod gamblo | M | - |
| G4 | Colli swydd oherwydd gamblo | R | G-C |
| G5 | Perthynas yn chwalu oherwydd gamblo | R | G-D |
| G6 | Oedran y cychwynnodd y gamblo problemus | M | - |
| G7 | Ennill swm mawr o arian yn gynnar | R | G-E |
| G8 | Dyled oherwydd gamblo | R | G-F |
| G9 | Amser a dreulir yn gamblo | R | G-G |
| G10 | Arian sy'n cael ei wario ar gamblo | R | G-H |

### 12.1.2.1 Gambling History Codes

| | G-A Gweithgareddau Gamblo | |
|---|---|---|
| A - Siopau Betio | 1 Ceffylau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Cŵn | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Digwyddiad chwaraeon neu arall | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Peiriant gemau (FOBT) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 5 Peiriant gemau (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 6 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| B - Neuadd Bingo | 1 Lotri byw | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Terfynell | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Peiriant sgiliau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Peiriant gemau (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 5 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| C - Casino | 1 Pocer | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Gemau cardiau eraill | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Rwlét | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Peiriant gemau (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 5 Peiriant gemau (FOBT) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 6 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| D - Digwyddiadau byw | 1 Ceffylau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Cŵn | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Digwyddiad chwaraeon neu arall | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| E - Canolfan Adloniant i Oedolion (Arcêd 18+) | 1 Peiriant gemau (FOBT) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Peiriant gemau (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Peiriannau gwobrwyo sgiliau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| F - Canolfan Adloniant i Deuluoedd (Arcêd) | 1 Peiriant gemau (FOBT) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Peiriant gemau (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Peiriannau gwobrwyo sgiliau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| G - Tafarn | 1 Peiriant gemau (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Chwaraeon | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Pocer | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| H - Ar-lein | 1 Ceffylau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Cŵn | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Gwasgar-fetio | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Digwyddiadau chwaraeon | Nodwch sgôr y cleient |
| | 5 Bingo | Nodwch sgôr y cleient |
| | 6 Pocer | Nodwch sgôr y cleient |
| | 7 Casino (gemau bwrdd) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 8 Casino (slotiau) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 9 Cardiau crafu | Nodwch sgôr y cleient |
| | 10 Cyfnewidfa fetio | Nodwch sgôr y cleient |
| | 11 Arall | Nodwch sgôr y cleient |

| | | |
|---|---|---|
| I - Amrywiol | 1 Gemau preifat/wedi'u trefnu | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Loteri (Cenedlaethol) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Loteri (arall) | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Cardiau crafu | Nodwch sgôr y cleient |
| | 5 Pŵls Pêl-droed | Nodwch sgôr y cleient |
| | 6 Gorsaf wasanaethau (peiriant gemau) | Nodwch sgôr y cleient |
| J - Clwb aelodau preifat | 1 Pocer | Nodwch sgôr y cleient |
| | 2 Gemau cardiau eraill | Nodwch sgôr y cleient |
| | 3 Peiriant gemau | Nodwch sgôr y cleient |
| | 4 Arall | Nodwch sgôr y cleient |
| K - Arall | 1 Gweithgaredd arall heb ei gategoreiddio yma | Nodwch sgôr y cleient |

| **G-B Colli swydd oherwydd gamblo** | |
|---|---|
| 0 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |
| 1 | Do |
| 2 | Naddo |
| 9 | Ddim yn hysbys |

| **G-C Perthynas yn chwalu oherwydd gamblo** | |
|---|---|
| 0 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |
| 1 | Do |
| 2 | Naddo |
| 9 | Ddim yn hysbys |

| **G-D Ennill swm mawr o arian yn gynnar** | |
|---|---|
| 0 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |
| 1 | Do |
| 2 | Naddo |
| 9 | Ddim yn hysbys |

| **G-F Dyled oherwydd gamblo** | |
|---|---|
| 0 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |
| 1 | Nac oes |
| 2 | O dan £5000 |
| 3 | £5000 - £9,999 |
| 4 | £10,000 - £14,999 |
| 5 | £15,000 - £19,999 |
| 6 | £20,000 - £99,999 |
| 7 | £100,000 neu ragor |
| 8 | Methdaliad |
| 9 | Mewn IVA |
| 10 | Ddim yn gwybod (rhywfaint) |

### 12.1.3 Tabl Atgyfeirio

| Cod Eitem ddata | Eitem ddata | Gorfodol (M)/Gofynnol (R) | Tabl Cod Mewnbynnu |
|---|---|---|---|
| X1 | Dynodydd Claf Lleol | M | - |
| X2 | Cod y darparwr | M | - |
| X3 | Dyddiad Geni (MMBB) | M | - |
| R1 | Ffynhonnell yr atgyfeiriad | M | R-A |
| R2 | Dyddiad derbyn atgyfeiriad | M | - |
| R3 | Dangosydd derbyn atgyfeiriad | M | R-B |
| R4 | Rheswm dros yr atgyfeiriad | M | R-C |
| R5 | Dangosydd ailddechrau gamblo | R | R-D |
| R6 | Rheswm dros roi'r gorau iddi | R | R-E |
| R7 | Dyddiad gorffen | R | - |

#### 12.1.3.1 Codau Atgyfeirio

| R-A Ffynhonnell yr atgyfeiriad | |
|---|---|
| A1 | Meddyg Teulu |
| A2 | Ymwelydd Iechyd |
| A3 | Gofal Iechyd Sylfaenol Arall |
| B1 | Hunanatgyfeiriad |
| B2 | Gofalwr |
| C1 | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| C2 | Gwasanaeth Addysg |
| D1 | Cyflogwr |
| E1 | Yr Heddlu |
| E2 | Llysoedd |
| E3 | Gwasanaeth Prawf |
| E4 | Carchar |
| E5 | Gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio y Llys |
| G1 | Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Sector Annibynnol |
| G4 | Sector Gwirfoddol |
| H1 | Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys |
| I1 | Iechyd Meddwl, Ymddiriedolaeth GIG |
| M1 | Gwasanaethau Lloches |
| M4 | Tîm Gweithredu ar Gyffuriau / Asiantaeth Camddefnyddio Cyffuriau |
| M5 | Canolfan Byd Gwaith |
| M6 | Gwasanaeth neu asiantaeth arall |

| R-B Dangosydd derbyn atgyfeiriad | |
|---|---|
| 1 | Oes |
| 2 | Nac oes |

| R-C Rheswm dros yr atgyfeiriad | |
|---|---|
| 1 | Gamblwr problemus |
| 2 | Rhai eraill a effeithir |
| 3 | Unigolyn mewn perygl o ddatblygu problem gamblo |

| R-D Dangosydd ailddechrau gamblo | |
|---|---|
| 0 | Heb Ddweud (Gofynnwyd i'r unigolyn ond gwrthododd ateb) |
| 1 | Oes |
| 2 | Nac oes |
| 9 | Ddim yn hysbys |

| R-E Rheswm Dros Orffen | |
|---|---|
| 9 | Cynigiwyd Asesiad ond DNA |
| | **WEDI'U HASESU'N UNIG** |
| 10 | Ddim yn addas ar gyfer y gwasanaeth – ddim wedi gweithredu neu wedi cyfeirio'n ôl at yr atgyfeiriwr |
| 11 | Ddim yn addas ar gyfer y gwasanaeth – wedi'i gyfeirio i rywle arall gyda chytundeb y claf |
| 12 | Wedi'i ryddhau trwy gydgytundeb, yn dilyn rhoi cyngor a chymorth |
| 13 | Wedi'i atgyfeirio at wasanaeth therapi arall trwy gytundeb â'r claf |
| 14 | Yn addas ar gyfer y gwasanaeth, ond mae'r claf wedi gwrthod y driniaeth a gynigiwyd |
| 15 | Ymadawedig (wedi'i asesu'n unig) |
| 97 | Ddim yn hysbys (wedi'i asesu'n unig) |
| | **WEDI'I ASESU AC WEDI CAEL TRINIAETH** |
| 42 | Wedi cwblhau'r driniaeth a drefnwyd |
| 43 | Wedi rhoi'r gorau i'r driniaeth (terfynu heb ei drefnu) |
| 44 | Wedi'i atgyfeirio at wasanaeth arall |
| 45 | Ymadawedig (wedi'i asesu ac wedi cael triniaeth) |
| 98 | Ddim yn hysbys (wedi'i asesu ac wedi cael triniaeth) |

## 12.1.4 Tabl Apwyntiadau

| Cod Eitem ddata | Eitem ddata | Gorfodol (M)/Gofynnol (R) | Tabl Cod Mewnbynnu |
|---|---|---|---|
| X1 | Dynodydd Claf Lleol | M | - |
| X2 | Cod y darparwr | M | - |
| X3 | Dyddiad Geni (MMBB) | M | - |
| A1 | Dyddiad yr apwyntiad | M | - |
| A2 | Cod unigryw y sawl sy'n rhoi gofal | R | - |
| A3 | Presenoldeb | M | A-A |
| A4 | Hyd y cysylltiad | R | - |
| A5 | Pwrpas yr apwyntiad | R | A-B |
| A6 | Cyfrwng yr apwyntiad | R | A-C |
| A7 | Ymyrraeth a roddwyd | M | A-D |
| A8 | Sgôr MDGP | R | - |
| A9 | Sgôr CORE-10 | M | - |

### 12.1.4.1 Codau apwyntiadau

| A-A Presenoldeb | |
|---|---|
| 5 | Wedi mynychu'n brydlon, neu os yn hwyr, cyn yr oedd y gweithiwr gofal proffesiynol perthnasol yn barod i weld y claf |
| 6 | Wedi cyrraedd yn hwyr, ar ôl yr adeg yr oedd y gweithiwr gofal proffesiynol yn barod i weld y claf, ond fe'i gwelwyd |
| 7 | Claf wedi cyrraedd yn hwyr ond ni ellid ei weld |
| 2 | Apwyntiad wedi'i ganslo gan, neu ar ran, y claf |
| 3 | Heb fynychu – heb roi rhybudd ymlaen llaw |
| 4 | Apwyntiad wedi'i ganslo neu ei ohirio gan y darparwr gofal iechyd |

| A-B Pwrpas yr apwyntiad | |
|---|---|
| 1 | Asesu |
| 2 | Triniaeth |
| 3 | Asesu a thriniaeth |
| 4 | Adolygu yn unig |
| 5 | Adolygu a thriniaeth |
| 6 | Apwyntiad dilynol ar ôl cwblhau triniaeth |
| 7 | Arall |
| 8 | Heb ei gofnodi |

| A-C Cyfrwng yr apwyntiad | |
|---|---|
| 1 | Cyfathrebu wyneb-yn-wyneb |
| 2 | Ffôn |
| 3 | Camera gwe (e.e. skype) |
| 4 | Sgwrs ar-lein |
| 5 | E-bost |
| 6 | Gwasanaeth Negeseuon Byrion (SMS) |

| A-D Ymyrraeth a roddwyd | |
|---|---|
| 1 | CBT |
| 2 | Cwnsela |
| 3 | Rhaglen breswyl |
| 4 | Cyngor byr |
| 5 | Seicotherapi |
| 6 | Arall (nodwch os gwelwch yn dda) |

## 12.2 Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus (MDGP/PGSI)

Y MDGP yw'r mesur a ddefnyddir fwyaf ar gyfer gamblo problemus ym Mhrydain Fawr. Mae'n cynnwys naw eitem ac mae pob eitem yn cael ei hasesu yn ôl graddfa bedair pwynt: byth, weithiau, y rhan fwyaf o'r amser, bron bob amser. Caiff yr ymatebion i bob eitem eu sgorio fel a ganlyn:

- byth = sero
- weithiau = un
- y rhan fywaf o'r amser = dau
- bron bob amser = tri

Caiff y sgorau eu symio wedyn i roi cyfanswm y sgôr, sy'n gallu amrywio o leiafswm o 0 i uchafswm o 27.

Pan gaiff ei ddefnyddio fel adnodd sgrinio ar gyfer y boblogaeth, y cyfnod cyfeirio nodweddiadol ar gyfer y cwestiynau yw "y 12 mis diwethaf". O fewn lleoliadau sy'n darparu triniaeth, bydd darparwyr fel arfer yn addasu'r raddfa er mwyn holi cleientiaid am eu hymddygiad ers eu hapwyntiad, neu yn ystod y bythefnos ddiwethaf.[66]

Mae'r naw eitem fel y'u rhestrir isod:

Gan feddwl am y [CYFNOD AMSER] diwethaf...

1. Ydych chi wedi betio mwy nag yr oeddech yn wir yn gallu fforddio ei golli?
2. Ydych chi wedi bod angen gamblo â symiau mwy o arian i gael yr un teimlad o gyffro?
3. Pan oeddech wedi gamblo, wnaethoch chi fynd yn ôl ar ddiwrnod arall i geisio ennill yr arian yr oeddech wedi'i golli yn ôl?
4. Ydych chi wedi benthyg arian neu werthu unrhyw beth i gael arian i gamblo?
5. Ydych chi wedi teimlo efallai bod gennych broblem â gamblo?
6. Ydych chi'n teimlo bod gamblo wedi achosi unrhyw broblemau iechyd i chi, gan gynnwys straen a gorbryder?
7. Ydy pobl wedi beirniadu eich betio neu wedi dweud wrthych fod gennych broblem gamblo, p'un ai yr oeddech yn meddwl bod hynny'n wir ai peidio?
8. Ydych chi'n teimlo bod eich gamblo wedi achosi problemau ariannol i chi neu eich aelwyd?
9. Ydych chi wedi teimlo'n euog am y ffordd yr ydych yn gamblo neu'r hyn sy'n digwydd pan fyddwch yn gamblo?

Mae sgôr MDGP o wyth neu ragor yn cynrychioli gamblwr problemus, sef gamblwyr sy'n gamblo gyda chanlyniadau negyddol gyda'r posibilrwydd o fod wedi colli rheolaeth. Dyma'r trothwy a argymhellir gan ddatblygwyr y MDGP a dyma'r terfyn a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad hwn.

66 Cafodd cysondeb y cyfnod amser yr holwyd amdano gan ddarparwyr ei nodi fel maes posibl i'w wella o safbwynt methodolegol yn y casgliad o ddata DRF a gyflwynwyd.

Mae sgoriau o rhwng tri a saith yn cynrychioli gamblo ag iddo 'risg canolig' (sef gamblwyr sy'n profi lefel ganolig o broblemau sy'n arwain at rai canlyniadau negyddol), ac mae sgôr i yn neu ddau'n cynrychioli 'risg isel' o ran gamblo (sef gamblwyr sy'n profi lefel isel o broblemau, gydag ychydig iawn neu ddim canlyniadau negyddol yn cael eu nodi).

## 12.3 CORE-10

Mae CORE yn golygu "Canlyniadau Clinigol Mewn Gwerthusiad Rheolaidd" ("Clinical Outcomes in Routine Evaluation") ac mae'r system CORE yn cynnwys dulliau gweithredu a syniadau ar gyfer cefnogi'r gwaith o fonitro newid a chanlyniadau mewn ymarfer rheolaidd ym maes seicotherapi, cwnsela ac unrhyw waith arall sy'n ceisio hyrwyddo adferiad seicolegol, iechyd a lles. Y 'CORE System Trust' sydd berchen yr hawlfraint ar yr holl offerynnau o fewn y system.

Mae mesur canlyniadau CORE (CORE-10) yn ddull monitro a ddefnyddir fesul sesiwn a chanddo eitemau sy'n cynnwys gorbryder, iselder, trawma, problemau corfforol, y modd y mae'r unigolyn yn gweithredu a'r risg i'w hun.

Gofynnir i gleientiaid ateb 10 eitem yn ôl graddfa ymatebion sy'n nodi amlder yr eitemau a nodir. Dyma fanylion yr eitemau, yr ymatebion a'r drefn sgorio:

Ar gyfer pob datganiad, dywedwch pa mor aml yr ydych wedi teimlo felly yn ystod yr wythnos ddiwethaf...

| | **Yr opsiynau o ran ymatebion a'r sgôr cyfatebol ar gyfer bob eitem** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dim o gwb** | **Dim ond ambell waith** | **Weithiau** | **Yn aml** | **Y rhan fwyaf o'r amser neu drwy'r amser** |
| 1. Rwyf wedi teimlo'n ar bigau'r drain, yn orbryderus neu'n nerfus | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 2. Rwyf wedi teimlo bod gen i rywun i droi ato am gymorth pan fo angen | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 3. Rwyf wedi teimlo fy mod yn gallu ymdopi pan fydd pethau'n mynd o'i le | 4 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| 4. Mae siarad â phobl wedi teimlo'n ormod i mi | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5. Rwyf wedi teimlo panig neu ofn | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 6. Rwyf wedi cynllunio i roi pen ar y cwbl | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 7. Rwyf wedi cael trafferth cysgu neu rwy'n deffro'n aml | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 8. Rwyf wedi teimlo yn anobeithiol neu'n dda i ddim | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 9. Rwyf wedi teimlo'n anhapus | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 10. Mae delweddau neu atgofion annymunol wedi bod yn fy ngofidio | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 |

Caiff y sgorau eu symio wedyn i roi cyfanswm y sgôr, sy'n gallu amrywio o leiafswm o 0 i uchafswm o 40. Byddai sgôr o 40 yn cael ei ddosbarthu fel gofid difrifol, 25 = canolig i ddifrifol, 20 = canolig, 15 = ysgafn, gyda 10 neu lai yn is na'r torbwynt clinigol.

**Ynglŷn â GambleAware:**
Elusen annibynnol yw GambleAware (Rhif Elusen 1093910 yng Nghymru a Lloegr, Yr Alban (SC049433)) sy'n hyrwyddo dull iechyd cyhoeddus er mwyn atal niwed drwy gamblo.

Mae GambleAware yn gomisiynydd gwasanaethau atal, addysgu a thriniaeth integredig ar raddfa genedlaethol, gyda thros £56 miliwn o gyllid o dan reolaeth weithredol. Fel elusen annibynnol, rheoleiddir GambleAware gan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, a Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR).

I dderbyn rhagor o wybodaeth am GambleAware, cysylltwch â info@gambleaware.org os gwelwch yn dda.

**Ynglŷn â ViewIt:**
Mae ViewIt Ltd yn gwmni a ddechreuwyd ym Mhrifysgol Manceinion, a gefnogir gan GC Business Growth Hub sy'n arbenigo mewn rheoli a dadansoddi data i ddarparu platfform ar gyfer adroddiadau syml.

Mae'r cwmni'n deillio o'r tîm sy'n cynhyrchu a dilysu Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer allbynnau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Monitro Triniaethau Cyffuriau ar ran Iechyd Cyhoeddus Lloegr.

National Gambling Treatment Service